Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## Gwerthusiad Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru

Adroddiad Llawn, yn cynnwys Rhannau I a II

Rhwydwaith Gwledig Cymru
Uned Cymorth

OGL

© Crown Copyright 2015 ISBN Number:

## Tabl cynnwys


Crynodeb ........ i

Cyflwyniad ........ i

Canfyddiadau Allweddol ........ iii

Crynodeb Rhan II ........ viii

Argymhellion Allweddol (Rhan II) ........ xi

1. Cyflwyniad ........ 1

Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Cymru ........ 1

Diben a Methodoleg y Gwerthusiad ........ 3

Strwythur yr Adroddiad ........ 5

2. Gweithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru ........ 7

Trosolwg o'r Gweithredu ........ 7

Anghenion ac Amcanion ........ 7

Llywodraethu ........ 12

Cyfathrebu ........ 17

Rhwydweithio, Digwyddiadau a Chyd-drafod â Rhanddeiliaid ........ 18

Cymorth ac Adeiladu Capasiti ........ 25

3. Adolygu'r cyfathrebu a dadansoddi'r cyd-drafod ........ 27

4. Adolygiad o ymchwil COVID-19 ........ 35

Effaith Covid-19 ........ 35

Ymateb 36

Ymateb a goblygiadau i Rwydwaith Gwledig Cymru ........ 37

5. Asesiad o'r hyn a Gyflawnwyd o gymharu â'r Cylch Gwaith ........ 40

Llwyddiannau a heriau'r gwaith ........ 40

Argymhellion ar gyfer gweddill y cyfnod a gyllidir gan yr RDP ........ 43

Cyflwyniad ........ 46

Canfyddiadau Allweddol o Rhan I ........ 46

Argymhellion ar gyfer gweddill y cyfnod a gyllidir gan yr RDP ........ 43

Strwythur Rhan II yr Adroddiad ........ 46

6. Y Ffordd Ymlaen a Senarios Ôl-RDP ........ 52

Cyflwyniad ........ 52

Senarios ........ 57

7. Astudiaethau Achos ........ 65

8. Dewisiadau ar gyfer y Dyfodol: Pa fath o Rwydwaith Gwledig i Gymru? ........ 75
Strwythur, Rheoli a Llywodraethu ........ 76
Cylch Gwaith a Gweithgareddau ........ 81
Cyfathrebu ........ 86
Rhwydweithio (gan gynnwys hwyluso gweithgareddau cydweithio yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, Yr Undeb Ewropeaidd ac yn ehangach) ........ 87
Goruchwylio Strategol ........ 92
Ymateb i Ymholiadau a Chyfeirio ........ 95
Hyfforddiant ........ 96
Ymchwil ac Arloesi ........ 97
Eirioli .. ........ 99
Monitro a Gwerthuso ........ 100
9. Argymhellion ........ 102
Cam 1 – Pontio o'r RDP ........ 102
Cam 2 – Sefydlu Rhwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi ôl-RD i Gymru ........ 103
Cam 3 – Swyddogaeth Uned Gefnogi ôl-RDP ........ 106

**Rhestr tablau**

Tabl 0.1 – Crynodeb o Senarios ........ ix
Tabl 0.2 – Swyddogaethau posibl i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y senarios Ôl-Brexit ........ x
Tabl 2.1: Anghenion am Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ........ 8
Tabl 2.2: Amcanion Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ........ 10
Tabl 8.2 – Rolau posibl i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y senarios Ôl-Brexit ........ 63
Tabl 8.3 – Cyd-destun y presennol a'r dyfodol ........ 64

## Geirfa

| Talfyriad/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CAR | Cellule Animation du Reseau |
| CLLD | Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned |
| EAFRD | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| ENRAW | Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant |
| LAG | Grwp Gweithredu Lleol |
| LEADER | Liaison Entre Actions de Développement de l'Economie Rurale |
| NRN | Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol |
| PWDR | Programme Wallon de Developpement Rural |
| RCDF | Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig |
| RDP | Rhaglen Datblygu Gwledig |
| RWDR | Réseau Wallon de Developpement Rural |
| SU | Uned Gefnogi |
| TG | Grŵp Thematig |
| WRN | Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| WRNSU | Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru |

# Crynodeb

## Cyflwyniad

i. Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad allanol Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRNSU) (‘yr Uned Gefnogi’).

ii. Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (y cyfeirir ati hefyd mewn rhai mannau fel ‘Uned Cymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru’) yw’r Uned Gefnogi a’r ysgrifenyddiaeth sy’n gweinyddu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd i gefnogi gwaith y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) yng Nghymru. Gorfodir pob un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd gan Adran 1 o Erthygl 54 o Reoliad Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) i sefydlu a gweithredu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol ac iddo’r nodau canlynol: cynyddu’r graddau mae rhanddeiliaid yn ymwneud â gweithredu datblygu gwledig, rhoi gwybod i’r cyhoedd yn ehangach a buddiolwyr posibl am bolisi datblygu gwledig a chyfleoedd cyllid, a meithrin arloesi mewn amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig.

iii. Mae Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn gweithredu fel pwynt canolog y gall rhanddeiliaid ar draws gwahanol sectorau a meysydd polisi o fewn datblygu gwledig ryngweithio trwyddo a rhannu gwybodaeth a dysg. Ar ôl cefnogi gweithredu’r Rhaglen LEADER o’r blaen mewn cyfnodau cyllido blaenorol, yn y cyfnod cyllido 2014-2020, mae Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol wedi cefnogi gwaith yr RDP fel cyfanrwydd, gan geisio cynyddu’r graddau mae rhanddeiliaid yn ymwneud mewn datblygu gwledig. Mae Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol felly’n gweithredu fel cyfrwng rhwng llunwyr polisi, ymarferwyr a’r gymuned wledig ehangach, gan hwyluso’r llif gwybodaeth rhwng rhanddeiliaid mewn datblygu gwledig.

iv. Mae’r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn rhyngweithio hefyd gyda’r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig (ENRD), sydd ynddo’i hun yn ganolbwynt ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar sut

mae polisi datblygu gwledig, rhaglenni a phrosiectau yn gweithio yn ymarferol. Trwy'r ENRD, mae'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn rhannu'r arferion gorau a hwyluso cydweithio a rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid datblygu gwledig ledled yr Undeb Ewropeaidd.

v. Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi derbyn £2,366,885 mewn cyllid cyhoeddus yng nghyfnod 2014-2020 y rhaglen, gyda £1,017,761 o hwn yn cael ei ddarparu gan yr EAFRD a £1,349,124 yn cael ei gydgyllido gan Lywodraeth Cymru.

vi. Roedd gwerthusiad Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cynnwys y canlynol:

a) Adolygiad desg o'r holl bolisi, dogfennaeth a data perthnasol;
b) Cynhyrchu model rhesymeg a Theori Newid ehangach i'r Uned Gefnogi, gan gynnwys cynnal gweithdy model rhesymeg ar-lein gyda thîm gweithredu'r Uned Gefnogi;
c) Cyfweliadau manwl gydag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid ar draws datblygu gwledig yng Nghymru a'r tu hwnt, gan gynnwys rhanddeiliaid polisi allweddol mewn datblygu gwledig, buddiolwyr cyllid RDP, aelodau Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru, a gweinyddwyr Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER;
d) Cyfweliadau gyda gweinyddwyr Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
e) Casglu data ansoddol a meintiol trwy arolwg ar-lein o'r gymuned ddatblygu gwledig;
f) Gweithdai gyda Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru a gydag gweinyddwyr Rhaglen LEADER;
g) Cynhyrchu tair astudiaeth achos o arferion gorau Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn Wallonia, y Ffindir ac Iwerddon;
h) Asesiad o senarios cyllido ôl-RDP yn y dyfodol lle gallai'r Uned Gefnogi neu rwydwaith cyfatebol weithredu;
i) Asesiad manwl o ddewisiadau yn y dyfodol i'r Uned Gefnogi neu rwydwaith cyfatebol ôl-RDP;

j) Cynhyrchu cyfres o argymhellion i’r Uned Gefnogi ar gyfer symud ymlaen.

**Canfyddiadau Allweddol**

vii. Mae angen clir am swyddogaeth rhwydwaith gwledig mewn datblygu gwledig. Roedd y mwyafrif o randdeiliaid yn cytuno â’r haeriad hwn, gan nodi’r buddion a ddaw gyda swyddogaeth rhwydwaith wrth annog cydweithredu rhwng rhanddeiliaid, lledaenu gwybodaeth i’r gymuned ddatblygu gwledig, a helpu rhoi LEADER ar waith.

viii. Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi wynebu heriau i’w gweithrediadau yn sgil cyfyngiadau ar adnoddau. O’r chwe aelod o dîm yr Uned Gefnogi, dim ond dau sy’n cael eu cyflogi’n llawn-amser, gyda’r pedwar aelod arall o staff yn gweithio’n rhan-amser. Yn ogystal, yn y deuddeng mis diwethaf, mae’r Uned wedi wynebu problemau gyda staffio. Mae rhai aelodau o’r tîm wedi cael eu ail-aseinio o bryd i’w gilydd i gyflawni gwaith i ddibenion y tu hwnt i’w cylch gwaith gwreiddiol neu waith nad yw’n ymwneud â’r Uned Gefnogi. Mae hyn wedi arwain at dîm yr Uned Gefnogi yn cael ei ledaenu’n deneuach dros ei thasgau.

ix. Roedd staff Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cael eu gweld fel rhai cymwys, gwybodus a chanddynt brofiad da mewn datblygu gwledig, gan gynnwys cysylltiadau helaeth â rhanddeiliaid yn cynrychioli sectorau gwledig traddodiadol. Roedd rhanddeiliaid Ewropeaidd yn nodi bod yr Uned Gefnogi yn effeithiol fel uned gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, yn enwedig wrth gynrychioli a hyrwyddo datblygu gwledig Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol.

x. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o gylch gwaith a gweithgareddau’r Uned Gefnogi ymysg rhanddeiliaid datblygu gwledig y tu allan i raglen LEADER. Priodolwyd hyn i’r Uned Gefnogi’n gorfod gwasanaethu, yn y rhaglen hon, feysydd o’r RDP nad oedd wedi eu cynnwys yn ei chylch gwaith o’r blaen, a diffyg gofyniad digon ffurfiol i randdeiliaid, gan gynnwys arweinyddion polisi a chynlluniau Llywodraeth Cymru, i

ymwneud â'r Uned Gefnogi. Dylid nodi bod Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill y siaradwyd â hwy wedi wynebu heriau tebyg.

xi. Er bod aelodau Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cydnadod ei werth posibl ar gyfer gweithredu'r Rhwydwaith, roedd y grŵp llywio'n cael ei weld gan randdeiliaid y siaradwyd â hwy, fel corff ar gyfer cymeradwyo digwestiwn, heb yr awdurdod i 'lywio' Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ei gweithrediadau. Roedd beirniadaeth fod y Grŵp Llywio wedi cael ei sefydlu'n rhy hwyr i ddylanwadu ar waith y Rhwydwaith, ac mai'r 'un wynebau arferol' a oedd arno. Roedd cyfarfodydd y Grŵp Llywio wedi dod yn llai aml hefyd dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil anawsterau gydag adnoddau, gydag aelodau'n gadael y Grŵp Llywio. Mae, fodd bynnag, awydd cryf o hyd ymysg aelodau'r Grŵp Llywio i lywio a chymryd rhan yn y rhwydwaith gwledig ac yn yr RDP yn fwy cyffredinol. Yn ogystal, gellir gorestyn rhwystrau logistaidd a wynebwyd wrth gynnull y Grŵp Llywio trwy ddefnyddio fideogynadledda, gyda'r Grŵp Llywio rhithwir diweddaraf i gael ei gynnal yn denu presenoldeb da iawn.

xii. Roedd pryder ymysg rhanddeiliaid nad oedd Rhwydwaith Gwledig Cymru'n cyflawni ei gylch gwaith llawn, gyda diffyg ymwneud rhagweithiol yn cael ei nodi fel thema gyffredin. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod hyn yn ymddangos fel pe bai yn sgil anawsterau gyda newidiadau sylweddol mewn staffio, yn enwedig ar draws Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn rhwystr i weithredu'r Rhwydwaith. Credai rhanddeiliaid fod gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Uned Gefnogi'n cael eu llesteirio gan newidiadau cyson mewn staff. Roedd rhai o'r rheini a gyfwelwyd yn mynegi bod diffyg adnoddau addas i'r Uned Gefnogi wedi effeithio ar gapasiti'r Uned i gyflawni ei photensial.

xiii. Roedd rhanddeiliad ag agwedd gadarnhaol at swyddogaeth gyfathrebu'r Uned Gefnogi, a dyma'r enghraifft amlycaf a gorau ohoni'n cyflawni ei chylch gwaith. Roedd canmoliaeth uchel i'r wefan yn enwedig, gyda llawer o randdeiliaid yn cydnabod y gwaith a oedd

wedi mynd i sefydlu'r wefan i fod yn annibynnol o Lywodraeth Cymru a gallu cyhoeddi cynnwys yn fwy rhydd.

xiv. Er bod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi hwyluso digwyddiadau rhwydweithio yn ystod cyfnod y rhaglen bresennol, roedd rhanddeiliaid yn siomedig gyda'r lleihad yn y nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd rhwng 2017 a dechrau 2020. Fodd bynnag, cynhaliwyd digwyddiadau yng Nghymru drwy gydol y cyfnod hwn, gyda digwyddiadau eraill a hwyluswyd gan yr Uned Gefnogi yn digwydd y tu hwnt i Gymru. Mae canfyddiadau rhanddeiliaid ar y mater hwn yn dangos gwahaniaeth rhwng disgwyliadau rhanddeiliaid a'r nifer a'r mathau o ddigwyddiadau a gynhaliwyd. Er gwaethaf cau'r RCDF a'r symud at ENRAW, dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid (gan gynnwys buddiolwyr RDP a Grwpiau Gweithredu Lleol) y byddent wedi hoffi gweld mwy o ddigwyddiadau thematig a chydweithredol o fewn Cymru.

xv. Roedd cydnabyddiaeth fodd bynnag o'r datblygiadau cadarnhaol a wnaed yn 2020 yn ffurf digwyddiadau rhithwir a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan yr Uned Gefnogi, gan fanteisio ar y symudiad at gyfarfodydd ar-lein er mwyn cynnal digwyddiadau a gweithdai rhwydweithio. Mae'r Uned Gefnogi wedi cynnal cyfres o bedwar digwyddiad a gweithdy thematig ar-lein ers mis Medi 2020. Mae rhwyddineb y modd eu daethpwyd â rhanddeiliaid at ei gilydd i archwilio materion thematig fel hyn yn argoeli'n dda am amserlen fwy ffrwythlon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

xvi. Dywedodd rhanddeiliaid fod digwyddiadau wyneb yn wyneb rhwng tair a phum mlynedd yn ôl wedi bod yn fuddiol i randdeiliaid, fel cyfarfodydd cadwyni cyflenwi i ffermwyr, grwpiau trafod gwlân a thecstilau, a sioeau teithiol. Roedd y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i fuddiolwyr cyllid RDP rannu profiadau a'r arferion gorau. Mae data sy'n dal angen ei gasglu ynghylch budd digwyddiadau rhithiol a gynhaliwyd yn ddiweddar, fel y digwyddiad gwlân a thecstilau ar-lein ym mis Hydref 2020.

xvii. Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol ar y cyfan yn feirniadol o ddiffyg hwyluso rhagweithiol o ran rhwydweithio a chydweithio ar lefel Cymru gyfan. Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn rhwydweithio'n rhanbarthol yn bennaf o fewn Cymru, gyda grwpiau'n cyfathrebu o fewn y de-ddwyrain, y de-orllewin a'r gogledd. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn dweud bod y rhyngweithio hwn yn deillio'n bennaf o gysylltiadau a oedd yn bod eisoes, heb fawr o hwyluso gan yr Uned Gefnogi. Roedd Grwpiau Gweithedu'n sôn am y potensial i'r Uned Gefnogi fod wedi gwneud mwy i gynorthwyo cyfleoedd i gydweithio a datblygu'r cysylltiadau a oedd yn bod eisoes. Er gwaethaf awgrymiadau'n cael eu gwneud i'r Uned Gefnogi i hyn ddigwydd, ymddengys nad yw hyd wedi digwydd eto. Un anhawster a nodwyd oedd diffyg dealltwriaeth ynghylch pwy oedd â chyfrifoldeb am arwain ar gydweithio a rhwydweithio, gyda Grwpiau Gweithredu Lleol a'r Uned Gefnogi â'r naill yn disgwyl i'r llall hwyluso hyn.

xviii. Y farn oedd bod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn gyfrannwr brwdfrydig i'r ENRD mewn disgwyddiadau cydweithio, wrth rannu syniadau, mentrau ac enghreifftiau o Gymru. Y farn hefyd oedd eu bod yn ddefnyddiol fel esiampl i wledydd eraill o'r hyn y gall gwlad fach ei gyfrannu at yr ENRD.

**Argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod yr RDP**

xix. *Ailgwmpasu diben y grŵp llywio*: ailgysylltu a'r grŵp llywio i ddefnyddio eu harbenigedd a phrofiad er mwyn asesu'r ffordd orau y gall Rhwydwaith Gwledig Cymru gefnogi'r pontio o'r RDP at gyfleoedd cyllido newydd. Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio is-grwpiau thematig er mwyn ymdrin â rhai o brif anghenion LEADER a'r rhanddeiliaid datblygu gwledig eraill.

xx. *Cyfleu'n well rôl Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i randdeiliaid:* ailgysylltu ag arweinwyr cynlluniau RDP a rhanddeiliaid ehangach i atgoffa rhanddeiliaid o'r gwasanaeth y gall yr Uned Gefnogi ei ddarparu. Gall yr ymarferiad hwn hefyd gwmpasu

anghenion tymor byr gwahanol gynlluniau RDP i adnabod ffyrdd y gall yr Uned Gefnogi gefnogi'r pontio at senarios ar ôl cyllid RDP.

xxi. *Sefydlu gweithdrefnau cliriach ar gyfer syniadau am ddigwyddiadau gan Grwpiau Gweithredu Lleol, a sefydlu eglurder o ran lle mae'r cyfrifoldebau'n gorwedd:* mae'r anawsterau a nodwyd wrth droi syniadau ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol yn ddigwyddiadau yn dangos proses broblemus ar gyfer gwireddu syniadau am ddigwyddiadau. Rhaid mynd i'r afael â'r tagfeydd neu rwystrau. Mae angen disgwyliad clir o pwy sydd â chyfrifoldeb i wthio ymlaen gyda datblygu'r digwyddiad, a gwell proses ar gyfer troi syniad am ddigwyddiad yn brosiect.

xxii. *Mandad i arweinwyr cynlluniau ddod i gysylltiad*: ceisio perthynas fwy ffurfiol gydag arweinwyr cynlluniau ar draws yr RDP i agor cyfathrebu rheolaidd. Sefydlu'r cynsail o gyflwyniadau ffurfiol a sianel agored gyda rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig arweinwyr polisi a chynlluniau.

xxiii. *Adeiladu ar ddigwyddiadau thematig diweddar a gynhaliwyd ar-lein:* Dilyn dull gweithredu mwy thematig wrth drefnu digwyddiadau a manteisio ar y symudiad at weithio ar-lein i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd.

xxiv. *Dylai Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ystyried annog Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru i ddilyn arfer dda a osodwyd gan Grŵp Gweithredu Lleol y de-orllewin:* Mae cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Lleol De-orllewin Cymru yn fodel o arfer dda y dylid ei ystyried gan weinyddwyr LEADER ledled Cymru. Mae cynnwys cadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol yn cynnig cyfrwng i ymwneud yn well â Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhwydweithio ac mae'n cynnig fforwm i weinyddwyr ac aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol i rannu syniadau a'r arferion gorau, ac ymdrin â materion sy'n codi.

xxv. *Archwilio'r posibilrwydd o weithdai i Grwpiau Gweithredu Lleol ar fywyd ar ôl RDP:* adnabod, efallai wrth ymgynghori â gweinyddwyr Rhaglenni LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol, themâu a phynciau

y gellir rhoi sylw iddynt mewn gweithdai a fyddai’n ailegnïo Grwpiau Gweithredu Lleol a dechrau’r broses o gynllunio ar gyfer dyfodol y tu hwnt i gyllid RDP. Roedd llawer o randdeiliaid LEADER yn nodi diddordeb aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol yn pylu wrth i’r RDP ddod i ben. Mae angen gweithgarwch i gynnal momentwm tuag at senarios cyllido yn y dyfodol. Mae Rhwydwaith Gwledig yr Alban wedi cynnal gweithdai ar gyllid gwahanol i Grwpiau Gweithredu Lleol, ac argymhellir yr efelychir y dull hwn.

**Crynodeb Rhan II**

xxvi. Mae Rhan II yr adroddiad hwn yn edrych tua’r dyfodol ac ar ddewisiadau posibl ar gyfer rhwydwaith gwledig ôl-RDP.

xxvii. Mae’r dadansoddiad o senarios ar gyfer y dyfodol yn cyflwyno tair scenario bosibl ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru, y gall y rhwydwaith gwledig weithredu o’u mewn. Mae’r rhain yn seiliedig ar wahanol lefelau o ddwysedd o ran fframwaith polisi, cyfreithiol a chyllido datblygu gwledig.

xxviii. Mae’r senarios fel a ganlyn:

**Tabl 0.1 – Crynodeb o Senarios**

| | Fframwaith polisi | Fframwaith cyfreithiol | Fframwaith cyllid | Elfennau eraill |
|---|---|---|---|---|
| Senario 1 | • Polisïau gwledig cryf gan Gymru a'r Deyrnas Unedig<br>• Llywodraeth Cymru'n cadw polisi Rhwydwaith Gwledig Cymru<br>• Cysondeb â pholisïau eraill seiliedig ar leoedd yng Nghymru<br>• Cysylltiad â pholisïau'r Undeb Ewropeaidd | • Offerynnau cyfreithiol penodol ar gyfer datblygu gwledig (Cymru a'r Deyrnas Unedig)<br>• Cysylltiad â rhaglenni rhyngwladol | • Pot o gyllid penodol yng Nghymru ar gyfer datblygu gwledig<br>• Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) gyda chymorth datblygu gwledig | • Rhwydwaith Gwledig Cymru<br>• Rhwydwaith Gwledig y Deyrnas Unedig<br>• Posibilrwydd i ymuno â phrosiectau'r Undeb Ewropeaidd<br>• Parhad y math o ddulliau a ddefnyddir gan Grwpiau Gweithredu Lleol a LEADER |
| Senario 2 | • Polisi gwan gan y Deyrnas Unedig ar ddatblygu gwledig<br>• Rhai amcanion polisi gan Lywodraeth Cymru<br>• Dim cysylltiad â pholisi gwledig yr Undeb Ewropeaidd na'r Polisi Amaeth Cyffredin | • Offerynnau cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer amaethyddol a dim ond yn rhannol ar gyfer datblygu gwledig<br>• Rhai offerynnau cyfreithiol ar gyfer datblygu lleol (gwledig a threfol) | • Pot o gyllid ar y cyd ar gyfer datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig a threfol (Fframwaith Cymreig)<br>• Lefel isel o gyllid cyfatebol gan sectorau preifat a chymunedol | • Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y dyfodol o fewn rhwydweithiau sy'n bod eisoes (Cyfoeth Naturiol Cymru?)<br>• Rhwydwaith anffurfiol yn y Deyrnas Unedig<br>• Dull gwan gan gymunedau lleol<br>• Cysylltiadau anffurfiol gyda'r Undeb Ewropeaidd a phartneriaid rhyngwladol |
| Senario 3 | • Dim canolbwyntio ar ddatblygu gwledig na pholisïau datblygu economaidd<br>• Diffyg cysondeb (gwrthdaro) polisïau amaethyddol ledled y Deyrnas Unedig | • Dim offerynnau penodol ar gyfer datblygu gwledig | • Dim cyllid wedi ei glustnodi ar gyfer ardaloedd gwledig<br>• Dim cyllid gan Lywodraethau Cymru na'r Deyrnas Unedig | • Dim rhwydwaith gwledig o gwbl<br>• Sectorau'n gweithio ar wahân<br>• Datblygu cymunedol gwan neu absennol |

xxix. Mae'r adroddiad wedyn yn nodi swyddogaeth posibl i Rwydwaith Gwledig Cymru mewn perthynas â'r tair senario a amlinellwyd:

**Tabl 0.2 – Swyddogaethau posibl i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y senarios Ôl-Brexit**

| | *Senario 1* | *Senario 2* | *Senario 3* |
|---|---|---|---|
| **Rhwydweithio** | • Cynnal cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n bod eisoes a datblygu rhai newydd<br>• Cymryd rhan weithredol yn rhwydwaith RDP y Deyrnas Unedig<br>• Cynnal Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n bod eisoes a chreu rhwydwaith Cymreig | • Cynnal cysylltiadau anffurfiol gyda rhanddeiliaid ledled y Deyrnas Unedig<br>• Meithrin cysylltiadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig<br>• Cefnogi dulliau datblygu gwledig lle bo'n bosibl | • Meithrin cysylltiadau rhwydweithio presennol (rhanbarthol, cenedlaethol, a lle bo'n bosib ar lefel ryngwladol). |
| **Llywodraethu / Eirioli** | • Cefnogaeth weithredol i rwydwaith gwledig yng Nghymru<br>• Cynrychioli'r rhwydwaith ar grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | • Cynrychioli buddiannau gwledig ar fforymau polisi perthnasol ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig<br>• Cydgysylltu â phartneriaeth ranbarthol a rhoi cymorth. | • Parhau i gydgysylltu â grwpiau perthnasol ar lefel leol a rhanbarthol i hwyluso newidiadau mewn ymyrraeth |
| **Cydweithio** | • Swyddogaeth ragweithiol mewn datblygu prosiectau cydewithio<br>• Trefnu ymweliadau astudio a digwyddiadau | • Cyfrannu at weithgareddau cydweithio Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol | • Gweithredu fel antena ar gyfer gweithgareddau cydweithio posibl yn y Deyrnas Unedig a thramor |
| **Gwybodaeth** | • Adeiladu ar yr wybodaeth a'r gweithgareddau lledaenu presennol<br>• Datblygu gwasanaethau cyfathrebu arloesol i randdeiliaid gwledig er mwyn galluogi newid | • Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i randdeiliaid ar y cyd-destun ôl-Brexit<br>• Parhau i hyrwyddo'r arferion gorau a rhannu enghreifftiau | • Cyfrannu fel offerynnau gwybodaeth adrannau Llywodraeth Cymru a sefydlliadau eraill yng Nghymru i hyrwyddo datblygu gwledig |
| **Cyllid** | • Cefnogi mynediad at gynlluniau cyllido trwy wasanaethau unswydd ar gyfer hyn<br>• Hyrwyddo mynediad at raglenni cyllid cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i grwpiau gwledig a buddiolwyr | • Cefnogi mynediad at raglenni cyllid (hyfforddiant, seminarau)<br>• Cyfrannu at baratoi a dylunio rhaglenni cyllid Llywodraeth Cymru (eu haddasu ar gyfer ardaloedd gwledig) | • Darparu gwasanaethau gwybodaeth ar gyfleoedd cyllid sy'n berthnasol i ddatblygu gwledig |

xxx. Mae Adran 8 yn cyflwyno cyfres o senarios ôl-RDP a'r goblygiadau ar Rwydwaith Gwledig Cymru a'i Uned Gefnogi.

**Argymhellion Allweddol (Rhan II)**

xxxi. Mae Rhan II yr adroddiad, trwy nodi dewisiadau ôl-RDP posibl i Rwydwaith Gwledig Cymru ar sail yr adborth gan randdeiliaid sy'n ymwneud â'r rhwydwaith, ac enghreifftiau o'r arferion gorau o'r tair astudiaeth achos, yn gallu gosod cyfres o argymhellion sy'n ymwneud ag ailstrwythuro, cylch gwaith a swyddogaeth Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru o dan raglen gyllido yn y dyfodol.

xxxii. *Argymhelliad 1: parhad mewn cyfathrebu:* Lle bo'n bosibl, dylai fod parhad yn y gwasanaeth cyfathrebu a gyflawnir gan yr Uned Gyfathrebu yn ysgod y cyfnod pontio ôl-RDP er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd a wnaed hyd yma'n cael ei golli ac y gellir adeiladu arno. Dylai'r Uned Gefnogi ddal i fod y cyfrwng y caiff gwybodaeth ei chyfleu drwyddo i'r sector datblygu gwledig. Mae'r angen hwn yn bwysicach fyth yn ystod cyfnod pontio.

xxxiii. *Argymhelliad 2: cefnogi digwyddiadau yn ystod y cyfnod pontio:* Dylai'r Uned Gefnogi archwilio digwyddiadau a gweithdai y gellir eu cynnal yn y cyfnod pontio er mwyn annog aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol i barhau i gymryd rhan ac i roi cymorth, canllawiau a chyfleoedd rhwydweithio.

xxxiv. *Argymhelliad 3: ailddiffinio cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru + Uned Gefnogi:* Unwaith mae rhywfaint o eglurder i strwythur tirwedd ôl-RDP, a lle mae'r angen a'r cyfle mwyaf, dylid penderfynu ar gylch gwaith Rhwydwaith Gwledig i Gymru a'i Uned Gefnogi, gyda'u cwmpas a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Rhaid i hyn wedyn cael ei gyfleu'n glir i'r holl randdeiliaid allweddol a buddiolwyr posibl, gydag eglurder ar fecanweithiau ffurfiol o gyd-drafod a darparu cymorth yn cael ei gyfleu i'r holl weithredwyr posibl yn y rhwydwaith.

xxxv. *Argymhelliad 4: cytuno ar darpariaeth allanol / mewnol gweithredu'r Uned Gefnogi:* Ar ôl penderfynu cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi ôl-RDP, dylid penderfynu wedyn ai uned a weithredir yn fewnol neu'n allanol fyddai orau ar gyfer gwasanaethu'r cylch gwaith, neu ddull cymysg.

xxxvi. *Argymhelliad 5: grŵp llywio cynrychioliadol â mandad cadarn:* Bydd bodolaeth Grŵp Llywio ac iddo fandad cadarn a rôl gryfach wrth lywodraethu Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn bwysig i Rwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi ôl-RDP. Dylai aelodaeth y Grŵp Llywio gynrychioli ac adlewyrchu unrhyw ail-lunio'r cylch gwaith a'r cwmpas a dylai fod yn ei le ar gychwyn unrhyw benderfyniadau ynghylch Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru.

xxxvii. *Argymhelliad 6: mapio'r sector datblygu gwledig:* Bydd cyflawni gweitharwch Uned Gefnogi Rhwydwaith Datblygu Gwledig mewn unrhyw senario ôl-RDP yn elwa ar ymarferiad mapio o'r "ecosystem" wledig yng Nghymru, gyda'r cyfrifoldebau, meysydd diddordeb, a chynnwys sectorol yn cael eu nodi ar gyfer gwahanol weithredwyr.

xxxviii. *Argymhelliad 7: cytuno ar fodelau o gynnwys rhanddeiliaid:* Dylai cyfryngau effeithiol ar gyfer cyd-drafod â rhanddeiliaid a gweithgarwch cyd-drafod gael eu ffurfioli, neu o leiaf eu cytuno'n anffurfiol, yn enwedig rhwng yr Uned Gefnogi ac arweinwyr polisi. Dylid archwilio amryw o fodelau cyd-drafod, gan gynnwys ffurf strwythur aelodaeth, er mwyn annog cyd-drafod cryfach ac mewn mwy o ddyfnder ac ennyn ymrwymiad rhanddeiliaid a galwadau am safon uchel o gyflawni.

xxxix. *Argymhelliad 8: arolygu'r sector yn rheolaidd:* Yn ogystal â sefydlu trefn fwy ffurfiol a rheolaidd o gyd-drafod â rhanddeiliaid, byddai ymdrech arolygu reolaidd o'r sector datblygu gwledig ehangach yn sicrhau bod gweithgareddau'r Uned Gefnogi a swyddogaeth y rhwydwaith yn parhau i ddiwallu anghenion a gofynion rhanddeiliaid a buddiolwyr.

xl. *Argymhelliad 9: cynnal rhywfaint o gysondeb strwythurol â Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yr Undeb Ewropeaidd:* Ym mhob senario ôl-RDP yn y dyfodol, bydd rhyw radd o gydweithio trawswladol yn bosibl ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Bydd yn rhwyddach galluogi hyn, yn enwedig yn yr Undeb Ewropeaidd, os pery rhywaint o debygrwydd a chysondeb rhwng strwythur a threfniadaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru a'r cyrff Ewropeaidd cyfatebol iddo.

xli. *Argymhelliad 10: galluogi Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gyflawni rôl fwy strategol:* Mae potensial mawr i'r Uned Gefnogi gyflawni rôl fwy strategol mewn cydgysylltu a hwyluso rhwydweithio a chydweithio ar draws datblygu gwledig, rhywbeth arall y bu galw helaeth amdano. O ganlyniad, byddai'n ddoeth felly i'r rôl hon gael ei chynnwys yn ysgrifenedig mewn unrhyw gylch gwaith a ddiffinir o'r newydd ar gyfer yr Uned. Byddai cyflawni'r rôl hon yn effeithiol yn dibynnu hefyd ar adnoddau digonol.

xlii. *Argymhelliad 11: Cyflwyno gweithio thematig fel rhan greiddiol o weithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru:* Gall canolbwyntio ar weithio thematig ddod â rhanddeiliaid mewn datblygu gwledig at ei gilydd i gydweithio a rhannu'r arferion gorau ynghylch pynciau y bernir fel y rhai pwysicaf.

xliii. *Argymhelliad 12: Sefydlu Grŵp Thematig Arloesedd:* Dylal sefydlu Grŵp Thematig Arloesedd, ar yr un patrwm â'r grŵp RWDR yn Wallonia, fod yn flaenoriaeth. Gall hyn olygu mapio arloesi o fewn y sector datblygu gwledig, a datblygu system gyfnewid arloesedd.

xliv. *Argymhelliad 13: Sefydlu cysylltiadau gyda Sefydliadau Ymchwil Cymru:* Rhaid i ddatblygu gwledig gael ei arwain gan sail gynhwysfawr o dystiolaeth. Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru mewn sefyllfa gref i gyfrannu'n uniongyrchol, trwy gasglu data gwerthfawr, barnau a gwybodaeth gan ei rhanddeiliaid, i'w fwydo'n uniongyrchol i gyrff llunio polisi.

xlv. *Argymhelliad 14: Cofleidio digwyddiadau o bell a manteisio arnynt:* Mae'r Uned Gefnogi eisoes wedi symud yn effeithiol i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau effeithiol ar-lein. Dylai bellach gofleidio'n llawn y datblygiadau mewn fideogynadledda a'r gallu cynyddol mewn pobl ar ôl Covid-19 i weithredu o bell, er mwyn creu rhaglen lawn o ddigwyddiadau o bell a hwyluso rhwydweithio'n well rhwng rhanddeiliaid, wrth ddefnyddio technoleg o bell.

xlvi. *Argymhelliad 15: Ceisio cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu gyda phartneriaid y tu hwnt i Gymru:* Nid oes neb mewn sefyllfa gystal ag Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gynnal y cysylltiadau presennol gyda Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Felly, dylid gwneud pob ymdrech i barhau cydgysylltu a chyfathrebu trwy bob sianel sydd ar gael, yn rhai anffurfiol a ffurfiol, gyda chyrff cyfatebol yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, yn osgytal â chynnal presenoldeb lle bo'n bosibl ym Mrwsel.

xlvii. *Argymhelliad 16: asesu anghenion hyfforddiant rhanddeiliaid:* Dylai asesiad rheolaidd o anghenion hyfforddiant rhanddeiliaid, yn enwedig i adeiladu gallu mewn Grwpiau Gweithredu Lleol, gael ei ymgorffori yng nghynllun gweithgareddau cyfnodol yr Uned Gefnogi. Gellid adeiladu hyn i mewn i'r arolwg ehangach o'r sector (argymhelliad 8), i helpu arwain amserlen o ddigwyddiadau hyfforddi sy'n gyson â'r anghenion mwyaf.

xlviii. *Argymhelliad 17: hwyluso rhwydweithio ymysg Grwpiau Gweithredu Lleol:* Dylai Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru fynd ati'n fwriadol i sicrhau bod rhwydweithio mwy cynhwysfawr rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru, yn hytrach na gadael hyn i raddau helaeth i'r Grwpiau Gweithredu eu hunain.

# Rhan I – Gwerthusiad Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad allanol Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRNSU).

**Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Cymru**

1.2 Caiff Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eu cefnogi gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a'u nod yw hwyluso cyflawni'r Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) (2014-2020). Caiff Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol pob un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd eu cyfansoddi gan Adran 1 o Erthygl 54 Rheoliad EAFRD.

1.3 Mae Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn gweithio ar sail yr egwyddor fod datblygu gwledig llwyddiannus yn deillio o Ddatblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned (CLLD). Mae'r rhwydweithiau felly'n gweithredu fel pwynt canolog y gall cymunedau a rhanddeiliaid ehangach ar draws gwahanol feysydd a lefelau polisi ryngweithio drwyddo, rhannu gwybodaeth a dysgu datblygu dealltwriaeth gyffredin a gweithredu datblygu gwledig o'r gwaelod i fyny.

1.4 Gall Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol weithredu hefyd fel cyfrwng rhwng llunwyr polisi, ymarferwyr a'r gymuned wledig ehangach, gan hwyluso'r llif gwybodaeth rhwng y rheini ar lawr gwlad a'r rheini sy'n deddfu a gweinyddu polisi datblygu gwledig.

1.5 Mae'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn rhyngweithio hefyd gyda'r Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig (ENRD), sydd ynddo'i hun yn ganolbwynt ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar sut mae polisi datblygu gwledig, rhaglenni a phrosiectau yn gweithio yn ymarferol. Trwy'r ENRD, mae'r Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yn rhannu'r arferion gorau a hwyluso cydweithio a rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid datblygu gwledig ledled yr Undeb Ewropeaidd.

1.6 Rhwydwaith Gwledig Cymru yw'r Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae'r Rhwydwaith hwn wedi derbyn £2,366,885 mewn cyllid cyhoeddus yng nghyfnod rhaglen 2014-2020, gyda £1,017,761 ohono wedi ei ddarparu gan yr EAFRD a £1,349,124 wedi ei gyd-gyllido gan Lywodraeth Cymru.

*Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru*

1.7 Caiff pob Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol ei oruchwylio gan Uned Gefnogi Rhwydwaith. Yn ôl y Llawlyfr Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol, ei rôl yw darparu'r strwythur sydd ei angen ar gyfer rhedeg a bywiogi'r Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol[1]. Mae hyn yn golygu cefnogi gweithredu a gweinyddu Datblygu Gwledig yn y wlad honno. Yng Nghymru, Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRNSU) sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno. Rhaid i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru gefnogi cyflawni'r pedwar amcan a nodir yn Rheoliad 1305/2013 yr Undeb Ewropeaidd:

- Cynyddu gweithgarwch rhanddeiliaid wrth weithredu datblygu gwledig
- Gwella ansawdd y modd y gweithredir rhaglenni datblygu gwledig
- Rhoi gwybod i'r cyhoedd yn ehangach a rhanddeiliaid posibl am bolisi datblygu gwledig a chyfleoedd am gyllid
- Meithrin arloesi mewn amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig.

1.8 Mae'r modd y mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ceisio cyflawni pob un o'r amcanion hyn wedi ei nodi yn y cynllun gwaith blynyddol. Caiff cyflawni'r cynllun gwaith a'r pedwar amcan ei gefnogi gan y chwe aelod o staff yn yr uned sy'n cynnwys Pennaeth yr Uned Gefnogi, tri o reolwyr yr Uned Gefnogi, Rheolwr Cyllid a Rheolwr Gwefan/Cynnwys.

[1] http://enrd.ec.europa.eu/enrd-static/app_templates/enrd_assets/pdf/guidebook/nrn_handbook_webversion.pdf

### Diben a Methodoleg y Gwerthusiad

1.9 Cafodd Miller Research eu comisiynu ym mis Medi 2020 i gyflawni'r gwerthusiad allanol o Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru.

1.10 Roedd gwerthusiad Miller Research yn golygu cyfuniad o ymchwil desg a gwaith maes ansoddol, i benderfynu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd WRNSU o gymharu â'i gylch gwaith (fel y pennwyd gan reoliad yr Undeb Ewropeaidd ac amcanion Llywodraeth Cymru), yn ogystal â'r angen a'r sail resymegol a adnabuwyd am Rwydwaith Gwledig Cymru ac Uned Gefnogi law yn llaw ag ef. Trefnwyd y broses hon o gwmpas adeiladu model rhesymeg gweithredol manwl (gweler Atodiad A).

1.11 Yn ogystal â gwerthuso gweithgarwch presennol yr Uned Gefnogi, ac i gydnabod y cyd-destun cyfnewidiol mae'n gweithredu ynddo, wrth adael fframweithiau polisi, cyfreithiol a chyllid Ewropeaidd, mae ail ran yr adroddiad yn ystyried dyfodol i'r WRNSU (neu rwydwaith ac uned gefnogi gyfwerth). Rydym yn ystyried senarios yn y dyfodol a dewisiadau gweithredu sydd ar gael, gan gynnwys cyfleoedd, cyfyngiadau a goblygiadau o fewn pob un, gan ddilyn hyn gyda chyfres o argymhellion am gamau i'w cymryd ar hyn o bryd, yn ystod y pontio ac yn y dyfodol. Mae'r rhain yn seiliedig ar y casgliad fod gwerth amlwg mewn rhwydweitho'r natur hwn a'r angen am gorff gweinyddol i reoli a goruchwylio'r rhwydwaith.

1.12 Cafodd ein gwerthusiad ei drefnu yn ôl y tasgau canlynol:

*Cyd-drafod*

1.13 **Cyfweliadau â rhanddeiliaid.** Cynhaliodd y tîm gwerthuso gyfweliadau ansoddol, lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol WRNSU. Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 41 o randdeiliaid. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn cynnwys aelodau'r Uned Gefnogi a'r grŵp llywio, arweinwyr polisi'r cynllun, Grwpiau Gweithredu Lleol/cyrff gweinyddol, buddiolwyr cyllid RDP, a Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill y Deyrnas Unedig. Fe wnaeth y data ansoddol a gynhyrchwyd trwy'r

cyfweliadau hyn ddarparu ffynhonnell werthfawr o dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn.

1.14 **Gweithdy Grwpiau Gweithredu Lleol.** Yn dilyn y cyfweliadau, cynhaliodd y tîm gwerthuso weithdy rhithiol gyda sampl o bump o gynrychiolwyr Grwpiau Gweithredu Lleol o wahanol ranbarthau yng Nghymru. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar drafod y cymorth a dderbyniwyd a'r cymorth a ddymunid gan yr Uned Gefnogi law yn llaw â datblygu argymhellion ar gyfer y dyfodol. Fe wnaeth y data ansoddol a gynhyrchwyd trwy'r gweithdy helpu gosod sail i'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

1.15 **Gweithdy grŵp llywio.** Cafodd gweithdy rhithiol gydag aelodau o grŵp llywio'r Uned Gefnogi ei hwyluso gan y tîm gwerthuso. Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar ddeall rôl bresennol a phosibl y grŵp llywio, y gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Uned Gefnogi, a'r argymhellion i'r Uned yn y dyfodol. Fe wnaeth y data ansoddol a gynhyrchwyd trwy'r gweithdy helpu gosod sail i'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

1.16 **Gweithdy opsiynau.** Ar ôl cwblhau'r cyfweliadau a'r gweithdai uchod, cynhaliodd y tîm gwerthuso weithdy adolygu opsiynau gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar gadarnhau ac adolygu argymhellion ac awgrymu opsiynau ar gyfer y dyfodol i'r Uned mewn perthynas â datblygu gwledig yng Nghymru.

1.17 **Arolwg ar-lein o fuddiolwyr.** Er mwyn deall ymhellach y cymorth a dderbyniwyd a'r cymorth a ddymunid gan fuddiolwyr cyllid RDP, cynhyrchodd y tîm gwerthuso arolwg ar-lein byr. Cyhoeddwyd yr arolwg trwy gylchlythyr newyddion yr Uned Gefnogi, cyfryngau cymdeithasol a thrwy sianelau rhanddeiliaid allweddol eraill. Derbyniodd gyfanswm o 92 o ymatebion (43 llawn, 49 rhannol). Fe wnaeth y data a gasglwyd trwy'r arolwg hwn helpu gosod sail i'r canfyddiadau a nodir yn yr adroddiad hwn.

*Ymchwil desg a dadansoddiad*

1.18 **Adolygiad cyd-destunol.** Fe wnaeth y tîm gwerthuso adolygu polisïau, strategaethau a dogfennaeth berthnasol eraill er mwyn deall yr Uned Gefnogi, ei chyd-destun amgylchynol a datblygu model rhesymeg a fframwaith gwerthuso.

1.19 **Adolygiad a dadansoddiad o'r cyfathrebu a'r cyd-drafod.** Cyflawnwyd adolygiad a dadansoddiad o'r cyfathrebu a'r cyd-drafod gan y tîm gwerthuso. Cafodd cyhoeddiadau'r Uned Gefnogi, sianelau cyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg rhyngrwyd eu hadolygu er mwyn deall natur ac effeithiolrwydd y cyfathrebu o gymharu ag amcanion a chynulleidfaoedd targed. Cynhwysir canfyddiadau'r dadansoddiad hwn yn adran 4 yr adroddiad hwn.

1.20 **Adolygiad o ymchwil COVID-19.** Cyflawnodd y tîm gwerthuso adolygiad o ddogfennaeth berthnasol a chasglodd ddata gwaith maes i ddeall effeithiau a goblygiadau COVID-19 ar yr economi wledig ac ar weithgaredd yr Uned Gefnogi. Cyflwynir canfyddiadau'r adolygiad hwn yn adran 5 o'r adroddiad hwn.

1.21 **Astudiaethau Achos o Rwydweithiau Gwledig Cenedlaethol.** Cynhyrchodd y tîm gwerthuso dair astudiaeth achos o Wallonia (Gwlad Belg), y Ffindir ac Iwerddon ar sail adolygiad o ddogfennaeth a chyfweliadau. Nod yr astudiaethau achos hyn oedd tynnu sylw at fodelau amrywiol o weithgarwch a gynigir gan wahanol Rwydweithiau Gwledig Cenedlaethol i gefnogi gwaith RDP a rhoi pwynt cyfeirio gwerthfawr ar gyfer archwilio opsiynau ôl-Brexit yng Nghymru. Cyflwynir yr astudiaethau achos hyn yn adran 9 yr adroddiad hwn.

### Strwythur yr Adroddiad

1.22 Mae'r allbwn gwerthuso o werthusiad Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi ei ffurfio o ddau adroddiad. Mae'r adroddiad hwn, Rhan I, yn adolygiad a asesiad o berfformiad ac effeithiolrwydd hyd yma. Mae Rhan II yn adolygiad o'r senarios tebygol yn y dyfodol ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru, ac yn asesiad o'r opsiynau am swyddogaeth rhwydwaith gwledig ôl-RDP. Mae hefyd yn cynnwys

astudiaethau achos o arferion gorau Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol fel arweiniad ar gyfer datblygu'r rhwydwaith yn y dyfodol, a chyfres o argymhellion ar gyfer swyddogaeth rhwydwaith ôl-RDP yn y dyfodol.

1.23 Mae gweddill yr adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 3 – adolygiad o weithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru gan yr Uned Gefnogi, gan asesu effeithiolrwydd y gweithredu hwn.
- Adran 4 – dadansoddiad o gyfathrebu a chyd-drafod sianelau cyfathrebu'r Uned Gefnogi.
- Adran 5 – Adolygiad o ymchwil Covid-19, sy'n crynhoi effeithiau pwysig y pandemig ar yr RDP a sut mae'r gymuned wledig wedi ymateb.
- Adran 6 – asesu gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru ochr yn ochr â'r casgliadau ynghylch perfformiad Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Nodir set o argymhellion am welliannau a awgrymir mewn gweithredu am weddill cyfnod yr RDP.

Mae Rhan II yr adroddiad wedi ei strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 8 – cyfres o senarios ôl-RDP a'r goblygiadau i Rwydwaith Gwledig Cymru a'r Uned Gefnogi.
- Adran 9 – cyflwynir astudiaethau achos o Rwydweithiau Gwledig Cenedladethol mewn tair gwlad arall, i wneud cymhariaeth uniongyrchol gydag Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ac archwilio syniadau am opsiynau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.
- Adran 10 – adolygiad o opsiyniau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol sy'n seiliedig ar y canfyddiadau o'r gwerthusiad.
- Adran 11 – set o argymhellion y gellir gweithredu arnynt ar gyfer datblygu rhwydwaith gwledig ôl-RDP.

## 2. Gweithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru

2.1 Yn yr adran hon byddwn yn ystyried anghenion ac amcanion presennol Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y modd y mae'n cyflawni ei gweithgareddau craidd.

### Trosolwg o'r Gweithredu

2.2 Bydd y bennod hon yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Rwydwaith Gwledig Cymru, ynghyd â thrafodaeth ynghylch effeithiolrwydd pob un a'u cyfraniadau a wnaed tuag at gyflawni nodau Rhwydwaith Gwledig Cymru.

2.3 Cwestiynau allweddol:

- Beth yw'r angen a'r amcanion sy'n ysgogi Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru?
- Pa mor effeithiol mae'r Uned Gefnogi wedi cael ei llywodraethu a'i rheoli?
- Pa mor effeithiol mae'r tasgau/gweithgareddau hyn wedi cael eu cyflawni?
- Sut mae'r gweithgareddau hyn wedi cyfrannu at nodau Rhwydwaith Gwledig Cymru?
- I ba raddau mae'r camau hyn wedi cyfrannu at weithredu'r RDP?

### Anghenion ac Amcanion

2.4 Cyn asesu'r modd y gweithredwyd Rhwydwaith Gwledig Cymru gan yr Uned Gefnogi, bydd yr adran hon yn ystyried ac yn asesu'r anghenion mae'r Uned Gefnogi yn eu diwallu a'i hamcanion.

*Anghenion*

2.5 Adnabuwyd nifer o anghenion am Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru trwy'r adolygiad dogfennaeth a'r gwaith cyd-drafod gyda rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn wasanaethau clir a phwysig y gellir eu darparu, neu'n ofynion y gellir eu diwallu trwy weithgarwch yr Uned Gefnogi.

**Tabl 2.1: Anghenion am Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru**

| ANGHENION |
| --- |
| Hyrwyddo buddion cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd |
| Hwyluso a gwella'r modd y caiff yr RDP ei roi ar waith |
| Cefnogi datblygu gwledig o dan arweiniad y gymuned |
| Cefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ehangach |
| Hyrwyddo datblygu gwledig yng Nghymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol |
| Hysbysu Llywodraeth Cymru ar waith ac effaith yr RDP |

Model Rhesymeg Gwerthusiad y WRNSU

2.6 Roedd consensws cyffredinol fod yr anghenion a restrir uchod yn Nhabl 2.1 yn addas ac yn gywir ac roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gyffredinol fod angen clir am Rwydwaith Gwledig yng Nghymru a swyddogaeth iddo. Yn ogystal, roedd hyn yn cynnwys yr angen am Uned Gefnogi wedi ei ddynodi'n benodol i reoli a goruchwylio'r rhwydwaith hwn.

2.7 Roedd gweithredu rhwydwaith effeithiol yn cael ei weld mewn gwirionedd fel rhywbeth a oedd yn rhan annatod o ddiwallu'r anghenion a amlygir uchod ac anaml y codwyd cwestiwn am am hyn. Roedd y teimlad hwn yn cael ei fynegi'n helaeth mewn gwaith maes a chafodd ei grynhoi gan un rhanddeiliad, a oedd yn nodi gwerth dod ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid mewn datblygu gwledig y tu allan i'r rheini a ddisgwylid yn arferol, ac wrth ddarparu gwasanaeth cyfathrebu i unigolion a sefydliadau ar draws holl faes eang datblygu gwledig. Disgrifiwyd hyn hefyd fel rhywbeth allweddol i lwyddiant LEADER, gan fod rhwydwaith effeithiol yn gyfrwng i wella'r ffordd y gweithredir LEADER a meithrin cydweithio ac arloesi.

2.8 Roedd casglu, cadw a lledaenu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddatblygu gwledig hefyd yn cael ei bwysleisio'n helaeth gan randdeiliaid a buddiolwyr fel pethau pwysig ac fel galluogwyr

allweddol i ddiwallu'r anghenion a amlygir uchod. Cafodd yr angen am wybodaeth am grantiau a chyfleoedd cyllid ei bwysleisio'n benodol gan ddau draean o'r ymatebwyr yn ein harolwg ar-lein.

2.9 Roedd rhwydwaith ac uned gefnogi trefnus hefyd yn cael eu gweld fel rhywbeth a oedd â rhan allweddol mewn sicrhau parhad, cysondeb a chydlyniant mewn ymdrechion a dulliau a ddefnyddir mewn datblygu gwledig. Dadleuwyd bod y gwersi a ddysgwyd o brosiectau a rhaglenni sydd mewn perygl o gael eu colli pan ddeuant i ben a staff yn symud ymlaen, ac y gall rhwydwaith sy'n gweithio'n iawn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu, eu cofnodi, eu rhannu a'u gweithredu mewn modd addas. Mae hyn yn allweddol i barhau cynnydd yn yr RDP ac mewn datblygu gwledig yn fwy cyffredinol, ac i diwallu'n effeithiol brif nod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wrth gefnogi gwaith yr RDP yng Nghymru.

2.10 Roedd consensws eang iawn ymysg rhanddeiliaid am yr angen i gael cynrychiolaeth gref o faterion datblygu gwledig o fewn Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag eiriolwr o'r Gymru wledig o fewn y Deyrnas Unedig ac ymhellach i ffwrdd, er mwyn sicrhau na chollir cyfleoedd, bod unrhyw bolisi datblygol yn cael ei brofi i fod yn addas ar gyfer ardaloedd gwledig, a bod anghenion a phryderon cymunedau gwledig yn cael eu hystyried yn iawn. Y farn oedd bod rhwydwaith a weinyddir yn effeithiol yn gwbl allweddol i gyflawni hyn yn llwyddiannus, i drefnu amrywiaeth o leisiau gwledig ar draws y rhwydwaith a chyfathrebu ac eirioli'n effeithiol ar eu rhan.

2.11 Er bod consensws cyffredinol am yr angen am Rwydwaith Gwledig Cenedlaethol ac Uned Gefnogi, nid oedd hyn yn unfrydol. Mynegwyd rhywfaint o ddryswch, yn enwedig ynghylch union natur cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru a'r Uned Gefnogi. Roedd hyn yn fwy gwir gyda rhanddeiliaid y tu allan i LEADER. Yn benodol, cyfeiriodd buddiolwyr cyllid RDP (gan gynnwys rhai o goedwigaeth a phren, a ffermio ac amaethyddiaeth) at ddiffyg eglurder yn rôl yr Uned Gefnogi ac roeddent yn ansicr ynghylch ei buddion. Mae hyn i raddau helaeth yn fater o gyfathebu a chyd-drafod, yn hytrach na thystiolaeth o

amheuon gwybodus a phenodol am werth yr Uned Gefnogi. Mae’n tanlinellu’r angen am gyfleu’r rôl yn well a chyfleu ei buddion posibl i grwpiau penodol o randdeiliaid a sectorau o’r gymuned wledig.

*Amcanion*

2.12 Cafodd amcanion Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru eu hadnabod trwy’r adolygiad dogfennaeth. Maent yn ymgorffori’r amcanion a nodir yn Erthygl 54 o Reoliad 1305/2013 yr EAFRD yn ogystal ag amcanion ychwanegol a amlinllir yng Nghynllun Gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru a Rhaglen Datblygu Gwledig (Cymru) y Deyrnas Unedig.

**Tabl 2.2: Amcanion Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru**

| **AMCANION** |
| --- |
| Hysbysu’r cyhoedd ehangach a buddiolwyr posibl ar bolisi a chyfleoedd cyllid datblygu gwledig |
| Cynyddu gweithgarwch rhanddeiliaid sydd â diddordeb yng gwaith yr RDP |
| Cyfleu a hyrwyddo gweithgareddau rheoli cynlluniau a chyrff gweithredu’r RDP |
| Cynyddu rhwydweithio a chydweithio trawswladol rhanddeiliaid RDP ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop |
| Gwella ansawdd yr RDP yng Nghymru |
| Meithrin arloesi mewn amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a choedwigaeth mewn ardaloedd gwledig |

Model Rhesymeg Gwerthusiad WRNSU

2.13 Roedd consensws helaeth ynghylch addasrwydd yr amcanion a amlinellir uchod ar gyfer Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Caiff y graddau y diwellir yr amcanion hyn yn effeithiol eu harchwilio yn y Trosolwg o’r Gweithredu a’r Asesiad o’r Gweithredu isod. Fodd bynnag, mae’n bwysig nodi bod rhywfaint o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg nifer o rai a gyfwelwyd ynghylch beth yn union yw amcanion a chylch gwaith yr Uned. Ategir hyn gan ganlyniadau o’r arolwg ar-lein o fuddiolwyr a gynhaliwyd, lle dywedodd dros draean o ymatebwyr nad oedd ganddynt ddim, neu fawr ddim, ymwybyddiaeth o Rwydwaith Gwledig Cymru o gwbl, heb sôn am rôl neu gylch gwaith yr Uned Gefnogi.

2.14 Roedd y diffyg ymwybyddiaeth hwn i'w briodoli i'r ffordd roedd Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn aml yn chwarae rhan ymylol yng ngweithgareddau'r rhanddeiliaid a'r diffyg gofyniad ffurfiol i randdeiliaid ymwneud â hi. Y canlyniad, yn ogystal â diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg rhanddeiliaid ynghylch cylch gwaith ac amcanion yr Uned Gefnogi, yw tanddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau y gall yr Uned Gefnogi eu darparu. Gellir priodoli rhywfaint o'r diffyg cydberthynas rhwng yr Uned Gefnogi a rhai rhanddeiliaid i fodolaeth chwaraewyr allweddol eisoes mewn amrywiol fannau, megis y rôl a chwaraeir gan Cyswllt Ffermio yn y sector amaethyddiaeth. Roedd rhai rhanddeiliaid y siaradwyd â hwy yn nodi bod rhanddeiliaid, yn enwedig arweinwyr cynlluniau a pholisi'r RDP yn ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb am beidio ag ymwneud â'r Uned Gefnogi, a gwneud gwell defnydd o'i adnoddau. Fodd bynnag, byddai sefydlu arfer mwy effeithiol, rheolaidd a ffurfiol o gysylltu rhanddeiliaid gydag Arweinwyr Cynlluniau yn helpu mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r Uned Gefnogi o fewn gwahanol sectorau gwledig a meithrin gwell dealltwriaeth o'r gwasanaethau y gall yr Uned eu darparu.

2.15 Fel gyda beirniadaethau eraill o rôl yr Uned Gefnogi a godwn yn yr adroddiad, roedd y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio'n glir fod y rhain yn faterion ar lefel uwch, yn ymwneud â strwythur a threfniadaeth lywodraethu, a'r graddau roedd adnoddau a chefnogaeth ar gael, yn hytrach nag yn gysylltiedig â'r swyddogion a oedd yn ymwneud â chyflwyno gweithgarwch yr Uned Gefnogi. Roedd hyn yn eglurhad cyffredin a bwysleisiwyd yn gyson.

2.16 Dylid nodi fodd bynnag, fod amryw o'r rhai a gyfwelwyd, hyd yn oed ymysg y rheini a oedd yn fwy cyfarwydd â'r Rhwydwaith a'r Uned Gefnogi, yn tynnu sylw at ddiffyg eglurder ynghylch ei amcanion a chylch gwaith.

2.17 Roedd mwy o ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o rôl gyfathrebu a chyfeirio'r Uned Gefnogi, yn ogystal â'i chyswllt â rhanddeiliaid a gwaith yn hyrwyddo'r Gymru Wledig ac amlygu allbynnau Cymreig yr

RDP, gan gynnwys ar lwyfan rhyngwladol. Archwilir hyn ymhellach isod.

2.18 Roedd teimlad cyffredin hefyd fod anghydbwysedd yn y pwyslais a roddwyd ar yr amrywiol amcanion ac ar gwmpas ei gweithgareddau. Un pryder gan y grŵp llywio oedd nad oedd Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi gwasanaethu pob rhan o’r RDP yn gyfartal ac y gellid ymdrechu mwy i dargedu pobl y tu hwnt i ffermwyr a choedwigwyr. Fodd bynnag, roedd pryder yn dal i fod gan randdeiliaid amaethyddiaeth a choedwigaeth fod yr Uned Gefnogi wedi’i datgysylltu oddi wrth y grwpiau hyn, gyda ffermwyr yn enwedig yn ymwneud â Cyswllt Ffermio. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn amau perthnasedd Rhwydwaith Gwledig Cymru i ffermwyr. Er bod cred y gallai’r Uned Gefnogi godi amlygrwydd cyllid a gwaith RDP, roedd rhai a gyfwelwyd gan gynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol yn ansicr ynghylch yr effaith a gafodd.

2.19 Crybwyllwyd nifer o welliannau hefyd i rôl a chylch gwaith yr Uned Gefnogi. Awgrymai rhai rhanddeiliaid LEADER fod rôl yr Uned Gefnogi wedi gwella dros y deunaw mis diwethaf yn sgil newid yn y rolau o fewn tîm yr Uned. Cafodd y berthynas ers hynny ei disgrifio fel un fwy adeiladol, gydag un rhanddeiliad yn benodol yn dweud bod ganddynt bellach well dealltwriaeth o’u pwynt cyswllt. Roedd rhanddeiliad arall yn LEADER yn nodi bod yr Uned Gefnogi wedi bod yn fwy rhagweithiol dros y deunaw mis diwethaf wrth gyd-drafod â hwy.

**Llywodraethu**

*Grŵp Llywio*

2.20 Mae’r grŵp llywio yn cynnwys 10 o aelodau ar hyn o bryd. Maent yn cynrychioli trawstoriad o’r RDP ac mae eu cylch gwaith yn golygu cynghori a helpu gyda datblygu cynllun gwaith ar gyfer Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru.

2.21 Cafodd aelodau'r grŵp llywio eu dewis yn wreiddiol trwy broses ymgeisio, a wnaeth arwain ym marn yr aelodau at grŵp profiadol ac abl, gydag aelodau yn cynrychioli sectorau addas a gwahanol safbwyntiau. Dywedwyd hefyd fod cydbwysedd da rhwng y rhywiau ar y grŵp, yn wahanol i'r grwpiau llywio arferol a mwyafrif o ddynion arnynt. Fodd bynnag, roedd aelodau yn siomedig ynghylch fod y grŵp wedi'i ffurfio o'r math arferol o bobl, a bod diffyg cynrychiolaeth o'r sector preifat, yr undebau ffermio a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Y gred hefyd oedd bod diffyg cyswllt uniongyrchol rhwng y grŵp a llunwyr polisi, gan ysgogi awgrymiadau y gallai aelodau'r grŵp llywio naill ai gael rhywfaint o gynychioliaeth mewn llunio polisi neu ar fyrddau ymgynghori, neu y dylai swydd cadeirydd y grŵp llywio fod yn gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru, yn hytrach nag aelod o'r grŵp llywio ehangach. Y penderfyniad ar y cychwyn oedd bod gael cadeirydd wedi'i ddewis o blith y Grŵp Llywio yn annog ymrwymiad, ond dylid ailedrych ar hyn.

2.22 Roedd pryder hefyd fod, dros amser, aelodau o'r grŵp yn cael eu colli heb neb i gymryd eu lle. Roedd awgrym gan amryw o'r rhai a gyfwelwyd fod hyn yn aml i'w briodoli i aelodau o'r grŵp yn teimlo'u bod wedi eu difreinio. Awgrymai un rhanddeiliaid y gallai hyn fod oherwydd cyfyngiad ar allu'r grŵp i gael at wybodaeth berthnasol. Priodolid hyn i gyfyngiadau biwrocrataidd sy'n symptomatig o'r Uned Gefnogi yn gweithredu o fewn Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag fel endid annibynnol, a fyddai â mwy o ryddid ar ei threfniadaeth weinyddol.

2.23 Roedd y grŵp yn draddodiadol wedi cyfarfod 2-4 gwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, dim ond un cyfarfod a gynhaliwyd yn 2020 (yn yr hydref) gyda'r cyfarfod blaenorol dros flwyddyn yn ôl. Er bod aelodau'n credu y gallai COVID-19, Brexit a materion yn ymwneud â chyllidebau mewnol fod wedi arwain at absenoldeb cyfarfodydd, roeddent yn dweud hefyd eu bod yn credu bod cyfarfodydd wedi dod i ryw fath o derfyn naturiol, yn sgil toriad yn y system, diffyg trefn a'r

gred nad oedd yr amser i deithio i'r cyfarfodydd yn werth yr ymdrech yn y diwedd.

2.24 Roedd aelodau'r grŵp yn cydnabod gwerth potensial y grŵp, i ddod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd, rhannu gwybodaeth am ddatblygu gwledig ac yn dweud bod y trafodaethau grŵp gwreiddiol a gynhaliwyd yn fuddiol. Fodd bynnag, roedd cred bod y grŵp llywio wedi cael ei sefydlu'n rhy hwyr fel 'ymarferiad blwch-ticio', gan olygu mai'r realiti oedd grŵp llywio mewn enw yn unig a oedd heb rym, nad oedd yn gallu cynnig cyfeiriad er gwaethaf arbenigedd, ac nad oedd â dim dylanwad dros benderfyniadau (a oedd yn cael eu gwneud gan y WRNSU cyn ymgynghori ac yn groes i gyngor). Roedd aelodau'n ei chael yn anodd hefyd i sicrhau atebolrwydd yr Uned Gefnogi yn sgil diffyg cyfathrebu â hi, gan gynnwys absenoldeb adborth ynghylch camau a gymerwyd a diffyg cofnodion o gyfarfodydd.

2.25 Codwyd mater ynghylch disgwyliadau aelodau'r Grŵp Llywio. Er mai diben y grŵp oedd llywio gweithgareddau a datblygiad Rhwydwaith Gwledig Cymru, roedd disgwyliad a fynegwyd gan aelodau'r Grŵp Llywio y dylai'r Grŵp Llywio gael dylanwad dros bolisi datblygu gwledig ehangach hefyd. Mae angen felly egluro diben a chylch gwaith y Grŵp Llywio. Oherwydd aelodau'r Grŵp Llywio a'r sectorau maent yn eu cynrychioli, gellir cydnabod y rôl y gall ei chwarae mewn perthynas â datblygu gwledig yn fwy cyffredinol. Ymddengys fod colli'r grŵp Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, a gadeirir fel arfer gan y dirprwy gyfarwyddwr Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, wedi golygu bod cyfrwng pwysig ar gyfer trafod a llunio polisi wedi cael ei golli i gynrychiolwyr LEADER ar y Grŵp Llywio. Cafodd y grŵp hwn ei ddisgrifio fel cyswllt da rhwng grwpiau gweithredu lleol, polisi a'r Uned Gefnogi. Mae Grŵp Llywio'r Uned Gefnogi felly wedi dod yn gyfrwng pwysig yn absenoldeb y grŵp Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Argymhellir bod Grŵp Llywio'r Uned Gefnogi naill ai'n cael ei gydnabod fel corff a all lenwi'r gwacter a adawyd ar ôl y grŵp Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, ac addasu ei gylch gwaith

yn unol â hynny, neu y dylid cyfyngu ar gylch gwaith Grŵp Llywio'r Uned Gefnogi, gydag eglurder ynghylch ar beth y dylai ganolbwyntio.

*Yr Uned Gefnogi*

2.26 Nod yr Uned Gefnogi yw cefnogi cyflawni'r pedwar amcan a bennir yn Rheoliad 1305/2013 EAFRD. Mae'r Uned yn cynnwys:

- Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru
- Tri Rheolwr Rhwydwaith Gwledig Cymru
- Rheolwr Cyllid
- Rheolwr Gwefan/Cynnwys

2.27 O aelodau tîm Uned Cefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru, dim ond dau a gyflogir yn llawn-amser, gyda'r pedwar aelod arall o staff yn gweithio'n rhan-amser.

2.28 Dywedodd Grwpiau Gweithredu Lleol fod rheolwyr Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi darparu gwasanaeth defnyddiol ac ymatebol o ganol 2019, gan anfon gwybodaeth trwy e-bost i ateb unrhyw ymholiadau. Roedd rheolwyr hefyd wedi mynd i gyfarfodydd rhanbarthol Grwpiau Gweithredu Lleol yn achlysurol.

2.29 Roedd rhanddeiliaid eraill a oedd wedi gweithio gyda'r Uned Gefnogi hefyd yn pwysleisio bod y staff yn gymwys, gwybodaeth a bod ganddynt brofiad da o ddatblygu gwledig, gan gynnwys cysylltiadau helaeth gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli sectorau gwledig traddodiadol. Yr agwedd gan randdeiliaid Ewropeaidd yn enwedig oedd bod yr Uned Gefnogi yn uned effeithiol, yn arbennig wrth gynrychioli a bod yn eiriolwr dros ddatblygu gwledig Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol. Roedd canfyddiad hefyd fod ganddynt berthynas agosach a mwy cynhyrchiol gyda rhanddeiliaid gwledig na gwledydd eraill, a'u bod yn cael eu defnyddio fel esiampl o'r cyfraniad posibl gan wledydd llai Ewrop mewn digwyddiadau rhyngwladol.

2.30 Dylid nodi fodd bynnag fod pryder ymysg nifer o'r rhai a gyfwelwyd ynghylch cysondeb y staffio, o fewn yr Uned Gefnogi ac ar draws

Llywodraeth Cymru, gyda throsiant uchel o staff Llywodraeth Cymru yn cael ei nodi fel problem gan lawer o randdeiliaid, ac yn rhwystr wrth weithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru. Credai rhanddeiliaid fod gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Uned Gefnogi yn cael eu llyffetheirio gan newidiadau parhaus mewn staff, a oedd yn rhwystro dilyniant a dealltwriaeth o'i rôl a'i chylch gwaith. Roedd rhai o'r rheini a gyfwelwyd yn priodoli adnoddau ariannol fel rhan o'r rheswm dros broblemau'n ymwneud â gallu staff a'r Uned Gefnogi i gyflawni ei rôl.

2.31 Yn y deuddeng mis diwethaf, mae'r Uned Gefnogi wedi wynebu problemau gyda staffio. Mae rhai aelodau o'r tîm wedi cael eu hailaseinio o bryd i'w gilydd i gyflawni gwaith i ddibenion y tu hwnt i'w cylch gwaith gwreiddiol neu waith nad yw'n ymwneud â'r Uned Gefnogi. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys monitro LEADER, cefnogi'r ESNR, a chyfrannu at waith polisi ar gyfer polisi gwledig. Mae hyn wedi arwain at dîm yr Uned Gefnogi'n cael ei wasgaru'n deneuach ar draws tasgau'r Uned. Roedd aelodau'r Grŵp Llywio yn mynegi rhwystredigaeth bod adnoddau a ddyrannwyd i'r Uned Gefnogi wedi cael eu cyfeirio at dasgau eraill. Mae'r niferoedd a gyflogwyd yn wreiddiol o dan yr Uned Gefnogi wedi mynd o 7 cyfwerth â llawn-amser ar gychwyn y rhaglen i lefel sylweddol is na hynny ar hyn o bryd, gyda phawb ond dau aelod o staff yn gweithio'n rhan-amser.

2.32 Fodd bynnag, roedd canfyddiad ymysg rhai rhanddeiliaid fod adnoddau ar gael, ond nad oedd rhanddeiliaid yn manteisio ar hyn, yn enwedig gan arweinwyr polisi a chynlluniau a allai elwa o'r gwasanaethau sydd ar gael gan yr Uned Gefnogi i drefnu digwyddiadau a lledaenu gwybodaeth.

2.33 Credai rhai rhanddeiliaid nad oedd y cwestwn yn gymaint ynghylch sut roedd y sefydliad wedi'i strwythuro o fewn Llywodraeth Cymru, ond yn hytrach a yw'n eistedd o fewn strwythur y llywodraeth o gwbl. Gellir sefydlu Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol naill ai o fewn yr

awdurdod cenedlaethol/rhanbarthol, ei weithredu gan endid allanol, neu mae “Uned Gefnogi gymysg” hefyd yn bosibl.[2]

2.34 Roedd pryderon penodol ynghylch nythu’r Uned Gefnogi yn Llywodraeth Cymru yn ymwneud â’i gallu i weithredu’n annibynnol, rhywbeth y credid ei fod yn llyffetheirio gweithrediad effeithiol yr Uned Gefnogi mewn meysydd allweddol. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu dull mwy deinamig, arloesol a rhagweithiol ac ymwneud yn well â rhanddeiliaid a allai fel arall fod yn wyliadwrus neu’n llai agored yn sgil perthynas agos yr Uned Gefnogi â Llywodraeth Cymru. Roedd sefydlu gofod gwefan ar wahân yn ddiweddar o dan reolaeth Busnes Cymru, oddi wrth brif wefan y llywodraeth, yn cael ei weld fel cam cadarnhaol at sefydlu gradd o annibyniaeth a hunaniaeth ar wahân fwy cynrychioliadol o’u rhanddeiliaid ehangach.

2.35 Fe wnaeth amryw o randdeiliaid grybwyll Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Iwerddon fel enghraifft o Rwydwaith Gwledig Cenedlaethol sy’n contractio ei Uned Gefnogi i endid allanol yn llwyddiannus. Y gred yw bod hyn wedi helpu iddo ddod yn fwy deinamig, arloesol a rhagweithiol o ganlyniad. Mae hyn yn rhywbeth rydym wedi ei archwilio yn astudiaeth achos Iwerddon yn Rhan II.

2.36 Nodwyd fodd bynnag, yn aml gan yr un unigolion, nad yw Uned Gefnogi a weithredir yn allanol yn gwarantu gwell gweithredu. Tynnwyd sylw at enghreifftiau lle’r oedd caffael sefydliad allanol wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau salach. Mae’n amlwg fod ansawdd y broses gaffael yn allweddol.

### Cyfathrebu

2.37 Mae rhan fawr o’r hyn mae’r Uned Gefnogi yn ei wneud yn cynnwys cyfathrebu ar draws amrywiol sianelau gyda rhanddeiliaid, buddiolwyr a buddiolwyr posibl yr RDP, yn ogystal â’r gymuned wledig ehangach. O ganlyniad, rhoddwyd pwyslais penodol ar werthuso’r elfen hon o’r

---

[2] http://enrd.ec.europa.eu/enrd-static/app_templates/enrd_assets/pdf/guidebook/nrn_handbook_webversion.pdf

gwaith, gydag adolygiad cyfathrebu a dadansoddiad o'r cydgysylltu yn cael ei gynnal. Mae canlyniadau hyn i'w gweld yn Adran 4.

**Rhwydweithio, Digwyddiadau a Chyd-drafod â Rhanddeiliaid**

2.38 Mae'r Uned Gefnogi wedi pwysleisio pwysigrwydd eu rôl rwydweithio, ac wedi tynnu sylw penodol at eu cyd-drafod â rhanddeiliaid fel blaenoriaeth a gweithgarwch allweddol sy'n galluogi rhwydweithio llwyddiannus. Mae hwyluso rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid datblygu gwledig i gyfnewid gwybodaeth a datblygu cydweithrediadau, yn allweddol i gyflawni holl amcanion yr Uned Gefnogi i ryw raddau, ond mae'n arbennig o bwysig i'r amcanion canlynol:

- Cynyddu gweithgarwch rhanddeiliaid sydd â diddordeb yng ngwaith yr RDP
- Cynyddu cydweithio trawswladol rhanddeiliaid RDP ar draws Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop
- Gwella ansawdd yr RDP yng Nghymru
- Meithrin arloesi mewn amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a choedwigaeth mewn ardaloedd gwledig

*Rhwydweithio a Chydweithio o fewn Cymru*

2.39 O fewn Cymru, nod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru oedd hwyluso rhwydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol a rhanddeiliaid eraill datblygu gwledig. Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau rhwydweithio o 2017 i 2020 yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol / Cynadleddau LEADER (cenedlaethol a rhyngwladol)
- Ffeiriau cyllid RDP
- Digwyddiadau themâu penodol RDP, er enghraifft:
    - Gweithdy Cynllun Coedwig Genedlaethol
    - Economi Wledig – Cadwyni Cyflenwi
    - Gweithdy Merched mewn Entrepreneuriaeth

- Grwpiau Trafod Gwlân / Tecstilau

- Presenoldeb mewn digwyddiadau ehangach, gan gynnwys:
    - Sioe Amaethyddol Bro Morgannwg
    - Sioe Frenhinol Cymru.

2.40 Dywedwyd gan y mynychwyr y siaradwyd â hwy bod y digwyddiadau a gynhaliwyd wedi bod yn fuddiol. Roeddent yn galluogi trosglwyddo gwybodaeth a rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau mewn gwahanol ardaloedd a rhwng prosiectau a'i gilydd. Cefnogir hyn gan ymatebion o'r arolwg ar-lein, lle'r oedd 71% o ymatebwyr yn rhestru 'gwneud cysylltiadau gydag eraill' fel un o brif fuddion digwyddiadau, a mynegodd 43% hefyd fod 'cyfarfod pobl o gyffelyb fryd' hefyd yn un o'r prif fuddion, ynghyd â chaffael gwybodaeth newydd. Diddorol yw nodi mai dim ond 21% o ymatebwyr a oedd yn gweld cyfleoedd am brosiectau cydweithio fel un o brif fuddion digwyddiadau. Awgryma hyn nad yw'r awydd i wneud cysylltiadau newydd a rhwydweithio yn cael ei yrru'n bennaf gan yr awydd i gydweithio ar brosiectau, ond yn fwy i rannu syniadau a phrofiadau.

2.41 Er i weithdai a digwyddiadau gael eu hwyluso gan yr Uned Gefnogi er mwyn hyrwyddo rhwydweithio, mae cau'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF) a chyflwyno ENRAW wedi gweld llai o drafodaeth ar draws grwpiau. Felly, mae lleihad wedi bod yn nifer y digwyddiadau a hwysluswyd o 2017 i 2020, er i 2020 weld mwy o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio ystafelloedd fideogynadledda ar gyfer digwyddiadau a gweithdai ar-lein. Er gwaethaf hyn, teimlai'r mwyafrif o randdeiliaid (gan gynnwys buddiolwyr RDP a Grwpiau Gweithredu Lleol) nad oedd y nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn cyrraedd y disgwyliad, ac y gallai'r Uned Gefnogi fod wedi chwarae rhan fwy mewn hwyluso cydweithio o fewn Cymru yn y modd hwn.

2.42 Roedd rhai rhanddeiliaid yn nodi nad oedd lledaenu gwybodaeth trwy sianelau'r Uned Gefnogi ond yn cyrraedd y 'bobl ddisgwyliedig arferol', ac y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r rhwydwaith pe

baent yn hyderus mewn cyrraedd y tu hwnt i'r grwpiau hyn, efallai i sectorau eraill hyd yn oed.

2.43 Dywedodd amryw o fuddiolwyr RDP hefyd eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael cefnogaeth yr Uned Gefnogi i ddatblygu eu rhwydweithiau eu hunain, gyda diffyg cymorth wrth sefydlu cysylltiadau â chydweithwyr posibl.

2.44 Roedd rhai o'r materion hyn yn cael eu priodoli i ddiffyg cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru mewn sefydlu arferion mwy effeithiol a rheolaidd o gynnwys rhanddeiliaid gydag arweinwyr polisi a rhanddeiliaid eraill. Roedd canlyniadau o'r arolwg ar-lein yn dangos consensws cyffredinol ynghylch yr angen am gyd-drafod gwell rhwng rhanddeiliaid a'r Uned Gefnogi ac adrannau'r llywodraeth. Mae'n amlwg fod yn rhaid cael awydd ar y ddwy ochr er mwyn gwella'r cyd-drafod hwn a threfnu a ffurfioli'r berthynas hon. Ar hyn o bryd, mae diffyg ymwybyddiaeth a chyswllt rhwng rhai rhanddeiliaid a'r Uned Gefnogi yn arwain at danddefnyddio adnoddau, gwasanaeth a swyddogion yr Uned a fyddai fel arall o fudd iddynt hwy ac eraill.

2.45 Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cyd-drafod ag arweinwyr polisi a chynlluniau ar gyfnodau ysbeidiol, ac mae ganddi ffurflen dempled sy'n mynd allan at arweinwyr cynlluniau a pholisi i ofyn am syniadau ar y ffordd orau y gall yr Uned eu cefnogi. Er y nodwyd gan rai rhanddeiliaid y dylai arweinwyr cynlluniau a pholisi gyfathrebu'n well gyda'r Uned Gefnogi a gwneud gwell defnydd o'u hadnoddau, mae'r ffaith fod yr adnodd hwn yn cael ei danddefnyddio yn tynnu sylw at broblem. Rhaid mynd i'r afael â'r maen tramgwydd. Gellir cryfhau'r prosesau y mae rhanddeiliaid a'r Uned Gefnogi yn cyfathrebu trwyddynt, gyda chyflwyniadau mwy ffurfiol, cyfathrebu lleol a'i gwneud yn ofynnol i ymwneud yn llawnach yn cael eu hawgrymu.

2.46 Cafodd absenoldeb Grŵp Awdurdod Rheoli ei nodi fel achos dros y diffyg cyd-drafod rhwng rhai rhanddeiliaid fel arweinwyr cynlluniau a pholisi a'r Uned Gefnogi. Arferai'r Uned Gefnogi eistedd ar y Grŵp

Awdurdod Rheoli, ynghyd â dirprwy gyfarwyddwr, a chan y byddai arweinwyr polisi a chynlluniau yn rhyngweithio â'r grŵp hwn, byddai llwybr clir o gyfathrebu rhyngddynt a'r Uned Gefnogi. Cyhoeddwyd papur yn 2019, wedi'i ysgrifennu gan bennaeth yr Uned Gefnogi, yn dweud bod cael gwared ar y Grŵp Awdurdod Rheoli wedi gadael bwlch nad yw wedi ei lenwi eto o ran monitro prosiectau a cholli sianelau cyfathrebu.

2.47 Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn rhwydweithio'n rhanbarthol o fewn Cymru yn bennaf, gyda grwpiau yn cyfathrebu o fewn y de-ddwyrain, y de-orllewin a'r gogledd. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn dweud bod y rhyngweithiadau hyn yn deillio'n gyffredinol o gysylltiadau a oedd yn bod eisoes, heb fawr o hwyluso gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn siarad am y potensial i'r Uned Gefnogi fod wedi rhoi cymorth pellach i gyfleoedd cydweithio a datblygu cysylltiadau a oedd yn bod eisoes. Er gwaethaf awgrymiadau wedi cael eu gwneud i'r Uned Gefnogi i hyn ddigwydd, ymddengys nad yw hyn wedi digwydd eto. Fe wnaeth llawer o randdeiliaid LEADER fodd bynnag bwysleisio gwerth cronfa ddata'r prosiect a'r map rhyngweithiol ar wefan yr Uned Gefnogi ar gyfer rhwydweithio, gan roi cyfle hygyrch i holi manylion prosiectau a gynhelid, yn ogystal â manylion yr arweinwyr prosiectau i gysylltu â hwy.

*Rhwydweithio a Chydweithio yn drawswladol*

2.48 Nod arall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yw cynyddu cydweithio trawswladol rhwng rhanddeiliaid RDP ledled y Deyrnas Unedig ac Ewrop yn ogystal. Casglwyd cymysgedd o farnau ar effeithiolrwydd y modd y cyflawnir hyn. Roedd rhanddeiliaid sydd â phrofiad o ddigwyddiadau rhwydweithio Ewropeaidd yn canmol y cyfraniad a wnaed gan yr Uned Gefnogi yn y digwyddiadau hyn wrth hyrwyddo gweithgareddau Datblygu Gwledig Cymru yn drawswladol. Y farn oedd bod yr Uned Gefnogi yn gyfranwyr brwd i'r ENRD mewn

digwyddiadau cydweithredol, yn rhannu syniadau, mentrau ac enghreifftiau o Gymru. Roeddent hefyd yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol fel esiampl i wledydd eraill o'r hyn y gall gwlad fach ei gyfrannu i'r ENRD.

2.49 Mae'r enw da hwn ar lwyfan rhyngwladol, a gwaith yn hyrwyddo gweithgareddau datblygu gwledig, yn amlwg yn werthfawr (yn fwy felly wrth inni adael yr RDP), fodd bynnag, roedd llai o hyder ymysg y rhai a gyfwelwyd fod y cysylltiadau hyn yn profi'n ffafriol i wella cydweithio trawsgenedlaethol ymysg Grwpiau Gweithredu Lleol a grwpiau LEADER.

2.50 Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn uchel eu clod o ddau gyfarfod Rhwydweithiau Gwledig Cenedaethol y Deyrnas Unedig, y naill yn Belfast (2017) a'r llall yn Glasgow (2019). Fodd bynnag, roedd ansicrwydd a oedd y digwyddiadau hyn yn cael eu trefnu gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru neu'r cyrff cyfatebol iddi yn Iwerddon a'r Alban. Roedd cynrychiolwyr o Grŵp Llywio'r Uned Gefnogi hefyd yn ansicr ynghylch tarddiad a chynnwys y digwyddiadau. Er y canfuwyd bod y digwyddiadau yn yr Alban ac Iwerddon yn fuddiol, dywedodd rhai Grwpiau Gweithredu Lleol eu bod yn rhy hwyr yng nghyfnod y rhaglen i gael llawer o effaith cadarnhaol.

2.51 Yn rhyngwladol, er bod cydweithio wedi bod rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol yng Nghymru a gwledydd eraill, dywedodd rhanddeiliaid fod y cysylltiadau hyn yn cael eu ffurfio'n bennaf yn annibynnol ar yr Uned Gefnogi a bod digwyddiadau rhwydweithio rhyngwladol yn aml yn cael eu hysbysebu heb ddigon o rybudd. Roedd y diffyg rhwydweithio trawswladol yn cael ei briodoli gan un rhanddeiliaid fel canlyniad diffyg cefnogaeth neu ddiddordeb gan Lywodraeth Cymru lle'r oedd gweithgarwch o'r fath yn y cwestiwn.

2.52 Dywedodd rhai o weinyddwyr LEADER y siaradwyd â hwy fod Grwpiau Gweithredu Lleol yn brin o'r capasiti, yn sgil cyfyngiadau amser ac adnoddau, i wirio cydweithrediadau posibl trwy wefan ENRD ac o ganlyniad eu bod yn ddibynnol ar yr Uned Gefnogi i fod yn

hwylusydd rhagweithiol. Ymddengys fod cwestiwn o ddisgwyliad gyda rôl yr Uned Gefnogi wrth hwyluso cydweithio rhyngwladol. Mae'r cyfrifoldeb am chwilio am brosiectau cydweithio rhyngwladol yn gorwedd gyda Grwpiau Gweithredu Lleol ac nid gyda'r Uned Gefnogi, er bod yr Uned Gefnogi yn gallu hwyluso'r cydweithio hwn trwy helpu cynnal digwyddiadau. Nid oes gan Grwpiau Gweithredu Lleol fynediad at gronfa ddata ENRD i chwilio am gyfleoedd am gydweithio rhyngwladol. Mae angen egluro cylch gwaith yr Uned Gefnogi yn y cyswllt hwn i Grwpiau Gweithredu Lleoll, fodd bynnag mae angen edrych ar y rôl y gall yr Uned Gefnogi ei chwarae wrth hwyluso cydweithio ryngwladol.

2.53 Roedd gwerth cydweithio a rhwydweithio trawswladol yn cael ei bwysleisio dro ar ôl tro gan nifer o randdeiliaid, eto roedd ymatebion o'r arolwg ar-lein o fuddiolwyr RDP yn dangos mai dim ond 35% o ymatebwyr oedd yn disgrifio cefnogaeth i gydweithio fel angen sylweddol am ddatblygu gwledig.

*Digwyddiadau a Chymorth i Ddigwyddiadu*

2.54 Dywedodd rhanddeiliaid fod digwyddiadau a gynhaliwyd rhwng tair a phum mlynedd yn ôl yn fuddiol i randdeiliaid, megis gweithdai Cydweithio a Chadwyni Cyflenwi, trafodaeth ar wlân a thecstilau, a ffeiriau cyllid RDP. Roedd y digwyddiadau hyn yn cyfle i fuddiolwyr cyllid RDP rhannu profiadau a'r arferion gorau, i rwydweithio, a dysgu am ddatblygiadau polisi a chyfleoedd yn y dyfodol.

2.55 Gan adeiladu ar y rhain, roedd rhanddeiliaid yn dadlau dros ddefnyddio digwyddiadau a rhwydweithio thematig yn hytrach na threfnu'r rhain yn ddaearyddol. Awgrymwyd i nifer o'r digwyddiadau thematig hyn cael eu cynnig dro'n ôl, ond na wireddwyd hwy yn y diwedd.

2.56 Dywedodd rhanddeiliai fod hyd yn ddiweddar absenoldeb cymharol o ddigwyddiadau a drefnwyd gan yr Uned Gefnogi, a bod hyn o bosibl wedi ei waethygu gan COVID-19, Brexit a chyfyngiadau'r adnoddau i'r

Uned Gefnogi. Y canfyddiad oedd bod gostyngiad wedi bod yn nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd rhwng 2017 ac yn gynnar yn 2020. Fodd bynnag, cafodd digwyddiadau eu cynnal yng Nghymru drwy gydol y cyfnod hwn, gyda digwyddiadau eraill a hwyluswyd gan yr Uned Gefnogi'n digwydd y tu hwnt i Gymru. Mae canfyddiadau rhanddeiliaid ar y maes hwn yn amlygu gwahaniaeth rhwng disgwyliadau rhanddeiliaid a'r nifer a'r mathau o ddigwyddiadau a gynhaliwyd. Efallai mai'r broblem felly oedd bod gan randdeiliaid ddisgwyliad o nifer mwy o ddigwyddiadau rhwydweithio a chydweithio nag oedd yr Uned Gefnogi yn gallu eu cyflawni. Dywedodd y mwyafrif o randdeiliaid, gan gynnwys y rheini a oedd yn ymwneud â LEADER yn ogystal â'r RDP yn ehangach, fod arnynt eisiau mwy o rhwydweithiau a digwyddiadau thematig.

2.57 Roedd gweinyddwyr LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol yn aml yn cael y dasg o weithredu'r digwyddiadau eu hunain, er iddynt mewn rhai achosion gael eu had-dalu gan yr Uned Gefnogi i gefnogi'r digwyddiad yn ôl-weithredol. Roedd rhanddeiliaid a gyfwelwyr yn amau a oedd trefnu digwyddiadau yn dal yn rhan o gylch gwaith yr Uned Gefnogi ac yn dadlau'r angen am ddigwyddiadau hyfforddi a gweithdai mwy rheolaidd. Ymddengys fod diffyg eglurder ynghylch pwy oedd â'r cyfrifoldeb am drefnu digwyddiadau. Byddai Grwpiau Gweithredu Lleol a fyddai â syniadau am ddigwyddiadau yn mynd at yr Uned Gefnogi, ond ymddengys fod digwyddiadau yn aml wedi methu â chael eu gwireddu. Mynegwyd dryswch ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am gynllunio'r digwyddiad a symud ymlaen ag ef, gyda Grwpiau Gweithredu Lleol wedi disgwyl mwy o gyfraniad gan yr Uned Gefnogi, a'r Uned Gefnogi yn gynyddol ddibynnol ar y Grwpiau Gweithredu Lleol i symud ymlaen gyda digwyddiadau yng ngoleuni problemau adnoddau. Mae'r methiant i roi digwyddiadau at ei gilydd yn dangos proses broblemus ar gyfer gwireddu syniadau am ddigwyddiadau, gyda thagfa amlwg ar ryw bwynt yn y broses. Mae angen disgwyliad clir o bwy sydd i fod i weithredu gyda datblygu'r digwyddiad, fel sydd am broses well ar gyfer troi syniad am

ddigwyddiad yn brosiect, gan gynnwys gweinyddwyr LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol, a gweld y cynllun yn dwyn ffrwyth gyda chymorth gan yr Uned Gefnogi.

2.58 Mae'n bwysig nodi fodd bynnag fod yr Uned Gefnogi, ers mis Medi 2020, wedi cynnal cyfres o bedwar digwyddiad a gweithdy thematig ar-lein. Ymddengys fod y rhain wedi bod yn llwyddiannus ac wedi denu presenoldeb da, er nad oes gennym unrhyw ddata uniongyrchol o gyfweliadau i gefnogi hyn. Er na all digwyddiadau ar-lein atgynhyrchu buddion digwyddiadau wyneb yn wyneb ym mhob ffordd, mae rhwyddineb y modd y gellir dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i archwilio materion thematig yn argoeli'n dda am amserlen fwy ffrwythlon o ran digwyddiadau yn y dyfodol. Archwilir hyn hefyd yn yr adolygiad COVID-19 yn adran 5.

### Cymorth ac Adeiladu Capasiti

*Hyfforddiant a Chymorth i LEADER*

2.59 Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn mynegi pryder nad oedd yr Uned Gefnogi wedi darparu hyfforddiant digonol iddynt, ac nad oeddent wedi cael canllawiau digonol mewn meysydd fel hyfforddi a gweinyddu, datblygu lleol dan arweiniad y gymuned, darganfod a chychwyn prosiectau, a monitro dangosyddion perfformiad.

2.60 Er bod gan yr Uned Gefnogi fecanwaith i ofyn i grwpiau LEADER ynghylch anghenion hyfforddi trwy ei drefniadau monitiro, gellir efallai adeiladu cyfle mwy rheolaidd i ofyn am anghenion adeiladu capasiti a hyfforddiant i'r adroddiadau chwarterol a gaiff eu cyflwyno gan weinyddwyr LEADER.

2.61 Ymddengys fod cyfarfodydd rhanbarthol a drefnir gan Grwpiau Gweithredu Lleol yn ffynhonnell sylweddol o gyd-gefnogaeth ac adeiladu capasiti. Mae'r Uned Gefnogi yn mynd i gyfarfodydd rhanbarthol a gynhelir gyda Grwpiau Gweithredu Lleol de-orllewin a chanolbarth Cymru. Mae hyn yn galluogi trafodaeth i ddigwydd ynghylch materion cyffredin ac yn ysgogi ateb ymholiadau. Yn

wreiddiol, arferai un o swyddogion yr Uned Gefnogi fynychu cyfarfodydd Grwpiau Gweithredu Lleol unigol ond mae hynny bellach wedi peidio. Un budd penodol o grŵp y de-orllewin yw bod y cyfarfodydd wedi cynnwys cadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol. Cafodd hyfforddiant ac adeiladu capasiti i gadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol ei godi fel mater gan nifer o randdeiliaid LEADER, ond mae'r ymwneud hwn gan gadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a phrofiad rhwng grwpiau LEADER a chadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol. Byddai'r cyfarfodydd yn cynnwys cyfarfod ar wahân i gadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol, gan ddarparu fforwm i gadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol drafod materion ar eu lefel hwy.

2.62 Mae cyfarfodydd Grwpiau Gweithredu Lleol de-orllewin Cymru felly yn fodel o arferion da y dylid eu hystyried gan weinyddwyr LEADER ledled Cymru.

2.63 Roedd ymatebion cadarnhaol yn bennaf gan randdeiliaid a oedd yn ymwneud â LEADER ynghylch effeithiolrwydd cael atebion i gwestiynau – un swyddogaeth gymorth allweddol y siaradodd nifer o weinyddwyr LEADER amdani. Yn gyffredinol, roedd gweinyddwyr LEADER yn hawlio bod yr Uned Gefnogi wedi bod yn dda wrth ymateb i'w hymholiadau am wybodaeth ac egurder ar faterion RDP. Roedd rhai gweinyddwyr LEADER yn nodi bod y sianel hon ar gyfer ymholiadau wedi gwella yn y 18 mis diwethaf, gyda rheolwyr rhanbarthol yn ateb ymholiadau ar unwaith.

Un peth bach negyddol a nodwyd gan randdeiliad LEADER oedd, tra bod cwestiynau ar faterion strwythurol neu weithdrefnol yn cael eu hateb yn gyflym, bod llai o gymorth i gwestiynau'n ymwneud â syniadau a datblygu prosiectau. Awgrymai'r rhanddeiliad fod hyn oherwydd diffyg sgiliau yn yr agweddau mwy manwl o ddatblygu a gweithredu prosiectau.

## 3. Adolygu'r cyfathrebu a dadansoddi'r cyd-drafod

3.1 Un o rolau allweddol Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yw cyfleu gwybodaeth berthnasol am yr RDP i randdeiliaid a'r cyhoedd trwy amryw o wahanol sianelau a drafodir isod. Mae cyfathrebu effeithiol yn rhan hanfodol o ddiwallu'r anghenion a nodwyd ar y Rhwydwaith a'r Uned Gefnogi, ac o ganlyniad maent yn rhan ganolog hefyd o gyflawni'r amcanion a nodwyd.

3.2 Ar gyfer yr adolygiad hwn o gyfathrebu a chyd-drafod ar gyfer cyfnod rhaglen 2014-2020, fe wnaethom ystyried ymatebion o gyfweliadau ansoddol, yr arolwg ar-lein, data dadansoddeg a chyd-drafod sydd ar gael, yn ogystal â barn wrthrychol arbenigwr cyfathrebu.

*Ymateb cyffredinol*

3.3 Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth gan randdeiliaid fod gweithgarwch cyfathrebu'r Uned Gefnogi yn rhan amlwg o'i chylch gwaith, ac mai dyma'n aml oedd ei chyfraniad mwyaf adnabyddus.

3.4 Mae deunydd cyfathrebu yn gyffredinol o ansawdd uchel, wedi ei ysgrifennu a'i gyflwyno'n dda, gan roi sylw i gylch gwaith eang o weithgarwch datblygu gwledig. Gall yr wybodaeth a gyflwynir fod o werth amlwg i randdeiliaid a buddiolwyr posibl, yn enwedig manylion ar gyfleoedd am gyllid a chymorth, rhannu'r arferion gorau a manylion am brosiectau a'r newyddion a'r datblygiadau diweddarar mewn datblygu gwledig yng Nghymru.

3.5 Gweithgarwch cyfathrebu'r Uned Gefnogi yw'r enghraifft gliriaf efallai o'r sefydliad yn cyflawni elfennau allweddol o'r cylch gwaith a bennwyd ar ei chyfer. Mae'n adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed ganddi yn y pedair blynedd ddiwethaf i wneud gwelliannau yn y maes hwn. Mae, fodd bynnag, le am welliant pellach, a gaiff ei archwilio isod, ac a archwilir yn Rhan II yr adroddiad. Mae cynnal a gwella'r rôl gyfathrebu yn flaenoriaeth ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod y pontio ôl-RDP.

3.6 Roedd ymatebion i'r arolwg ar-lein yn dangos defnydd cyffredin o sianelau cyfathrebu'r Uned Gefnogi, gyda dros 70% o ymatebwyr yn dangos eu bod yn defnyddio gwefan yr Uned Gefnogi, gan gynnwys bron i draean a oedd

wedi defnyddio'r gronfa ddata o astudiaethau achos. Roedd Cyfryngau Cymdeithasol a Chylchlythyr Newyddion Rhwydwaith Gwledig Cymru hefyd yn cael eu defnyddio mewn rhyw ffordd neu'i gilydd gan fwy na hanner yr ymatebwyr. Nid yw hyn yn syndod efallai gan i'r sianelau cyfathrebu hyn gael eu defnyddio i ddosbarthu'r arolwg, eto roedd llawer mwy o ymwneud â'r wefan nag â digwyddiadau'r Uned Gefnogi, nad oedd ond 19% o ymatebwyr wedi ymwneud â hwy. Dengys hyn bwysigrwydd sianelau cyfathrebu Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru fel y prif fodd o gadw cysylltiad i fwyafrif o unigolion, gan gynnwys gwybodaeth am gyfleoedd cyllid, y tynnwyd sylw ato fel un o'r anghenion mwyaf am gymorth i ddatblygu gwledig gan dros 70% o ymatebwyr yr arolwg, gyda 'rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau buddiant / sefydliadau' yn agos y tu ôl iddo (a oedd yn cael ei weld gan 54% o ymatebwyr fel un o'r anghenion mwyaf).

3.7 Roedd gan y rhanddeiliaid a gyfwelwyd farn gadarnhaol i raddau helaeth o waith cyfathrebu'r Uned Gefnogi, er eu bod yn credu bod mwy o hyd y gellid ei wneud. Er bod rhanddeiliaid yn cytuno bod safon cyfathrebu'r Uned Gefnogi wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf, roeddent yn pwysleisio datgysylltiad yr Uned Gefnogi, absenoldeb gwybodaeth, a chyfathrebu anaml a gwasgaredig hyd at hynny.

3.8 Roedd rhanddeiliaid hefyd yn mynegi'r gred y gallai'r cyfathrebu gan yr Uned Gefnogi fynd y tu hwnt i'r wefan a chylchlythyrau newyddion, gyda'r angen am rannu gwybodaeth, cymorth a deialog mewn modd mwy pwrpasol o fewn rhanbarthau a ledled Cymru. Gwnaed y sylw'n achlysurol fod cyfathrebu yn rhy "unochrog" ac nad oedd yn annog deialog neu nad oedd fawr o fodd o gasglu na chyflwyno deialog na thrafodaeth.

*Gwefan*

3.9 Mae'r wefan yn rhan bwysig o weithrediad Rhwydwaith Gwledig Cymru, ac yn un o elfennau allweddol ei strategaeth gyfathrebu. Mae'n gwasanaethu fel arf pwysig i ymwneud â rhanddeiliaid ar draws yr RDP. Mae'r wefan yn weithredol a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd, ac mae'n rhoi lle i wybodaeth, gan gynnwys newyddion a diweddariadau rheolaidd ar brosiectau RDP, a

gwybodaeth ar ddigwyddiadau i ddod. Mae'r wefan hefyd yn rhoi lle i astudiaethau achos ysgrifenedig a fideo o brosiectau RDP, gan gynnwys prosiectau gan LEADER, Pentrefi Clyfar, a Phartneriaeth Arloesi Ewrop, ac mae'n cynnwys adnoddau eraill fel gweminarau a gweithdai ar-lein. Mae'r wefan hefyd yn darparu cronfa ddata a map rhyngweithiol o brosiectau LEADER yng Nghymru.

3.10 Mae swm mawr o ddeunydd o safon ar y wefan. Mae'r wybodaeth wedi'i hysgrifennu'n glir ac mewn arddull addas ar gyfer cynnwys ar-lein. Yn weledol, ategir gwybodaeth yn aml gan luniau a ffotograffau o safon uchel, fel bod gwe-dudalennau yn apelgar ac yn cael eu cyfoethogi gan nodweddion gweledol thematig addas.

3.11 Mae hi bellach yn storfa werthfawr iawn o newyddion, yn ogystal â chynnwys ac adnoddau bythwyrdd[3]. Fodd bynnag, wrth i'r storfa barhau i dyfu, gellid gwella hygyrchedd y cynnwys, o ran sut y caiff ei gyflwyno a rhwyddineb chwilio a chael y cynnwys a ddeisyfir, er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar ei ddefnyddioldeb. Mae risg y bydd rhywfaint o gynnwys gwerthfawr yn cael ei golli, gan gynnwys yr astudiaethau achos fideo rhagorol a gynhwysir ar y wefan. Dylid archwilio cyfleoedd am ffyrdd mwy hygyrch o gyflwyno cynnwys bythwyrdd.

*3.12* Roedd y wefan wedi'i lletya'n flaenorol ym mhrif borthol ar-lein Llywodraeth Cymru, ond aeth trwy adolygiad mawr yn ystod cyfnod y rhaglen a chafodd ei hail-lansio o dan safle ymbarél Busnes Cymru. Y canlyniad oedd hunaniaeth fwy gwahanol a thrawiadol i Rwydwaith Gwledig Cymru, ar wahân i wefan Llywodraeth Cymru, yn ogystal â rhoi mwy o allu i'r Uned Gefnogi reoli a theilwra cynnwys yn uniongyrchol. Mae ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu'n fawr ers yr ail-lansio. Mae'r wefan yn derbyn tua 10,000 o ymweliadau y mis ar hyn o bryd, ac ym mis Awst, roedd eisoes wedi derbyn 107,048 o ymweliadau eleni (2020), o gymharu â 26,248 drwy gydol 2018.

*3.13* Mae cyfradd fownsio gyfartalog ar y dudalen hafan (canran o ymwelwyr sy'n gadael y dudalen yn gyflym) o 46% am y misoedd Awst-Hydref, a chyfradd

[3] Cynnwys y mae chwiliadau'n rhoi blaenoriaeth iddo yw cynnwys bythwyrdd, sy'n berthnasol yn barhaus, ac sy'n aros yn "ffres" i ddarllenwyr dros gyfnod hir o amser.

adael o 42% yn weddol dda, gan awgrymu bod mwy na hanner yr ymwelwyr yn aros ar y wefan am gyfnod o amser ac yn ymweld â gwe-dudalennau y tu hwnt i'r dudalen hafan.

*3.14* Mae mwyafrif yr ymweliadau â'r wefan yn ymweliadau uniongyrchol, gydag ymweliadau â'r wefan trwy gyfryngau cymdeithasol yn weddol isel ar y cyfan, gyda chyfartaledd o 60 y mis trwy Facebook a 94 y mis trwy Twitter, er bod hyn yn amrywio rhwng misoedd, ac mae potensial i wella'r gyfradd hon trwy well integreiddio. Roedd y niferoedd uchaf o ymwelwyr dyddiol pob mis yn y cyfnod tri mis (Awst – Hydref 2020) y mae gennym ddata ar ei gyfer, i gyd yn dilyn cyhoeddi'r cylchlythyr newyddion misol. Er nad oes gennym ddata ar gliciau trwodd o'r Cylchlythyr i'r Wefan, mae'n amlwg fod y Cylchlythyr yn gyrru ymwelwyr i'r wefan. Unwaith eto, mae potensial mwy fyth i hyn trwy integreiddio mwy o deithiau ymlaen i'r wefan yng nghynnwys y Cylchlythyr Newyddion.

*3.15* Dim ond rhan o'r stori mae dadansoddeg y we yn gallu ei dweud wrthym fodd bynnag, gan mai ansawdd y cynnwys a'i addasrwydd i anghenion ei ddefnyddwyr yw'r ffactor pwysicaf. O ganlyniad, byddai arolwg o ddefnyddwyr y wefan felly'n cael ei argymell er mwyn cael gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar ddefnyddioldeb y cynnwys, fodd bynnag mae ymatebion gan randdeiliaid a gyfwelwyd yn rhoi inni rywfaint o arwydd o'i werth.

*3.16* Y wefan oedd y ffurf o gyfathrebu gan yr Uned Gefnogi a oedd fwyaf adnabyddus i rhanddeiliaid. Roedd llawer o randdeiliaid a gyfwelwyd – gan gynnwys cynrychiolwyr o gyrff gweinyddol LEADER, y grŵp llywio, a rhanddeiliaid strategol – yn uchel eu clod o'r wefan, gan nodi ei defnydd ar gyfer amlygu a rhannu syniadau am brosiectau a chyfleoedd rhwydweithio posibl. Dywedodd nifer o weinyddwyr LEADER eu bod yn cael cipolwg rheolaidd ar y wefan er mwyn diweddaru eu gwybodaeth ar ddatblygiadau mewn ardaloedd LEADER eraill. Cydnabuwyd gan y mwyafrif o randdeiliaid fod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi brwydro'n galed i sefydlu'r wefan yn ei ffurf bresennol a chael y rhyddid i reoli ei chynnwys – mae'r wefan yn eistedd o dan Busnes Cymru, sy'n golygu nad yw'n ofynnol i'w deunydd cyfathrebu gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

3.17 Roedd rhai rhanddeiliaid yn pwysleisio, fodd bynnag, fod yr Uned Gefnogi yn canolbwyntio gormod ar y wefan, er ei bod yn dda, fel ei phrif fodd o ymwneud â rhanddeiliaid. Fel y nododd un rhanddeiliad, ac eithrio'r wefan a'r cylchlythyr newyddion, ni wnaed fawr y tu hwnt i LEADER. Er bod y wefan a'r cylchlythyr yn angenrheidiol, roedd rhanddeiliaid yn sôn am bwysigrwydd ymwneud a chyd-drafod mwy rhagweithiol y tu hwnt iddynt.

*Cylchlythyr newyddion Rhwydwaith Gwledig Cymru*

3.18 Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn darparu cylchlythyr newyddion e-bost misol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n rhoi gwybodaeth ynghylch rhwydweithio, prosiectau, a'r arferion gorau sy'n ymwneud ag RDP Cymru a'r tu hwnt.

3.19 Roedd dros 57% o ymatebwyr wedi ymwneud â'r Cylchlythyr Newyddion ac roedd rhanddeiliaid yn gyffredinol yn ei gael yn adnodd defnyddiol. Mae tanysgrifiadau i'r cylchlythyr yn parhau i gynyddu, o 6544 ym mis Ionawr 2019 i 8389 ym mis Awst 2020. Mae maint y cynnwys yn y cylchlythyr a'r ffordd y caiff ei gyflwyno mewn ffordd sy'n weledol apelgar a strwythuredig, o gymharu â'r hyn a welwyd yn 2016, yn amlwg wedi gwella.

3.20 Roedd llawer o randdeiliaid a gyfwelwyd yn gweld y cylchlythyr fel modd o ffurfio cysylltiadau a thrafodaethau, fodd bynnag mae'n angenrheidiol hefyd ystyried bod nifer o randdeiliaid a gyfwelwyd wedi mynegi pryderon ynghylch gorddibyniaeth ar y cylchlythyr.

3.21 Roedd diffyg ymwybyddiaeth o'r cylchlythyr ymysg rhai rhanddeiliaid fodd bynnag, gan gynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol a chydgysylltwyr RDP. Codwyd pryder ynghylch ei fformat digidol, gyda chred y gallai hynny gyfyngu ei gynulleidfa, gydag un rhanddeiliad yn codi'r pwynt fod y Cylchlythyr allan o gyrraedd llawer o ffermwyr oherwydd ei fformat digidol. Fe wnaeth aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol nodi hefyd ddiffyg amser a chapasiti i ddarparu gwybodaeth i'r cylchlythyr, neu hyd yn oed i'w ddarllen a gweithredu ar yr wybodaeth.

3.22 Roedd rhai rhanddeiliaid yn codi pryderon fod cylchlythyr Rhwydwaith Gwledig Cymru'n dyblygu'r wybodaeth a gyhoeddir gan Gwlad, cylchlythyr

newyddion Llywodraeth Cymru ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth. Fodd bynnag, roedd eraill yn nodi bod y ddau gylchlythyr yn gwasanaethu dibenion penodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, a bod cael cylchlythyr ar wahân i'r Rhwydwaith yn rhoi sylw i LEADER a chymunedau gwledig mewn ffordd na allai Gwlad ei wneud. Sylw un o weinyddwyr LEADER, er enghraifft oedd er bod ambell i adlais o gylchlythyr y Rhwydwaith yn Gwlad, bod Gwlad yn canolbwyntio ar yr hyn roedd ar ffermwyr angen ei wybod. Ychwanegodd y byddai LEADER yn cael ei anghofio pe bai'r ddau gyhoeddiad yn uno.

*Cyfryngau Cymdeithasol*

3.23 Mae'r Uned Gefnogi yn cynnal ac yn diweddaru'n barhaus gyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys cyfrif Twitter a Facebook. Mae'r cyfrifon hyn yn weithgar iawn, gyda chynnwys yn cael ei bostio'n ddyddiol yn aml ar y ddwy sianel, gyda phostiadau fymryn amlach ar Twitter, lle mae'n gyffredin i amryw o bostiadau gael eu postio mewn diwrnod. O fewn mis Awst 2020, fe wnaeth sianel Twitter yr Uned Gefnogi bostio 82 o weithiau, gan gynnwys 26 o aildrydariadau ac aildrydariad dyfyniad. Roedd hyn yn cynnwys deunydd o'r holl sectorau craidd mae'n eu cynrychioli (Amaethyddiaeth, Bwyd, Cymuned, Twristiaeth, Amgylchedd a Choedwigaeth).

3.24 Caiff y sianelau eu defnyddio i hyrwyddo cynnwys newydd ar y Wefan, i raddau helaeth astudiaethau achos newydd a diweddariadau newyddion, a gwelir hwy'n cael eu defnyddio'n helaeth hefyd i hyrwyddo digwyddiadau'r Uned Gefnogi, yn fwyaf diweddar y pedwar gweithdy/digwyddiad ar-lein a gynhaliwyd. Yn ogystal, defnyddir y ddwy sianel i rannu cynnwys gan ddefnyddwyr a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â datblygu gwledig. Bydd hyn gan amlaf yn gynnwys sy'n ymwneud â gweithgareddau diweddar rhanddeiliaid gwledig, neu ddigwyddiadau i ddod.

3.25 Caiff cynnwys tebyg ei bostio ar Facebook ac ar Twitter, sy'n aml yn cyfeirio at yr un straeon newyddion a digwyddiadau. Ychydig iawn o wahaniaeth mewn gwirionedd sydd yn y cynnwys rhwng y ddau.

3.26 Â siarad yn gyffredinol, cyfradd isel iawn o ymateb sydd i'r cynnwys a gaiff ei bostio, fodd bynnag nid yw hyn yn anghyffredinol i sianelau cyfryngau cymdeithasol sydd â dilyniant cymharol isel (Twitter – 1755 o ddilynwyr, Facebook – 417 o ddilynwyr). Mae hyd yn oed sianelau twitter Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill sydd â niferoedd mwy o ddilynwyr (Rhwydwaith Gwledig yr Alban - 6769, Cyswllt Gwledig Iwerddon, 3695), â chyfraddau tebyg o ymateb i gynnwys. Er bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran cynyddu dilynwyr yn gyffredinol, mae hyn wedi peidio, gyda chyfanswm o ddim ond 123 o ddilynwyr newydd yn cael eu denu yn 2020. Mae rhai gwelliannau y gellid eu gwneud i gynyddu niferoedd dilynwyr, ac yn bwysicach, raddau eu hymwneud â'r cynnwys.

3.27 Mae nifer o bostiadau yn cynnwys deunydd sydd wedi cael ei bostio o'r blaen, yn bennaf manylion ar gynlluniau grant a digwyddiadau. Mae hyn yn arfer gyffredin, gan na ellir tybio y bydd eich cynulleidfa yn gweld na darllen unrhyw bostiad a wnaed. Fodd bynnag, roedd y cynnwys hwn yn aml yn cael ei ailadrodd gydag union yr un neges a geiriad pob tro. Pan na chaiff cynnwys ei amrywio, y canlyniad yn aml yw lleihau'r graddau mae'n ennyn diddordeb. Mae hefyd yn rhoi'r argraff gyffredinol i ddilynwyr nad yw'r sianel yn cynnwys fawr o wybodaeth newydd. Bydd amrywiadau syml mewn geiriad a'r lluniau a ddefnyddir, gan gynnwys troshaenu testun ar luniau i hybu negeseuon, yn ogystal â gwahanol gysylltiadau trwy hashnod a @ yn cynyddu'r tebygolrwydd o ennyn diddordeb. Enghraifft dda o hyn yn gweithio'n effeithiol yw postiad ar 22 Awst, a oedd yn ailadrodd hysbyseb a wnaed o'r blaen am Weithdy Coetiroedd. Fodd bynnag, defnyddiwyd llun a geiriad newydd, gan gynnwys troshaenu testun ar y llun, yn ogystal â hashnod newydd, gan gynnwys y gair 'wildlife'. Cafodd y postiad ei rannu 22 o weithiau, llawer mwy nag unrhyw fath arall o ymateb a dderbyniwyd. Wrth archwilio, gwelwyd mai un o'r rhai a'i rhannodd oedd The British Nature Guide, sydd â dros 51,000 o ddilynwyr ar Twitter. Roedd hyn yn ddiamheuol yn ffactor mawr yn y cynnydd hwn mewn diddordeb. Mae'n debygol o esbonio hefyd y ffaith mai'r we-dudalen ar gyfer y digwyddiad hwn oedd un o'r rhai yr ymwelwyd â hi fwyaf ar y wefan ym mis Awst. Mae strategaeth i sicrhau mwy o rannu yn y ffordd hon yn amlwg yn werthfawr, ac yn

bwysicach nag amlder postiadau. Byddai mapio sefydliadau ac unigolion posibl i gysylltu postiadau â hwy, a hashnodau i'w hymgorffori, yn gychwyn defnyddiol.

3.28 Maes arall ar gyfer gwelliant yw cynyddu'r defnydd o aildrydariadau ar Twitter neu raniadau ar Facebook sy'n cynnwys sylw gan y sefydliad. Mae hyn yn rhoi cyd-destun i'r cynnwys ac yn ennyn ymateb ac mae hefyd yn golygu, os caiff ei rannu, ei fod yn cysylltu'n ôl â'r Uned Gefnogi, yn hytrach nag awdur gwreiddiol y cynnwys. Mae hefyd yn annog mwy o draffig i'r cynnwys perthnasol ar wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ogystal. Gellid gwneud llawer mwy i gyfeirio traffig o sianelau cyfryngau cymdeithasol i wefan a'r adnoddau yno.

Yn olaf, beirniadaeth gyffredin o ddulliau cyfathrebu'r Uned Gefnogi oedd eu natur un-ffordd. Os cânt eu gwneud yn dda, mae gan sianelau cyfryngau cymdeithasol botensial anferthol i greu rhyngweithio a deialog. Gall fod yn anodd creu'r diwylliant hwn ac adeiladu màs critigol, ond gan fod awydd am drafod a rhyngweithio, gellid gwneud ymdrechion i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y modd hwn. Mae hyn yn bennaf yn golygu defnyddio arolygon a pholiau yn ogystal â chyflwyno gwahanol syniadau, barnau a chwestiynau, yn hytrach na chael eu defnyddio'n bennaf fel bwrdd postio.

# 4. Adolygiad o ymchwil COVID-19

4.1 Mae'r canlynol yn grynodeb o effeithiau a goblygiadau allweddol COVID-19 ar yr economi wledig, cymunedau gwledig, Rhwydwaith Gwledig Cymru, a'i weithgareddau ehangach. Mae'n ganlyniad adolygiad o ddogfennaeth berthnasol, data a gwaith maes y gwerthusiad.

**Effaith Covid-19**

4.2 Mae Covid-19 wedi bod yn sioc allanol i systemau cymdeithasol ac economaidd yn fyd-eang ac mae wedi gwthio economi'r Deyrnas Unedig i'r dirwasgiad dyfnaf a gafodd ei gofnodi, gyda thua 314,000 o swyddi wedi cael eu colli yn y tri mis hyd at fis Medi 2020.[4]

4.3 Mae datblygu gwledig wedi cael ei daro gan newid mewn galw, llai o gynnyrch ffermio, tafarndai, tai bwyta a gwestyau yn cau, ac mae wedi llesteirio prisiau allforion cig a llaeth yn sgil cwymp mewn galw. Mae ei effeithiau yn cynnwys:[5]

- Ffermio – prisiau gwlân wedi haneru yn sgil toriadau mewn allforion
- Coedwigaeth – effeithiau cadarnhaol a negyddol. Cwymp mewn galw gan y diwydiant adeiladu ond cynnydd mewn pecynnu.
- Twristiaeth – wedi ei atal dros 4 mis, mae 70% o'r llafurlu twristiaeth wedi ei roi ar ffyrlo. Cwymp canolrifol o 20% mewn incwm, gyda rhai busnesau'n profi hyd at 80% o gwymp.

4.4 Mae llawer o weithgarwch economaidd y Gymru wledig yn dibynnu ar y sectorau twristiaeth a lletygarwch.[6] Felly, mae'r cwymp mewn gweithgarwch twristiaeth a ddigwyddodd o ganlyniad i'r pandemig wedi effeithio ar fusnesau gwledig lleol. Adlewyrchir hyn yn y graddau uchel o fanteisio ar y Cynllun Cadw Swyddi Covid-19 (CJRS) o fewn awdurdodau lleol gwledig, sy'n ffurfio cyfran sylweddol o'r cyfanswm sy'n manteisio ar y cynllun yn Nghymru.

---

[4] https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/uklabourmarket/november2020

[5] Cyflwyniad Fforwm yr Amgylchedd Cymru ar yr Ucheldiroedd

[6] https://www.coronavirusandtheeconomy.com/question/how-coronavirus-affecting-welsh-economy

4.5 Mae'r cynnydd mewn gweithio o gartref hefyd wedi cael effaith sylweddol. Mae'r cyfle i weithio o unrhyw le wedi gwneud cefn gwlad yn gyfle adleoli apelgar i lawer. Canfu arolwg gan Rightmove fod gan tua 30% o brynwyr eiddo yn y Deyrnas Unedig ddiddordeb mewn cyfleoedd gwledig yn yr ychydig fisoedd cyn mis Awst.[7]

4.6 Mae'r cynnydd mewn galw am fyw yn y wlad wedi cael ei weld fel bygythiad – achos posibl o ddisodli diwylliannol a ieithyddol a hefyd boneddigeiddio. Mae pryder o bwysau'n codi prisiau eiddo yn sgil darpar gynnydd mewn galw a nifer cyfyngedig o anheddau.

4.7 Gallai adleoli yn sgil cyfnod Covid-19 fodd bynnag ddod â manteision i'r economi wledig trwy ddod ag amrywiaeth helaeth o sgiliau i mewn, a dychweliad pobl ifanc i gymunedau sydd â phoblogaethau'n heneiddio. Gallai effeithiau'r lluosyddion cadarnhaol gynnwys cynnydd mewn entrepreneuriaeth gwledig, gyda chynnydd mewn busnesau annibynnol mewn meysydd fel: Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd, Bwyd a Thwristiaeth.

**Ymateb**

*Datblygu digidol*

Gallai gwendidau yn y ffordd mae pethau'n gweithredu ar hyn o bryd, a'r anghydraddoldeb yn y strwythur gwledig a amlygwyd gan Covid-19, hefyd gynnig cyfle am newid. Er enghraifft, gallai datblygu digidol wrthweithio methiannau'r farchnad sy'n ymwneud â mynediad cyfyngedig a chysylltedd gwael, sy'n llesteirio twf. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno'r Cynllun Taleb Band Eang Gigabeit, cynllun a fydd yn ceisio darparu band eang cyflym iawn i gartrefi a busnesau gwledig erbyn 2025.[8]

*Buddsoddiad*

[7] https://rsnonline.org.uk/surge-in-interest-for-rural-properties-following-covid-19-pandemic
[8] https://www.gov.uk/government/news/uk-and-welsh-governments-team-up-on-big-broadband-boost-for-rural-wales

4.8 Mewn ymateb i Covid-19, a chyfnod pontio gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r economi wledig gyda dros £100m o hwb cyllid dros y tair blynedd nesaf, gyda disgwyl iddo gefnogi'r meysydd hyn:[9]

- Creu ac adfer coetiroedd
- Adeiladu cydnerthedd i gyfoeth naturiol Cymru a gwella bioamrywiaeth;
- Helpu busnesau bwyd i wella eu cadwyni cyflenwi, a gwydnwch busnesau
- Cefnogi busnesau fferm i helpu sicrhau eu cynaliadwyedd
- Gweithredu Strategaeth Adferiad Covid-19 y sector bwyd a diod.

4.9 Fodd bynnag, dylid gweld y buddsoddiad hwn yng nghyd-destun y potensial am doriadau cyllid a chyfyngiadau cyllidebau mewn mannau eraill, a hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan ansicrwydd parhaus cytundebau masnach ar ôl Brexit. Mae Adolygiad Gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig (Tachwedd 2020) wedi datgelu diffyg o £95 miliwn yn erbyn y £337 miliwn a ddisgwylir yng nghyllideb amaethyddol a datblygu Gwledig Cymru am 2021-2022. Mae i'r golled lawn, wrth ystyried y gwariant RDP llawn a 15 y cant o drosglwyddo colofn, y potensial o fod yn £137m.

**Ymateb a goblygiadau i Rwydwaith Gwledig Cymru**

4.10 Mae COVID-19 wedi cael nifer o effeithiau uniongyrchol ar weithgareddau Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru, yn fwyaf nodedig yr analluy i drefnu a hwyluso digwyddiadau a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi pwysleisio ymhellach yr angen am gyfathrebu effeithiol, cyd-drafod â rhanddeiliaid, a chydweithio, yn enwedig pan gyfunir hyn â'r ansicrwydd ynghylch cyfnod pontio gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn pwysleisio gwerth rhwydwaith effeithiol i gefnogi ymatebion cenedlaethol a lleol.

4.11 Mae'r canlynol yn faterion allweddol a godwyd yn ystod y gwaith maes mewn ymateb i'r pandemig a'r cyfnodau cloi a ddaeth yn ei sgil.

*Cefnogi adferiad COVID-19*

[9] https://llyw.cymru/cyhoeddi-buddsoddiad-newydd-o-fwy-na-ps100miliwn-yn-economi-wledig-cymru#content

4.12 Mae amrywiol bolisïau newydd wedi eu cychwyn neu eu rhoi ar drac cyflym mewn ymateb i'r pandemig, yn enwedig ynghylch Adferiad Gwyrdd. Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi bod yn effeithiol wrth adrodd yr wybodaeth hon a'i lledaenu trwy eu sianelau cyfathrebu a digwyddiadau rhithwir. Mae enghraifft diweddar yn cynnwys cynnal Gweithdy Rhithwir i gefnogi'r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Fframwaith datblygol Gwlân Cymru,[10] gan ddod â rhanddeiliaid buddiant at ei gilydd ar draws y rhwydwaith.

*Gwerth LEADER ac ymateb cymunedol*

4.13 Yn aml, cafodd y ddarpariaeth o gymorth mewn cymunedau gwledig, yn enwedig yn gynnar yn y pandemig, ei gychwyn a'i drefnu'n lleol, gyda rôl bwysig i weithredu dan arweiniad y gymuned. Mae'n amlygu pwysigrwydd grwpiau LEADER wrth ledaenu gwybodaeth trwy gymunedau gwledig, gan ddefnyddio cysylltiadau a rhwydweithiau lleol a sefydlwyd dros flynyddoedd.

4.14 Fe wnaeth grwpiau LEADER lleol hefyd drefnu a chychwyn gweithredu mewn cymunedau gwledig ledled Cymru, a hynny'n amrywio o waith cynhwysiant digidol i gydgysylltu banciau bwyd. Fe wnaethant hefyd ddarparu cymorth i brosiectau trwy weinyddu cyllid grant a datblygu prosiectau newydd. Mae'r Uned Gefnogi wedi chwarae rhan wrth rannu gwybodaeth am y camau hyn ar eu gwefan (lle mae adran ddynodedig am COVID-19), trwy eu cylchlythyr newyddion a thrwy grynhoi astudiaethau achos LEADER penodol.[11]

4.15 Mae gwerth LEADER wrth gefnogi cydnerthedd lleol mewn cymunedau gwledig wedi cael ei amlygu, fel sy'n wir hefyd am bwysigrwydd rhwydwaith gwledig cefnogol.

*Digwyddiadau o bell*

---

[10] https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/news-events-and-case-studies/event/welsh-wool-industry

[11] https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/Wales%20Rural%20Network%20-%20COVID%20-%2019%20LEADER%20activities%20Review%202020%20-%20English.pdf

4.16 Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi addasu'n effeithiol ar gyfer cyflwyno digwyddiadau o bell. Mae hyn wedi cael ei groesawu'n frwd ac mae'r digwyddiadau wedi derbyn presenoldeb da. Er i rai rhanddeiliaid godi'r ffaith na all gweithio o bell gymryd lle'r gwerth ychwanegol sy'n dod o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, yn enwedig y rhwydweithiau anffurfiol sy'n digwydd, mae'r gallu i ddod â niferoedd mawr at ei gilydd yn gymharol rwydd yn cynnig manteision mawr ac mae'n arferiad a ddylai barhau ar ôl y pandemig.

*Yr angen i gefnogi newydd-ddyfodiaid a syniadau a mentrau newydd*

*4.17* Fel y trafodwyd uchod, mae COVID-19 wedi arwain at fewnlifiad o bobl newydd i gymunedau gwledig, patrwm a oedd eisoes wedi'i sefydlu ond sydd efallai wedi cael ei gyflymu. Mae hyn hefyd yn dod â sgiliau newydd, mentrau a syniadau newydd. O ganlyniad, awgrymai nifer o randdeiliaid y dylai Rhwydwaith Gwledig Cymru ystyried newydd-ddyfodiaid a bod yn agored iddynt mewn datblygu gwledig a modelau newydd o weithredu law yn llaw â syniadau a chynulleidfaoedd traddodiadol. Mae manteision cofleidio cynulleidfaoedd a syniadau newydd yn arbennig o bwysig wrth ystyried ymdrech Llywodraeth Cymru dros Adferiad Gwyrdd, a'i bwyslais ar arloesi a thrawsnewid.

*4.18* Felly, er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu gwerth posibl, dylid gwneud ymdrechion i ymestyn y rhwydwaith, gan estyn allan at newydd-ddyfodiaid ac ystyried eu hanghenion ochr yn ochr â'r grwpiau mwy traddodiadol sy'n ymwneud â datblygu gwledig.

## 5. Asesiad o'r hyn a Gyflawnwyd o gymharu â'r Cylch Gwaith

5.1 Yn yr adran hon, gallwn roi asesiad o'r hyn a gyflawnwyd gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru o gymharu â'r cylch gwaith fel y'i diffiniwyd gan Erthygl 54 o reoliad EAFRD, ac o gymharu â'r model rhesymeg a ddatblygwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn.

5.2 Bydd yr asesiad hwn yn cael ei wneud ar sail yr amcanion canlynol:

- Rhoi gwybod i'r cyhoedd yn ehangach a rhanddeiliaid yn y gymuned wledig am ddatblygiadau mewn datblygu gwledig;
- Cynyddu'r gweithgarwch a'r rhwydweithio rhwng rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn gweithredu'r RDP;
- Cynyddu rhwydweithio a chydweithio trawswladol rhanddeiliaid RDP ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop;
- Meithrin arloesi o fewn datblygu gwledig;
- Gwella ansawdd y modd y gweithredir yr RDP yng Nghymru.

### Llwyddiannau a heriau'r gwaith

*Rhoi gwybod i'r cyhoedd yn ehangach a rhanddeiliaid yn y gymuned wledig am ddatblygiadau mewn datblygu gwledig*

5.3 Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi bod yn llwyddiannus wrth wireddu rhai o'r amcanion ynghylch y gymuned wledig ynghylch datblygiadau mewn datblygu gwledig. Mae gwefan a sianelau cyfryngau cymdeithasol yr Uned Gefnogi yn cyrraedd cynulleidfa gymharol fawr, a nodwyd safon uchel y wefan gan lawer o randdeiliaid. Roedd gweinyddwyr LEADER yn enwedig yn ddibynnol iawn ar y wefan i dderbyn gwybodaeth am ddatblygiadau yn y sector ac ynghylch cyfleoedd posibl i gydweithio.

5.4 Mae'n fwy anodd asesu'r graddau mae'r Uned Gefnogi wedi rhoi gwybod i'r cyhoedd yn gyffredinol am ddatblygu gwledig, er bod hygyrchedd y wefanau a'r gweithgarwch ar y sianelau cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfrwng o aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb i gael gwybodaeth.

5.5 Er bod yr Uned Gefnogi wedi perfformio'n dda o safbwynt cyfathrebu, un maes y gellid ei wella fyddai cyfathrebu uniongyrchol â rhanddeiliaid y tu hwnt i LEADER. Mae cyfle i fod yn fwy rhagweithiol wrth ymwneud yn uniongyrchol ag arweinwyr cynlluniau, arweinwyr prosiectau RDP a rhanddeiliaid ehangach er mwyn cynnal sianelau cliriach o gyfathrebu.

*Cynyddu'r gweithgarwch a'r rhwydweithio rhwng rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn gweithredu'r RDP*

5.6 O ran rhwydweithio a gweithgarwch, roedd rhanddeiliaid a fu mewn digwyddiadau a drefnwyd gan yr Uned Gefnogi yn sôn am y budd a ddaeth ohonynt. Roedd rhai rhanddeiliaid yn canmol digwyddiadau thematig a gynhaliwyd ar gychwyn cyfnod y rhaglen ac roeddent yn siomedig na pharhawyd â hwy.

5.7 Mae rhwydweithio a chyd-drafod wedi bod yn her i'r Uned Gefnogi gyda'r nifer o ddigwyddiadau wedi lleihau hyd at yn gynnar yn 2020, a'r anawsterau a wynebwyd mewn cynnwys sectorau'r RDP y tu hwnt i LEADER. Mae'r mater cyntaf wedi effeithio ar gapasiti'r Uned Gefnogi i gysylltu wahanol sectorau datblygu gwledig â'i gilydd trwy gyfrwng megis gweithdai thematig.

5.8 Cafodd y mater olaf ei wynebu hefyd gan Rwydweithiau Gwledig Cenedlaethol y siaradwyd â hwy, ac roedd yn ganlyniad i'r ffaith fod gan amaethyddiaeth a choedwigaeth sefydliadau cymorth a chyhoeddiadau eisoes ar waith cyn ehangu cylch gwaith yr Uned Gefnogi.

5.9 Mae rhwydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol hefyd wedi cael ei nodi fel gwendid, gyda llawer o randdeiliaid LEADER yn datgan yr angen am hwyluso mwy rhagweithiol rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol er mwyn annog mwy o rannu'r arferion gorau ac annog mwy o bwyslais ar gydweithio thematig.

*Cynyddu rhwydweithio a chydweithio trawswladol rhanddeiliaid RDP ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop*

5.10 Roedd cydweithio a rhwydweithio trawswladol yn cael ei weld o Ewrop fel rhywbeth a fu'n llwyddiannus. Roedd partneriaid Ewropeaidd yn nodi brwdfrydedd a rhagweithgarwch yr Uned Cefnogi o fewn yr ENRD ac yn sôn am Gymru fel esiampl o'r cyfraniad y gallai gwlad fach ei wneud. Roedd Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig hefyd yn canmol yr Uned Gefnogi, gan nodi'r berthynas dda roeddent wedi ei hadeiladu â hi. Un o uchafbwyntiau nodedig rhwydweithio trawswladol yr Uned Gefnogi oedd y digwyddiad yn Glasgow a gynhaliwyd ganddi lle'r oedd cynnyrch Cymreig yn cael ei arddangos.

5.11 Roedd cydweithio trawswladol yn cael ei weld yn llai ffafriol o bersbectif Cymru. Roedd rhai Grwpiau Gweithredu Lleol yn nodi eu bod yn gorfod chwilio am eu prosiectau cydweithio eu hunain gyda phartneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd, heb ddim cymorth gan yr Uned Gefnogi. Roedd un Grŵp Gweithredu Lleol yn nodi mai dim ond ar ôl iddynt ddefnyddio'u holl gyllideb cydweithio trawswladol y daeth yr Uned Gefnogi atynt gyda chyfleoedd cydweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol yn yr Undeb Ewropeaidd. Yr hyn roedd ar Grwpiau Gweithredu Lleol eisiau ei weld oedd mwy o ragweithgarwch wrth gysylltu prosiectau a chyfleoedd Cymru a'r Undeb Ewropeaidd at ei gilydd, gyda'r Uned Gefnogi yn gyfrwng i sicrhau prosiectau cydweithio. Mae, fodd bynnag, radd o ddryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ysgogi prosiectau cydweithio trawswladol, gyda Grwpiau Gweithredu Lleol yn edrych tua'r Uned Gefnogi am arweiniad a'r Uned Gefnogi heb ddim ond rôl gyfyngedig yn hyn o beth.

*Meithrin arloesi o fewn datblygu gwledig*

5.12 Roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at y wefan a'r cyfoeth o astudiaethau achos arni fel un o gryfderau Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Mae rhannu'r arferion gorau yn elfen allweddol o ysgogi arloesi, ac yn yr ystyr hwn, mae gan yr Uned Gefnogi adnoddau da ar gael i'w defnyddio ar gyfer prosiectau gwledig yn y dyfodol.

5.13 Fodd bynnag, mae cyfraniadau uniongyrchol at arloesi yn llai amlwg. Mae darparu astudiaethau achos yn fodd goddefol o feithrin arloesi, ond

ymddengys fod diffyg mesurau gweithredol i symud arloesi yn ei flaen, fel y gwnaed yn dda gan y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol yn Wallonia (gweler astudiaeth achos 1 isod) trwy ddatblygu Grŵp Thematig Arloesi, a datblygu trefn o gyfnewid gwybodaeth.

*Gwella ansawdd y modd y gweithredir yr RDP yng Nghymru*

5.14 Mae'n anodd asesu'r Uned Gefnogi ar ansawdd gwaith yr RDP. Mae'r cymorth a ddarparwyr i LEADER wedi bod yn werthfawr i'w weithrediadau, tra bod amryw o feysydd eraill lle gallai'r cymorth hwn fod wedi bod yn fwy rhagweithio a buddiol. Mae effaith yr Uned Gefnogi y tu hwnt i LEADER yn fwy anodd ei adnabod yn sgil cymharol ychydig o weithgarwch gyda'r RDP ehangach a'r saib mewn digwyddiadau a hwyluswyd yn ystod cyfnod presennol y rhaglen. Dywedwyd bod y digwyddadau a gynhaliwyd yn fuddiol gan y rhai a fu iddynt y siaradwyd â hwy, ac mae awydd cryf yn eu mysg am i ragor o ddigwyddiadau thematig gael eu hwyluso.

**Argymhellion ar gyfer gweddill y cyfnod a gyllidir gan yr RDP**

5.15 *Ailgwmpasu diben y grŵp llywio*: ailgysylltu a'r grŵp llywio i ddefnyddio eu harbenigedd a phrofiad er mwyn asesu'r ffordd orau y gall Rhwydwaith Gwledig Cymru gefnogi'r pontio o'r RDP at gyfleoedd cyllido newydd. Archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio is-grwpiau thematig er mwyn ymdrin ag anghenion brys LEADER a'r rhanddeiliaid datblygu gwledig eraill.

5.16 *Cyfleu'n well rôl Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i randdeiliaid:* ailgysylltu ag arweinwyr cynlluniau RDP a rhanddeiliaid ehangach i atgoffa rhanddeiliaid o'r gwasanaeth y gall yr Uned Gefnogi ei ddarparu. Gall yr ymarferiad hwn hefyd gwmpas anghenion tymor byr gwahanol gynlluniau RDP i adnabod ffyrdd y gall yr Uned Gefnogi gefnogi'r pontio at senarios ar ôl cyllid RDP.

5.17 *Sefydlu gweithdrefnau cliriach ar gyfer syniadau am ddigwyddiadau gan Grwpiau Gweithredu Lleol, a sefydlu eglurder o ran lle mae'r cyfrifoldebau'n gorwedd:* mae'r anawsterau a nodwyd wrth droi syniadau gan Grwpiau Gweithredu Lleol yn ddigwyddiadau, yn dangos proses broblemus ar gyfer gwireddu syniadau am ddigwyddiadau. Rhaid mynd i'r afael â'r tagfeydd neu rwystrau. Mae angen disgwyliad clir o pwy sydd â chyfrifoldeb i wthio ymlaen gyda datblygu'r digwyddiad, gyda phob parti yn sylweddoli eu rolau a phen draw cymorth yr Uned Gefnogi. Mae angen gwell proses ar gyfer troi syniad am ddigwyddiad yn brosiect a all ddod â gweinyddwyr LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol at ei gilydd i weld cynllun yn dwyn ffrwyth gyda chymorth gan yr Uned Gefnogi.

5.18 *Mandad i arweinwyr cynlluniau ddod i gysylltiad*: ceisio perthynas fwy ffurfiol gydag arweinwyr cynlluniau ar draws yr RDP i agor cyfathrebu rheolaidd. Sefydlu'r cynsail o gyflwyniadau ffurfiol a sianel agored gyda rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig arweinwyr polisi a chynlluniau.

5.19 *Adeiladu ar ddigwyddiadau thematig diweddar a gynhaliwyd ar-lein:* Dilyn dull gweithredu mwy thematig wrth drefnu digwyddiadau a manteisio ar y symudiad at weithio ar-lein i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd.

5.20 *Dylai Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ystyried annog Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru i ddilyn arfer dda a osodwyd gan Grŵp Gweithredu Lleol y de-orllewin:* Mae cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Lleol De-orllewin Cymru yn fodel o arfer dda y dylid ei hystyried gan weinyddwyr LEADER ledled Cymru. Mae cynnwys cadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol yn cynnig cyfrwng i ymwneud yn well â Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhwydweithio ac mae'n cynnig fforwm i weinyddwyr ac aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol i rannu syniadau a'r arferion gorau, ac ymdrin â phroblemau.

5.21 *Archwilio’r posibilrwydd o weithdai i Grwpiau Gweithredu Lleol ar fywyd ar ôl RDP:* adnabod, efallai wrth ymgynghori â gweinyddwyr Rhaglenni LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol, themâu a phynciau y gellir rhoi sylw iddynt mewn gweithdai a fyddai’n ailegnïo Grwpiau Gweithredu Lleol a dechrau’r broses o gynllunio ar gyfer dyfodol y tu hwnt i gyllid RDP. Roedd llawer o randdeiliaid LEADER yn nodi diddordeb aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol yn pylu yn sgil yr RDP yn dod i ben. Mae angen gweithgarwch i gynnal momentwm tuag at senarios cyllido yn y dyfodol. Gall gweithgareddau gynnwys hyfforddiant ar chwilio am ffynonellau eraill o gyllid y tu hwnt i’r RDP megis cronfeydd Loteri a chyllido torfol ac archwilio trwy weithdai gyda Grwpiau Gweithredu Lleol y rôl y gallant barhau i’w chwarae mewn Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned yn eu cymunedau. Mae Rhwydwaith Gwledig yr Alban wedi cynnal gweithdai ar gyllid gwahanol i Grwpiau Gweithredu Lleol, ac argymhellir efelychu’r dull hwn.

# Rhan II – Rhwydwaith Gwledig Cymru a’r dyfodol

## Cyflwyniad

Yr adroddiad hwn ar Rwydwaith Gwledig Cymru a’r dyfodol yw ail ran yr allbwn a gynhyrchwyd wrth werthuso Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru, gwaith a gyflawnwyd rhwng misoedd Medi 2020 a Chwefror 2021. Mae’r adroddiad yn rhoi adolygiad ar sail gwybodaeth sydd ar gael am senarios tebygol yn y dyfodol ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru, ac asesiad o’r dewisiadau ar gyfer swyddogaeth rhwydwaith gwledig ar ôl yr RDP. Mae’r ail ran hwn o allbwn y gwerthusiad hefyd yn cynnwys astudiaethau achos o dri Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol arall sy’n rhoi enghreifftiau o’r arferion gorau perthnasol i gyd-destun datblygu gwledig yng Nghymru. Mae’r adroddiad hwn yn cloi gyda chyfres o argymhellion a all arwain datblygiad rhwydwaith gwledig ar ôl yr RDP.

## Canfyddiadau Allweddol o Rhan I[12]

i. Mae angen clir am swyddogaeth rhwydwaith gwledig mewn datblygu gwledig. Roedd y mwyafrif o randdeiliaid yn cytuno â’r haeriad hwn, gan nodi’r buddion a ddaw gyda swyddogaeth rhwydwaith wrth annog cydweithredu rhwng rhanddeiliaid, lledaenu gwybodaeth i’r gymuned ddatblygu gwledig, a helpu gweithredu LEADER.

ii. Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi wynebu heriau i’w gweithrediadau yn sgil cyfyngiadau ar adnoddau. O’r chwe aelod o dîm yr Uned Gefnogi, dim ond dau sy’n cael eu cyflogi’n llawn-amser, gyda’r pedwar aelod arall o staff yn gweithio’n rhan-amser. Yn ogystal, yn y deuddeng mis diwethaf, mae’r Uned wedi wynebu problemau gyda staffio. Mae rhai aelodau o’r tîm wedi cael eu ail-aseinio o bryd i’w gilydd i gyflawni gwaith i ddibenion y tu hwnt i’w cylch gwaith gwreiddiol neu waith nad yw’n ymwneud â’r Uned Gefnogi. Mae hyn wedi arwain at dîm yr Uned Gefnogi yn cael ei ledaenu’n deneuach dros dasgau’r Uned.

[12] Cymerwyd o’r Crynodeb o Rhan I

iii. Roedd staff Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cael eu gweld fel rhai cymwys, gwybodus a chanddynt brofiad da mewn datblygu gwledig, gan gynnwys cysylltiadau helaeth â rhanddeiliaid yn cynrychioli sectorau gwledig traddodiadol. Roedd rhanddeiliaid Ewropeaidd yn nodi bod yr Uned Gefnogi yn effeithiol fel uned gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol, yn enwedig wrth gynrychioli a hyrwyddo datblygu gwledig Cymru mewn digwyddiadau rhyngwladol.

iv. Roedd diffyg ymwybyddiaeth o gylch gwaith a gweithgareddau'r Uned Gefnogi ymysg rhanddeiliaid datblygu gwledig y tu allan i raglen LEADER. Priodolwyd hyn i'r Uned Gefnogi'n gorfod gwasanaethu, yn y rhaglen hon, feysydd o'r RDP nad oedd wedi eu cynnwys yn ei chylch gwaith o'r blaen, a diffyg gofyniad digon ffurfiol i randdeiliaid, gan gynnwys arweinyddion polisi a chynlluniau Llywodraeth Cymru, i ymwneud â'r Uned Gefnogi.

v. Er bod aelodau Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cydnabod ei werth posibl ar gyfer gweithredu'r Rhwydwaith, roedd y grŵp llywio'n cael ei weld gan randdeiliaid y siaradwyd â hwy, fel corff ar gyfer cymeradwyo digwestiwn, heb yr awdurdod i 'lywio' Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ei gweithrediadau. Roedd beirniadaeth fod y Grŵp Llywio wedi cael ei sefydlu'n rhy hwyr i ddylanwadu ar waith y Rhwydwaith, ac mai'r 'un wynebau arferol' a oedd arno. Roedd cyfarfodydd y Grŵp Llywio wedi dod yn llai aml hefyd dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil anawsterau gydag adnoddau, gydag aelodau'n gadael y Grŵp Llywio.

vi. Roedd pryder ymysg rhanddeiliaid nad oedd Rhwydwaith Gwledig Cymru'n cyflawni ei gylch gwaith llawn, gyda diffyg ymwneud rhagweithiol yn cael ei nodi fel thema gyffredin. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod hyn yn ymddangos fel pe bai yn sgil anawsterau gyda newidiadau sylweddol mewn staffio, yn enwedig ar draws Llywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn rhwystr i weithredu'r Rhwydwaith. Credai rhanddeiliaid fod gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr Uned Gefnogi'n cael eu llesteirio gan newidiadau cyson mewn staff. Roedd rhai o'r rheini a gyfwelwyd yn mynegi bod diffyg adnoddau addas i'r Uned Gefnogi wedi effeithio ar gapasiti'r Uned Gefnogi i gyflawni ei llawn botensial.

vii. Roedd rhanddeiliad ag agwedd gadarnhaol at swyddogaeth gyfathrebu’r Uned Gefnogi, a dyma’r enghraifft amlycaf a gorau ohoni’n cyflawni ei chylch gwaith. Roedd canmoliaeth uchel i’r wefan yn enwedig, gyda llawer o randdeiliaid yn cydnabod y gwaith a oedd wedi mynd i sefydlu’r wefan i fod yn annibynnol o Lywodraeth Cymru a chael bod yn fwy rhydd i gyhoeddi cynnwys.

viii. Er bod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi hwyluso digwyddiadau rhwydweithio yn ystod cyfnod y rhaglen bresennol, roedd rhanddeiliaid yn siomedig gyda’r lleihad yn y nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd rhwng 2017 a dechrau 2020. Er gwaethaf cau’r RCDF a’r symud at ENRAW, dywedodd mwyafrif y rhanddeiliaid (gan gynnwys buddiolwyr RDP a Grwpiau Gweithredu Lleol) y gallai’r Uned Gefnogi fod wedi chwarae rôl fwy mewn hwyluso cydweithio o fewn Cymru, gyda digwyddiadau rhwydweithio mwy rheolaidd ac wedi eu cyfleu’n well na’r hyn a gyflawnwyd.

ix. Roedd cydnabyddiaeth fodd bynnag o’r datblygiadau cadarnhaol a wnaed yn 2020 yn ffurf digwyddiadau rhithwir a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan yr Uned Gefnogi, gan fanteisio ar y symudiad at gyfarfodydd ar-lein er mwyn cynnal digwyddiadau a gweithdai rhwydweithio. Mae’r Uned Gefnogi wedi cynnal cyfres o bedwar digwyddiad a gweithdy thematig ar-lein ers mis Medi 2020. Mae rhwyddineb y modd eu daethpwyd â rhanddeiliaid at ei gilydd i archwilio materion thematig fel hyn yn argoeli’n dda am amserlen fwy ffrwythlon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

x. Dywedodd rhanddeiliaid fod digwyddiadau wyneb yn wyneb rhwng tair a phum mlynedd yn ôl wedi bod yn fuddiol i randdeiliaid, fel cyfarfodydd cadwyni cyflenwi i ffermwyr, grwpiau trafod gwlân a thecstilau, a sioeau teithiol. Roedd y digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle i fuddiolwyr cyllid RDP rannu profiadau a’r arferion gorau. Mae data sy’n dal angen ei gasglu ynghylch budd digwyddiadau rhithiol a gynhaliwyd yn ddiweddar, fel y digwyddiad gwlân a thecstilau ar-lein ym mis Hydref 2020.

xi. Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol ar y cyfan yn feirniadol o ddiffyg hwyluso rhagweithiol rhwydweithio a chydweithio ar lefel Cymru gyfan. Roedd Grwpiau Gweithredu Lleol yn rhwydweithio’n rhanbarthol yn bennaf o fewn

Cymru, gyda grwpiau'n cyfathrebu o fewn y de-ddwyrain, y de-orllewin a'r gogledd. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn dweud bod y rhyngweithio hwn yn deillio'n bennaf o gysylltiadau a oedd yn bod eisoes, heb fawr o hwyluso gan yr Uned Gefnogi. Roedd Grwpiau Gweithedu Lleol yn sôn am y potensial i'r Uned Gefnogi fod wedi gwneud mwy i gynorthwyo cyfleoedd i gydweithio a datblygu'r cysylltiadau a oedd yn bod eisoes. Er gwaethaf awgrymiadau'n cael eu gwneud i'r Uned Gefnogi i hyn ddigwydd, ymddengys nad yw hyd wedi digwydd eto.

**Argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod yr RDP**

xii. *Ailgwmpasu diben y grŵp llywio*: ailgysylltu a'r grŵp llywio i ddefnyddio eu harbenigedd a phrofiad er mwyn asesu'r ffordd orau y gall Rhwydwaith Gwledig Cymru gefnogi'r pontio o'r RDP at gyfleoedd cyllido newydd.

xiii. *Cyfleu'n well rôl Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i randdeiliaid:* ailgysylltu ag arweinwyr cynlluniau RDP a rhanddeiliaid ehangach i atgoffa rhanddeiliaid o'r gwasanaeth y gall yr Uned Gefnogi ei ddarparu. Gall yr ymarferiad hwn hefyd gwmpasu anghenion tymor byr gwahanol gynlluniau RDP i adnabod ffyrdd y gall yr Uned Gefnogi gefnogi'r pontio at senarios ar ôl cyllid RDP.

xiv. *Sefydlu gweithdrefnau cliriach ar gyfer syniadau am ddigwyddiadau gan Grwpiau Gweithredu Lleol, a sefydlu eglurder o ran lle mae'r cyfrifoldebau'n gorwedd:* mae'r anawsterau a nodwyd wrth droi syniadau ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol yn ddigwyddiadau yn dangos proses broblemus ar gyfer gwireddu syniadau am ddigwyddiadau. Rhaid mynd i'r afael â'r tagfeydd neu rwystrau. Mae angen disgwyliad clir o pwy sydd â chyfrifoldeb i wthio ymlaen gyda datblygu'r digwyddiad, a gwell proses ar gyfer troi syniad am ddigwyddiad yn brosiect.

xv. *Mandad i arweinwyr cynlluniau ddod i gysylltiad*: ceisio perthynas fwy ffurfiol gydag arweinwyr cynlluniau ar draws yr RDP i agor cyfathrebu rheolaidd. Sefydlu'r cynsail o gyflwyniadau ffurfiol a sianel agored gyda rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig arweinwyr polisi a chynlluniau.

xvi. *Adeiladu ar ddigwyddiadau thematig diweddar a gynhaliwyd ar-lein:* Dilyn dull gweithredu mwy thematig wrth drefnu digwyddiadau a manteisio ar y symudiad at weithio ar-lein i ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd.

xvii. *Dylai Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru ystyried annog Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru i ddilyn arfer dda a osodwyd gan Grŵp Gweithredu Lleol y de-orllewin:* Mae cyfarfodydd Grŵp Gweithredu Lleol De-orllewin Cymru yn fodel o arfer dda y dylid ei hystyried gan weinyddwyr LEADER ledled Cymru. Mae cynnwys cadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol yn cynnig cyfrwng i ymwneud yn well â Grwpiau Gweithredu Lleol mewn rhwydweithio ac mae'n cynnig fforwm i weinyddwyr ac aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol i rannu syniadau a'r arferion gorau, ac ymdrin â materion sy'n codi.

xviii. *Chwilio am gyfleoedd i staff mwy profiadol mewn Datlbygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned fentora neu hyfforddi staff mwy newydd:* Hyd at ddiwedd cyfnod presennol yr RDP, gallai'r Uned Gefnogi weithio gyda gweinyddwyr LEADER i sicrhau bod sianelau'n cael eu rhoi ar waith i staff mwy profiadol fentora a hyfforddi cydweithwyr llai profiadol. Gellid hwyluso hyfforddi hefyd trwy weithdai a digwyddiadau ar-lein er mwyn annog staff mwy newyddd i gyfarfod a dysgu oddi wrth gydweithwyr o bob rhan o Gymru.

xix. *Archwilio'r posibilrwydd o weithdai i Grwpiau Gweithredu Lleol ar fywyd ar ôl RDP:* adnabod, efallai wrth ymgynghori â gweinyddwyr Rhaglenni LEADER a Grwpiau Gweithredu Lleol, themâu a phynciau y gellir rhoi sylw iddynt mewn gweithdai a fyddai'n ailegnïo Grwpiau Gweithredu Lleol a dechrau'r broses o gynllunio ar gyfer dyfodol y tu hwnt i gyllid RDP. Roedd llawer o randdeiliaid LEADER yn nodi diddordeb aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol yn pylu wrth i'r RDP ddod i ben. Mae angen gweithgarwch i gynnal momentwm tuag at senarios cyllido yn y dyfodol. Mae Rhwydwaith Gwledig yr Alban wedi cynnal gweithdai ar gyllid gwahanol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol, ac argymhellir yr efelychir y dull hwn.

**Stwythur Rhan II yr adroddad**

xx. Ystyriodd yr adroddiad hwn sut i weithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru a'r Uned Gefnogi yn y dyfodol. Mae'n ymdrin â hyn fel a ganlyn:

- Adran 8 – adolygiad o senarios cyllido ôl-RDP seiliedig ar yr wybodaeth bresennol, gyda'r bwriad o asesu cyd-destun unrhyw rwydwaith gwledig yn y dyfodol.
- Adran 9 – asesiad o ddewisiadau ar gyfer Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru neu rwydwaith ac uned gefnogi cyfatebol, seiliedig ar ddata a gasglwyd gan randdeiliaid a'r asesiad o senarios cyllido yn y dyfodol.
- Adran 10 – tair astudiaeth achos o arferion gorau Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol, sy'n rhoi sylw i Wallonia, y Ffindir ac Iwerddon.
- Adran 11 – cyfres o argymhellion ar gyfer symud ymlaen, a chyflawni swyddogaeth rhwydwaith ôl-RDP.

# 6. Y Ffordd Ymlaen a Senarios Ôl-RDP

**Cyflwyniad**

6.1 Gellir rhannu'r cyd-destun mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn gweithio o'i fewn ar hyn o bryd yn dri phrif fframwaith: polisi, cyfreithiol a chyllid. Mae'r tri fframwaith wedi eu cydblethu'n dynn â'i gilydd ac yn gweithredu ar y cyd. Mae gan bob fframwaith ddimensiwn Undeb Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymreig (gweler tabl 8.3 isod).

6.2 Mae fframwaith **polisi** cyd-destun Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cynnwys y prif ysgogwyr sy'n arwain gweithgareddau a'r amcanion i'w cyflawni. Mae'r fframwaith **cyfreithiol** yn sefydlu'r offerynnau a'r terfynau cyfreithiol y mae'r gweithgareddau polisi yn gweithio o'u mewn. Mae'r fframwaith **cyllid** yn darparu'r adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r gweithgareddau.

6.3 Trwy amlinellu'r cyd-destun presennol ac ystyried sut y gallai esblygu mewn cyd-destun ôl-Brexit, mae'n bosibl ceisio darlunio rhai senarios ac adnabod beth allai rôl yr Uned Gefnogi fod yn y dyfodol.

*Y cyd-destun presennol*

6.4 Mae cyflawni datblygu gwledig yng Nghymru yn seiliedig i raddau helaeth ar elfennau o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r prif ysgogwyr polisi, yr offerynnau cyfreithiol a'r ffrydiau cyllid wedi cael eu penderfynu ar lefel yr Undeb Ewropeaidd am y cyfnod 2014-2020, ac maent yn cael eu gweithredu a'u cyflawni ar lefel Gymreig wedyn. Gan fod amaethyddiaeth, a'r RPD o'i fewn, yn gymhwysedd datganoledig, nid oes gan y dimensiwn Prydeinig berthnasedd cryf. O safbwynt llywodraethu fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r rhwydweithio anffurfiol sydd wedi digwydd yn y cyfnod presennol ymysg pedwar rhwydwaith gwledig y Deyrnas Unedig: Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sydd wedi helpu rhannu gwybodaeth yn absenoldeb rhwydwaith ffurfiol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

6.5 Prif bolisïau'r Undeb Ewropeaidd yw'r **Polisi Amaeth Cyffredin (Colofn 2)** a **Chydlyniant.** Mae'r **Polisi Amaeth Cyffredin** yn ysgogi amcanion polisi'r

RDP, yn cefnogi rhwydweithio a’r dull LEADER. Mae polisi **Cydlyniant** yn cefnogi datblygu economaidd a chymdeithasol ac mae ganddo ddarpariaeth ar gyfer dull Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Mae’r mwyafrif o elfennau polisi’r Deyrnas Unedig a Chymru yn gyson â pholisïau’r Undeb Ewropeaidd.

6.6 Rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd ar Ddatblygu Gwledig yw’r prif offerynnau **cyfreithiol** sy’n arwain gweithredu’r RDP, ynghyd â darparu’r **rhwydwaith gwledig cenedlaethol**, ac, i ryw raddau, y rheoliadau sy’n ymwneud â pholisi Cydlyniant. Mae Llywodraeth Cymru’n darparu offerynnau cyfreithiol ychwanegol fel canllawiau ar y gofynion defnyddio, gweithredu ac adrodd.

6.7 Yn olaf, caiff y dimensiwn **cyllid** ei ddiffinio gan gyllid EAFRD a’r cyllid cyfatebol a ddarperir yn uniongyrchol gan Lywdodraeth Cymru. Maent yn gweithredu’n unol â’r offerynnau cyfreithiol uchod. Nid yw cynlluniau RDP yn cael eu cyllid 100% fodd bynnag, ac mae’n rhaid i fuddiolwyr gyfannu gyda’u hadnoddau eu hunain. Caiff yr Uned Gefnogi ei chyllido o gyllideb Cymorth Technegol y gronfa.

*Cyd-destun y dyfodol*

6.8 Gan nad yw’r Deyrnas Unedig yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd ers mis Chwefror 2020, **bydd cyd-destun y dyfodol** yn cael ei benderfynu’n bennaf gan ddimensiynau’r Deyrnas Unedig a Chymru o’r fframweithiau. Er hynny, gall rhai elfennau o bolisïau a rhaglenni’r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol chwarae rhan yn y senarios y bydd rhanddeiliaid gwledig Cymru yn gweithredu ynddynt. Felly, i ddiben drafftio senarios yn y adroddiad hwn, dim ond elfennau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd a ystyrir yma.

6.9 Mae cyd-destun ôl-Brexit datblygu gwledig yng Nghymru yn dal yn aneglur iawn. Er bod rhai bwriadau polisi cadarnhaol a chlir yn sail iddo, mae diffyg adnoddau cyllid i gefnogi’r uchelgeisiau hyn a dim offerynnau cyfreithiol i’w rhoi ar waith.

6.10 Ers refferendwm 2016, mae **Llywodraeth Cymru** wedi amlinellu ei safbwynt **polisi** sy’n gyffredinol **o blaid datblygu gwledig.** Yn benodol, mae’n cadarnhau ei bod yn *“hanfodol fod buddiannau gwledig yn cael eu diogelu ac*

*yn cael sylw blaenllaw wrth i Gymru weithio tuag at ddyfodol y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd"* a *"bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda ffermwyr, y cymunedau gwledig a'r diwydiant pysgota i fapio dyfodol deinamig".*[13]

6.11 Ynghylch yr RDP presennol, dywedodd "Bydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yn parhau i weithredu o dan reoliaeth yr Undeb Ewropeaidd hyd ddiwedd y Rhaglen, a allai fod hyd 2023".[14] Mae'r rhain ymysg amryw o ddatganiadau mewn amrywiol ddogfennau polisi sy'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cael polisi datblygu gwledig, er bod hyn â chysylltiad agos â pholisïau amaethyddol, i'w ddatblygu ar ôl Brexit a'r cyfnod pontio a ddaeth i ben yn 2020.

6.12 Elfen bolisi bwysig arall yw'r bwriad i barhau i **gydweithio** ar lefel genedlaethol a rhyngwladol fel y nodir mewn nifer o ddogfennau polisi. Er enghraifft, yn "Diogelu Dyfodol Cymru":

*"Mae gan Gymru berthynas gydweithio neilltuol o agos gyda Gweriniaeth Iwerddon […] a phan fydd y DU yn ymadael â'r UE […] bydd cydweithredu o'r fath hyd yn oed yn bwysicach, ac rydym wedi ymrwymo'n arbennig i gryfhau'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon."*

*"Dymunwn, hefyd, barhau i ymwneud â'r rhwydweithiau Ewropeaidd a'r cysylltiadau dwyochrog presennol a byddwn yn parhau'n agored i ffurfio cysylltiadau newydd a dyfnach wrth geisio hyrwyddo buddiannau Cymru".*[15]

6.13 Mae hefyd fframwaith sy'n datblygu, nad yw eto'n bolisi, ar gefnogi cydweithio trawsffiniol a rhyngwladol.[16]

6.14 Mae'r ymrwymiad cryf hwn yn rhoi'r cyfle i archwilio rolau **mewn cydweithio rhyngwladol** yn y dyfodol, a gall y cysylltiadau a ddatblygwyd eisoes trwy'r RDP ddarparu'r sail ar gyfer cysylltiad â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol, gan gychwyn gyda Gweriniaeth Iwerddon.

---

[13] Diogelu Dyfodol Cymru – Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 2017.
[14] Brexit a'n tir: Sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru, ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, 2018.
[15] Diogelu Dyfodol Cymru – Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 2017.
[16] Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru: cynnig ar gyfer cefnogi gweithio trawsffiniol a rhyngwladol, 2020

6.15 Mae **fframwaith cyfreithiol** cyd-destun y dyfodol a fydd yn effeithio ar ddatblygu gwledig yn dal wrthi'n cael ei ddatblygu.

6.16 Yn y Deyrnas Unedig, daeth **Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** â rhai o gyfreithiau'r Undeb Ewropaidd o fewn campas amgylchedd cyfreithiol y Deyrnas Unedig i osgoi gwacter cyfreithiol tra y bydd y Deyrnas Unedig yn eu disodli.[17] Ymysg effeithiau eraill y Ddeddf, mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i **barhau i weithredu'r RDP** hyd 2023.

6.17 Ail offeryn pwysig yw **bil marchnad sengl y Deyrnas Unedig**, sy'n cyrraedd camau terfynol ei gymeradwyo. Mae'r bil yn gwneud darpariaethau ar sut y bydd rhai o'r pwerau a'r cymwyseddau a ailwladolir o'r Undeb Ewropeaidd yn cael eu gweithredu yn y Deyrnas Unedig. Ymysg pethau eraill, mae'r bil yn galluogi llywodraeth y Deyrnas Unedig i wario ledled y Deyrnas Uneig gan gynnwys ar fentrau datblygu economaidd, a thrwy hynny ddarparu'r sail gyfreithiol dros y Gronfa Ffyniant Gyffredin.[18] Fodd bynnag, gan fod y cymhwysedd hwn wedi ei ddatganoli hyd at Brexit mae'n bwysig adolygu sut y bydd y bil hwn yn cael ei basio yn ei ffurf derfynol a sut y bydd yn effeithio ar bolisi a chyllid datblygu gwledig yng Nghymru.

6.18 Trydydd offeryn cyfreithiol a fydd yn cael rhywfaint o ddylanwad ar ddatblygu gwledig yw'r **Ddeddf Amaethyddiaeth**, a gymeradwywyd 11[eg] Tachwedd 2020. Mae'r rhan fwyaf o'r bil yn effeithio'n uniongyrchol ar Loegr yn unig, ond bydd yn cael effaith uniongyrchol ar ffermwyr Cymru gan ei fod yn diwygio'r rheolau taliadau uniongyrchol ledled y Deyrnas Unedig. Bydd hefyd yn cael effaith anuniongyrchol gan y bydd y ffordd y cyflawnir ffermio a datblygu gwledig mewn gwahanol wledydd ledled y Deyrnas Unedig yn dylanwadu ar ei gilydd. Ar hyn o bryd, nid oes offerynnau cyfreithiol terfynol ar gyfer datblygu amaethyddol a gwledig yng Nghymru, ar ôl Brexit.

6.19 Nid yw'r **cyd-destun cyllid** ôl-Brexit wedi cael ei ddatblygu na'i sefydlu pan ysgrifennir yr adroddiad hwn. Am y tair blynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod yn ceisio datblygu *Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU* (UK SPF) fel cynllun cyllido i gymryd lle cronfeydd strwythurol a

[17] Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018, Y Sefydliad Llywodraeth, 2018
[18] Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, y Sefydliad Llywodraeth, 2020

buddsoddi’r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys y rhaglen gyllid datblygu gwledig. Fodd bynnag, nid oes dim manylion o’r Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig wedi cael eu cyhoeddi.

6.20 Mae’r adroddiad ym mis Medi 2020 o Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ’r Cyffredin ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn nodi’r canlynol:

> *‘Er gwaethaf cyhoeddi’r Gronfa Ffyniant Gyffredin fwy na their blynedd yn ôl, ymddengys nad yw’r Llywodraeth wedi gwneud fawr ddim cynnydd mewn datblygu’r hyn fydd ganddi i gymryd lle cyllid Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae ei haddewidion parhaus o ymgynghori a chyhoeddiadau wedi methu â chael eu gwireddu, gan ddangos diffyg blaenoriaeth.’*[19]

6.21 Ailadroddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Medi 2020 fod yr holl ymrwymiadau a wnaeth ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn dal i sefyll, gydag ymrwymiadau blaenorol gan gynnwys ymrwymiad llywodraeth Prydain y byddai cyllid yng Nghymru yn cyfateb o leiaf â’r hyn a ddarperir gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.[20]

6.22 Hyd yma, mae’n aneglur pa ffurf fydd hyn yn ei gymryd a phryd y bydd ar gael, sy’n creu anhawster mawr gan na ellir cynnal yr uchelgeisiau polisi a’r offerynnau cyfreithiol heb gyllid priodol.

*6.23* Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu fframwaith ar sut y gellid defnyddio ffrydiau cyllid posibl yn y dyfodol yng Nghymru i gefnogi datblygiad economaidd a chymunedol:

> *Mae ein Fframwaith yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth buddoddi: cynhyrchiant a chystadleurwydd busnes, cymunedau iachach, tecach a mwy cynaliadwy, yr economi ddi-garbon, a lleihau anghydraddoldeb economaidd i bobl.*[21]

6.24 Mae’r fframwaith yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion sy’n cwmpasu amrywiaeth helaeth o agweddau. Er nad yw’n canolbwyntio’n benodol ar

---

[19] Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ’r Cyffredin, Cymru a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin: Blaenoriaethau ar gyfer yr hyn fydd yn cymryd lle cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, 29 Medi 2020, tt. 11
20 Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ’r Cyffredin, Cymru a’r Gronfa Ffyniant Gyffredin: Blaenoriaethau ar gyfer yr hyn fydd yn cymryd lle cyllid strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, 29 Medi 2020, tt. 10
[21] Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, 2020

ddatblygu gwledig mae'n ymwneud â llawer o agweddau sy'n berthnasol i ddatblygu gwledig.

6.25 O ran dimensiwn yr Undeb Ewropeaidd, mae'r tri fframwaith – polisi, cyfreithiol a chyllid – yn cyrraedd cam terfynol eu datblygu a dylent fod ar waith yn gynnar yn 2021. Mae rhai newidiadau pwysig a gynigir sy'n golygu symud oddi wrth y sefyllfa bresennol. Mae'r rheini a allai fod yn berthnasol i'r senarios yn y dyfodol yn ymwneud yn bennaf â'r fframweithiau polisi a chyfreithiol.

6.26 Yn gyntaf, nid yw'r hyn fydd yn cyfateb i'r EAFRD yn y dyfodol yn rhan o gronfeydd strwythurol mwyach, sy'n awgrymu gwahanu polisïau seiliedig ar leoedd ar gyfer datblygu economaidd oddi wrth ardaloedd gwledig.

6.27 Ar yr un pryd daeth rheolau LEADER yn rhan o bolisi Cynhwysiant ond yn cael eu cyllido o dan linellau'r gyllideb amaethyddol.[22] Bydd y polisi amaeth cyffredin yn cael ei adeiladu o gwmpas naw blaenoriaeth gyda phwyslais cryf ar yr amgylchedd a chystadleurwydd. Mae rhai o'r blaenoriaethau'n gydnaws â gweithgareddau presennol Rhwydwaith Gwledig Cymru, megis P8 ar gymunedau gwledig neu P6 ar ofal amgylcheddol. Y cynnig yw i rwydweithiau gwledig yn y dyfodol fod yn fwy cynhwysol gan ddod â chynrychiolaeth ehangach o'r sectorau ffermio ac amaethyddol. Mae'n debygol y bydd yn parhau i gael elfen gref o rwydweithio hefyd ar lefel ryngwladol, ond **nid yw'r cysylltiadau â thrydydd gwledydd wedi eu diffinio eto**.

6.28 Yn olaf, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi sefydlu menter i ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer dyfodol ardaloedd gwledig erbyn 2040.[23] Er na fydd yr elfennau hyn yn cael effaith uniongyrchol yng Nghymru, gallant benderfynu rhai o'r gweithgareddau y gellid eu cyflawni i gydgysylltu â phartneriaid rhyngwladol.

### Senarios

[22] Tuag at bolisi amaeth cyffredin ôl-2020, ffeithlen Senedd Ewrop, Tachwedd 2020
[23] https://ec.europa.eu/info/law/better-regulation/have-your-say/initiatives/12525-Long-term-vision-for-rural-areas

*Beth yw’r senarios, cyfleoedd, rhwystrau ac ystyriaethau ôl-Brexit yn y dyfodol, a’u goblygiadau i weithrediadau’r RDP ac Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ogystal â’r tirwedd polisi ehangach?*

6.29 Er nad yw fframweithiau cyd-destun y dyfodol wedi cael eu datblygu’n llawn eto, mae’n bosibl, ar sail y cynigion presennol ar lefel y Deyrnas Unedig, cael syniadau bras ar sut y gallai’r senarios ddatblygu ac efallai adnabod cyfeiriad yn y tymor canolig (3-5 mlynedd) a’r tymor hir (5-10 mlynedd).

6.30 Mae’r tair senario yn seiliedig ar leihad mewn gradd o ddwysedd yr ymrwymiadau polisi a chyllid gan Lywodraethau’r Deyrnas Unedig a Chymru i ddatblygu gwledig yn gyffredinol a’r cyfleoedd i barhau gydag unrhyw rwydwaith gwledig neu fathau eraill o weithgarwch. Yn *Tabl 8.1 – Crynodeb o senarios* ceir brasllun o brif elfennau pob fframwaith. Isod gwelir crynodeb o brif agweddau pob senario, ac amlinelliad o ystyriaethau ar gyfleoedd a rhwystrau.

6.31 **Senario 1** – Nodweddir y senario hon gan gefnogaeth gref o ran polisi a chyllid i ddatblygu gwledig sy’n galluogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i barhau i fod, er y byddai hynny gydag addasiadau posibl mewn cwmpas i adlewyrchu cyd-destun newydd sy’n bennaf seiliedig ar elfennau domestig. Byddai cynlluniau cyllid newydd megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig a buddsoddiadau rhanbarthol yng Nghymru yn rhoi’r cyfle i sefydlu rhaglenni cyllid o dan arweiniad Cymreig er mwyn gweithredu gweithgareddau sy’n unswydd ar gyfer ardaloedd gwledig. Yn wyneb y sefyllfa bresennol, mae’n senario annhebygol o gael ei gwireddu yn y tymor byr. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn gyfeiriad hirdymor polisïau seiliedig ar leoedd sydd â phwyslais cryf ar ardaloedd gwledig. Gall pwyslais deddf amaethyddiaeth y Deyrnas Unedig ar yr amgylchedd a nwyddau cyhoeddus weithredu fel elfen ganolog yn y senario hon oherwydd ei effaith ar y sector amaethyddol ac ardaloedd gwledig.

6.32 O dan y senario hon – ac efallai o dan senario 2 – gallai fod y cyfle i atgyfnerthu rhwydwaith ledled y Deyrnas Unedig o ddatbygu gwledig (neu greu un newydd sbon), i alluogi rhannu gwybodaeth, arferion ac efallai wella cydweithredu o fewn y Deyrnas Unedig. O dan y senario hon mae hefyd y

cyfle am weithgarwch bwriadol ac ystyrlon ar lefel ryngwladol, gan arwain at brosiectau cydweithio, seiliedig ar y datganiadau polisi a'r ymrwymiad i ddatblygu, yn amodol ar ddatblygu polisi ar lefel yr Undeb Ewropeaidd.

6.33 **Scenario 2** – Yn y senario hon mae ymrwymiad gwanach i ddatblygu gwledig, lle mae gan bolisïau seiliedig ar leoedd gwmpas ehangach, sef nad ydynt yn canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd gwledig. Gallai'r ffrydiau cyllid hefyd gefnogi amrywiaeth helaeth o weithgareddau. Yn wyneb sefyllfa bresennol yr elfennau sydd ar gael dyma'r senario mwyaf tebygol. Byddai'r cyd-destun yn debygol o olygu proses gystadleuol o gael at adnoddau cyllid gyda'r risg o randdeiliaid gwledig yn cael eu gadael ar ôl, o ran prinder yr hyn sydd ar gael neu fethiant i fanteisio, yn enwedig os yw'r dyraniadau cyllid yn troi o gwmpas canlyniadau yn hytrach na'u bod yn seiliedig ar anghenion.

6.34 Yn y senario hon gallai rhwydwaith gwledig ddal i fod er nad yn ei ffurf bresennol o angenrheidrwydd. Gall fod ganddo ran bwysig i'w chwarae yn gyntaf i sicrhau gwelededd a hyrwyddo diddordeb rhanddeiliaid gwledig mewn tirwedd cyllido ehangach. Gall efallai hyd yn oed gynnig rôl gryfach o gynrychioli eu barn mewn fforwm ehangach o ddatblygu economaidd a polisïau seiliedig ar leoedd nad ydynt yn canolbwyntio ar ardaloedd gwledig yn unig. Yn y senario hon byddai cyfle o hyd i ddatblygu cyfleoedd rhwydweithio ledled y Deyrnas Unedig ac ar lefel ryngwladol, ond byddent yn debygol o ddigwydd mewn modd llai ffurfiol a byddai angen iddynt gael eu datblygu'n ofalus. Yn y senario hon mae'n debygol y byddai dull o'r gwaelod i fyny o ddatblygu gwledig yn fwy anodd yn sgil y diffyg canolbwynio polisi ac ymrwymiad cyllid. Felly, gallai fod rôl gryfach i'w chwarae i rwydwaith a'r Uned Gefnogi er mwyn cynnal y cydweithio a'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma.

6.35 **Senario 3** – Yn y senario hwn y lefel isafswm sydd o bwyslais polisi ar ardaloedd gwledig a datblygu gwledig, ynghyd â diffyg cyllid unswydd a chefnogaeth i randdeiliaid. Yn wyneb nodweddion economaidd a daearyddol Cymru a datganiadau polisi Llywodraeth Cymru hyd yma, mae hon yn senario sy'n annhebygol o gael ei gwireddu yn y tymor canolig na'r hirdymor. Fodd bynnag, mae risg mai dyma fydd y sefyllfa debygol yn y tymor byr iawn

o bontio allan o'r Undeb Ewropeaidd a hefyd o bontio allan o'r darpariaethau datblygu gwledig presennol, sydd wedi eu cadarnhau gan raglenni'r Undeb Ewropeaidd hyd 2023. Prif risg y senario yw colli'r wybodaeth a'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma, o leiaf yn y gyfres o dair Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru. Er hynny, un rôl bosibl i Uned Gefnogi byddai manteisio ar y profiad a enillwyd, a chyfrannu at ddatblygu mentrau datblygu economaidd eraill Llywodraeth Cymru.

> *Pa* ***ddewisiadau*** *dichonadwy o weithgarwch a chymorth sy'n bod i atgynhyrchu neu wella ar effaith cadarnhaol yr RDP ac Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru?*
>
> *Beth yw'r dewisiadau a'r modelau a ffefrir fwyaf ar gyfer cefnogi datblygu gwledig cynaliadwy yng Nghymru ar gyfer pob senario bosibl ôl-Brexit a pham?*

6.36 Y brif elfen sy'n gyffredin i bob senario yw y bydd newidiadau mawr mewn cyfnod ôl-Brexit a fydd yn effeithio ar holl amgylchedd datblygu gwledig. Codwyd hyn er enghraifft yng ngweithdy Llywodraeth Cymru ar Senarios Gadael yr Undeb Ewropeaidd:

> *"Newid yw'r unig sicrwydd […] Mae risg sylweddol y gallai newid cyflym direolaeth sy'n peri tarfu ar yr economi yn sgil Brexit gael effeithiau negyddol ar gymunedau gwledig, strwythurau cymdeithasol, economi Cymru a'n hamgylchedd, gan waethygu ymhellach bwysau ar adnoddau naturiol a lleihau gwydnwch ecosystemau".*[24]

6.37 Bydd y newidiadau yn effeithio ar bob rhanddeiliad, ym mhob sector o ddatblygu gwledig. Fel yr amlinellir uchod bydd y newidiadau yn digwydd ym mhob maes gwahanol, boed hynny o fewn fframweithiau cyfreithiol neu leihad mewn cyfleoedd cyllido. Yn ogystal â'r rolau penodol y gallai rhwydwaith gwledig a'r Uned Gefnogi eu chwarae mewn unrhyw senario, mae'n sicr fod rôl i'w chwarae wrth arwain y rhanddeiliaid trwy'r newidiadau a fydd yn digwydd. Yn wyneb y profiad a gronnwyd hyd yma, y dyfnder

[24] Crynodeb o Weithdai Cynllunio Senarios Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Papur o Dystiolaeth ac o Is-Weithgor Bord Gron a Senarios y Pwyllgor Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Chwefror 2018

gwybodaeth a'r rhwydwaith helaeth a sefydlwyd, mae'r Uned Gefnogi mewn sefyllfa gref i ddarparu help a chefnogaeth o leiaf i'r rheini a fydd yn gweithredu mewn ardaloedd gwledig. Gan ddibynnu ar y gylch gwaith a bennir mae potensial hefyd i'r rhwydwaith gwledig a'r Uned Gefnogi lywio ac arwain y newidiadau er budd y rhanddeiliaid.

> *"Bydd ar gymunedau gwledig angen arweiniad, cyfeiriad clir a sgiliau newydd i addasu i'r newidiadau ar y ffordd".*[25]

*6.38* Ym mhob un o'r tair senario mae rolau, neu o leiaf weithgareddau, posibl y gallai Uned Gefnogi a rhwydwaith gwledig fod yn eu chwarae. Mae

[25] Ibidem

6.39 *Tabl 8.1 – Rolau posibl i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru* yn y senarios Ôl-Brexit isod yn cynnig rhai awgrymiadau wedi eu grwpio yn ôl penawdau gwahanol, o dan bob senario. Yr elfennau o gydweithio mae'n debyg yw'r rhai mwyaf diddorol gan eu bod yn galluogi'r rhwydwaith i chwarae rhan benodol na all llawer o gyrff eraill o fewn Llywodraeth Cymru ei chwarae, o leiaf o ran sefydliadau gwledig, ac mae'n adeiladu ar rai o brofiadau'r rhaglen bresennol. Mae'r agweddau gwybodaeth a rhwydweithio hefyd yn ddiddorol gan eu bod yn galluogi'r Uned Gefnogi i elwa ar y profiad presennol ac o leiaf gynnal cysylltiadau a rhannu gwybodaeth gyda grwpiau a rhanddeiliaid.

6.40 Dull LEADER, y Grwpiau Gweithredu Lleol, a'r rhwydweithiau a adeiladwyd hyd yma, sy'n debygol o fod yr elfennau mwyaf anodd i'w cynnwys yn y rhagolwg gan eu bod yn dibynnu'n drwm ar drefniadau polisi a chyllid yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan mai'r rhain yw'r grwpiau llai strwythuredig, ond sy'n dal yn debygol i chwarae rhan mewn unrhyw bolisi seiliedig ar leoedd yn y dyfodol, gallai'r Uned Gefnogi chwarae rhan werthfawr wrth eu cefnogi yn y pontio i'r senario ôl-Brexit, ac efallai helpu adeiladu eu cryfderau yn rhwydwaith cenedlaethol ar lefel Cymru.

**Tabl 8.1 – Crynodeb o senarios**

| | Fframwaith polisi | Fframwaith cyfreithiol | Fframwaith cyllid | Elfennau eraill |
|---|---|---|---|---|
| Senario 1 | • Polisïau gwledig cryf gan Gymru a'r Deyrnas Unedig<br>• Llywodraeth Cymru'n cadw polisi Rhwydwaith Gwledig Cymru<br>• Cysondeb â pholisïau eraill seiliedig ar leoedd yng Nghymru<br>• Cysylltiad â pholisïau'r Undeb Ewropeaidd | • Offerynnau cyfreithiol penodol ar gyfer datblygu gwledig (Cymru a'r Deyrnas Unedig)<br>• Cysylltiad â rhaglenni rhyngwladol | • Pot o gyllid penodol yng Nghymru ar gyfer datblygu gwledig<br>• Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) gyda chymorth datblygu gwledig | • Rhwydwaith Gwledig Cymru<br>• Rhwydwaith Gwledig y Deyrnas Unedig<br>• Posibilrwydd i ymuno â phrosiectau'r Undeb Ewropeaidd<br>• Parhad y math o ddulliau a ddefnyddir gan Grwpiau Gweithredu Lleol a LEADER |
| Senario 2 | • Polisi gwan gan y Deyrnas Unedig ar ddatblygu gwledig<br>• Rhai amcanion polisi gan Lywodraeth Cymru<br>• Dim cysylltiad â pholisi gwledig yr Undeb Ewropeaidd na'r Polisi Amaeth Cyffredin | • Offerynnau cyfreithiol yng Nghymru ar gyfer amaethyddol a dim ond yn rhannol ar gyfer datblygu gwledig<br>• Rhai offerynnau cyfreithiol ar gyfer datblygu lleol (gwledig a threfol) | • Pot o gyllid ar y cyd ar gyfer datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig a threfol (Fframwaith Cymreig)<br>• Lefel isel o gyllid cyfatebol gan sectorau preifat a chymunedol | • Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y dyfodol o fewn rhwydweithiau sy'n bod eisoes (Cyfoeth Naturiol Cymru?)<br>• Rhwydwaith anffurfiol yn y Deyrnas Unedig<br>• Dull gwan gan gymunedau lleol<br>• Cysylltiadau anffurfiol gyda'r Undeb Ewropeaidd a phartneriaid rhyngwladol |
| Senario 3 | • Dim canolbwyntio ar ddatblygu gwledig na pholisïau datblygu economaidd<br>• Diffyg cysondeb (gwrthdaro) polisïau amaethyddol ledled y Deyrnas Unedig | • Dim offerynnau penodol ar gyfer datblygu gwledig | • Dim cyllid wedi ei glustnodi ar gyfer ardaloedd gwledig<br>• Dim cyllid gan Lywodraethau Cymru na'r Deyrnas Unedig | • Dim rhwydwaith gwledig o gwbl<br>• Sectorau'n gweithio ar wahân<br>• Datblygu cymunedol gwan neu absennol |

**Tabl 8.1 – Rolau posibl i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y senarios Ôl-Brexit**

| | *Senario 1* | *Senario 2* | *Senario 3* |
|---|---|---|---|
| **Rhwydweithio** | • Cynnal cysylltiadau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n bod eisoes a datblygu rhai newydd<br>• Cymryd rhan weithredol yn rhwydwaith RDP y Deyrnas Unedig<br>• Cynnal Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n bod eisoes a chreu rhwydwaith Cymreig | • Cynnal cysylltiadau anffurfiol gyda rhanddeiliaid ledled y Deyrnas Unedig<br>• Meithrin cysylltiadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig<br>• Cefnogi dulliau datblygu gwledig lle bo'n bosibl | • Meithrin cysylltiadau rhwydweithio presennol (rhanbarthol, cenedlaethol, a lle bo'n bosib ar lefel ryngwladol). |
| **Llywodraethu / Eirioli** | • Cefnogaeth weithredol i rwydwaith gwledig yng Nghymru<br>• Cynrychioli'r rhwydwaith ar grwpiau rhanddeiliaid yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | • Cynrychioli buddiannau gwledig ar fforymau polisi perthnasol ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig<br>• Cydgysylltu â phartneriaeth ranbarthol a rhoi cymorth. | • Parhau i gydgysylltu â grwpiau perthnasol ar lefel leol a rhanbarthol i hwyluso newidiadau mewn ymyrraeth |
| **Cydweithio** | • Swyddogaeth ragweithiol mewn datblygu prosiectau cydewithio<br>• Trefnu ymweliadau astudio a digwyddiadau | • Cyfrannu at weithgareddau cydweithio Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol | • Gweithredu fel antena ar gyfer gweithgareddau cydweithio posibl yn y Deyrnas Unedig a thramor |
| **Gwybodaeth** | • Adeiladu ar yr wybodaeth a'r gweithgareddau lledaenu presennol<br>• Datblygu gwasanaethau cyfathrebu arloesol i randdeiliaid gwledig er mwyn galluogi newid | • Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i randdeiliaid ar y cyd-destun ôl-Brexit<br>• Parhau i hyrwyddo'r arferion gorau a rhannu enghreifftiau | • Cyfrannu fel offerynnau gwybodaeth adrannau Llywodraeth Cymru a sefydlliadau eraill yng Nghymru i hyrwyddo datblygu gwledig |
| **Cyllid** | • Cefnogi mynediad at gynlluniau cyllido trwy wasanaethau unswydd ar gyfer hyn<br>• Hyrwyddo mynediad at raglenni cyllid cenedlaethol a rhyngwladol sy'n berthnasol i grwpiau gwledig a buddiolwyr | • Cefnogi mynediad at raglenni cyllid (hyfforddiant, seminarau)<br>• Cyfrannu at baratoi a dylunio rhaglenni cyllid Llywodraeth Cymru (eu haddasu ar gyfer ardaloedd gwledig) | • Darparu gwasanaethau gwybodaeth ar gyfleoedd cyllid sy'n berthnasol i ddatblygu gwledig |

**Tabl 8.3 – Cyd-destun y presennol a'r dyfodol**

| | *Fframwaith polisi* | *Fframwaith cyfreithiol* | *Fframwaith cyllid* |
|---|---|---|---|
| Cyd-destun presennol | Polisi Amaeth Cyffredin (Colofn2) (LEADER)<br>Polisi Cydlyniant (Datblygu Cymunedol dan Arweiniad y Gymuned)<br>Cynllun Datblygu Gwledig | Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd<br>Rheoliadau'r Polisi Amaeth Cyffredin<br>Canllawiau Llywodraeth Cymru | EAFRD<br>Cyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru<br>Cyllid arall o'r Undeb Ewropeaidd |
| Cyd-destun y dyfodol | *Polisi Amaeth Cyffredin 2021-2027*<br>Diogelu Dyfodol Cymru<br>Llywodraeth Cymru – Ein Tir<br>Symud Cymru Ymlaen | Fframweithiau Cyffredin y DU<br>Bil Amaethyddiaeth y DU<br>Bil Marchnad Fewnol y DU | Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU<br>Buddsoddiadau rhanbarthol yng Nghymru<br>Bargeinion dinesig |

## 7. Astudiaethau Achos

7.1 Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno tair astudiaeth achos sy’n amlygu gwahanol agweddau o arferion gorau Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol y sylwyd arnynt ledled Ewrop. Mae’r astudiaethau achos wedi cael eu dewis i ategu’r prif sylw ar Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru.

7.2 Cafodd Wallonia (Gwlad Belg) ei ddewis gan ei fod mewn sefyllfa debyg i Gymru fel Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol nad yw’n seiliedig ar wladwriaeth, ond yn hytrach yn gwasanaethu rhanbarth is-wladwriaethol. Mae Rhwydwaith Gwledig Wallonia yn nodedig hefyd am ei gynhwysiant ac am y graddau mae’n cyd-drafod â’i etholwyr gwledig. Mae’r ffordd mae’n canolbwyntio ar weithio thematig, a datblygu “trywydd arloesi” hefyd yn amlygu’r rhan y gall rhwydwaith gwledig ei chwarae wrth feithrin arloesi pellach o fewn datblygu gwledig.

7.3 Cafodd y Ffindir ei dewis oherwydd ei rhagoriaeth gydnabyddedig fel rhwydwaith gwledig. Mae eu harloesi a graddau uchel eu cyd-drafod â chymunedau gwledig yn eu hamlygu fel enghraifft allweddol o’r arferion gorau i rwydwaith gwledig.

7.4 Yn olaf, cafodd Iwerddon ei dewis fel enghraifft o rhwydwaith a gontractir yn allanol yn llwyddiannus, sydd wedi ei ffurfio o gonsortiwm yn cynrychioli gwahanol randdeiliaid o fewn datblygu gwledig.

Réseau wallon de Développement Rural

# Wallonia (Gwlad Belg)

Wallonie

## Cyflwyniad

Nid oes gan Wlad Belg RDP na rhwydwaith sengl cenedlaethol, ond yn hytrach ddau RDP rhanbarthol, un i Fflandrys ac un i Wallonia. Mae Unedau Cefnogi Rhwydweithiau Wallonia a Fflandrys yn cyfarfod yn rheolaidd i ddiweddaru ei gilydd ar eu gwaith ac i ddewis gweithgareddau posibl ar y cyd. Yn achlysurol, mae'r ddau rwydwaith yn cyd-drefnu digwyddiadau a gweithgareddau eraill. Yn yr ystyr hwn, mae achos Gwlad Belg yn debyg i'r Deyrnas Unedig, heb ddim rhwydwaith cenedlaethol, gyda chydweithio anffurfiol yn digwydd rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar weithgareddau RDP ac Uned Gefnogi Rhwydwaith Wallonia, gan fod gan Wallonia nodweddion daearyddol ac economaidd tebyg i Gymru ac yn gweithredu mewn cyd-destun gwleidyddol tebyg ar lefel genedlaethol; ar yr un pryd mae ganddi wahanol fodel gweithredu a dull, felly mae'n ddefnyddiol edrych ar eu harferion a'u cyflawniadau am ysbrydoliaeth bosibl.

## Manylion sylfaenol am y wlad

Mae gan Wallonia boblogaeth o 2.2 miliwn dros arwynebedd o tua 15,000km2, sy'n ei gwneud yn ardal weddol ddwys ei phoblogaeth gyda 148 o drigolion/km2. Mae gan y rhanbarth chwe chanolfan drefol o faint canolig, ond heb un ddinas fawr. Mae'r tir amaethyddol yn gorchuddio tua 42% o'r arwynebedd. Mae'r mwyafrif o ffermydd o faint canolig ac mae'r tueddiad yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf tuag at gynnydd mewn maint tra bod cyfanswm y niferoedd yn lleihau. Mae'r dwysáu hwn yn y diwydiant amaethyddol yn creu pwysau ar yr amgylchedd. Felly, mae RDP Wallonia yn canolbwyntio ar Flaenoriaeth 4, gwarchod yr amgylchedd, y tirwedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae rhan bwysig o'r gyllideb wedi ei neilluo i fesur 11, cefnogi amaethyddiaeth biolegol.

## Rhwydwaith Gwledig ac RDP Wallonia

Caiff rhwydwaith gwledig Wallonia (RWDR) ei arwain gan Gynulliad Rhwydwaith Wallonia, sy'n cynrychioli 34 o sefydliadau. Mae'r cynulliad yn penderfynu ar y blaenoriaethau a'r gweithredoedd i'r rhwydwaith ac yn mabwysiadu dull hyblyg er mwyn galluogi cysylltiadau rhwng yr ardaloedd sy'n rhan o'r RDP a pholisïau datblygu eraill. O dan y cynulliad, mae grwpiau thematig yn gweithio ar themâu fel bioamrywiaeth, y dimensiwn cymdeithasol a choediwgaeth gymdeithasol.

Mae gan RDP Wallonia (PWDR) gyfanswm cyllideb o tua €654m, gyda thua €264m ohono'n dod oddi wrth yr EAFRD. Mae cyfanswm y gyllideb ar gyfer Cymorth Technegol tua €10m wedi ei rannu'n ddau gyfnod. Mae gan Rwydwaith Gwledig Wallonia (RWDR) gyllideb o €2,478,900.

Ar gyfer y cyfnod cyntaf (2015-2018) cafodd y Cymorth Technegol ei rannu'n ddwy brif ffrwd cyllid: 46% ar gamau i gynyddu capasiti gweinyddol y weinyddiaeth gyhoeddus wrth weithredu'r RDP, a 54% ar y gweithgarwch bywiocáu ar gyfer y rhwydwaith.

Mae'r ffrwd cyllido capasiti gweinyddol wedi galluogi adran amaethyddiaeth, cyfoeth naturiol ac amgylchedd Wallonia i gael yr hyn sydd gyfwerth â 12 o staff llawn-amser i gwblhau'r gwaith o gau'r cyfnod rhaglennu blaenorol, gwella gwaith cynlluniau presennol a pharatoi i lansio'r rhwydwaith cenedlaethol presennol (RwDR). Mae hefyd wedi golygu parhad yn sail wybodaeth y weinyddiaeth ac ymdrin â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau.
Mae ail ran y Cymorth Technegol wedi cael ei neilltuo i **weithgarwch bywiocáu** y PwDR, yr hyn sy'n cyfateb i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Caiff y gweithgarwch ei roi'n gyfan gwbl ar **gontract allanol** i ddarparwr gwasanaethau allanol sydd â 6 aelod o staff. Mae'r darparwr gwasanaethau yn eistedd ar bwyllgor monitro RDP Wallonia.

**Argymhellion / gwersi a ddysgwyd**

Mae'r uned gefnogi neu CAR (Cellule Animation du Reseau) wedi cyflawni'r prif swyddogaethau o gyfathrebu, lledaenu'r arferion gorau, a hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag Erthygl 54. Dau brif nodwedd dull CAR oedd **rhagweithgarwch** a **chyd-drafod gweithredol â rhanddeiliaid**.
Mae rhai o'r gweithgareddau penodol sydd wedi bod yn neilltuol o fuddiol i'r rhwydwaith[26] wedi eu crynhoi isod.

1. Sefydlu'r cynllun gwaith mewn modd cynhwysol – Ar ddechrau 2015, i baratoi cynllun gwaith y RwDR cyflawnodd y CAR ddadansoddiad o anghenion y rhwydwaith ac ymgynghoriad helaeth gyda rhanddeiliaid, trwy ddigwyddiadau a gweithdai. Arweiniodd hyn at greu 10 Grŵp Thematig a chreu'r trywydd arloesi (gweler isod). Cafodd mwy o grwpiau thematig eu sefydlu'n ddiweddarach. Mae'r Grwpiau Thematig yn cynnwys amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys seilwaith iechyd, ynni ac amaethyddiaeth, twristiaeth, offerynnau ariannol a chyllid. Mae'r ymarferiad cychwynnol hwn wedi galluogi paratoi cynllun gwaith cynhwysfawr ar y cyd ar gyfer y rhwydwaith. Yn ogystal, mae wedi gosod y sail am gydweithio rhwydweithio dyfnach trwy ddod â'r holl randdeiliaid at ei gilydd o gychwyn cyntaf lansio'r RWDR.

2. Trywydd Arloesi – Mae'r CAR wedi cael y cyfrifoldeb o rôl 'brocer' arloesi i'r RWDR cyfan. Mae un o'r Grwpiau Thematig wedi cael ei neilltuo'n benodol i arloesi ac mae wedi datblygu nifer o offerynnau ac wedi symbylu buddiolwyr RDP i fabwysiadu dulliau arloesol. Mae'r grŵp wedi trefnu nifer helaeth o seminarau a digwyddiadau sydd wedi cyfrannu at greu diwylliant arloesi a gaiff ei ddiffinio fel AKIS Walloon – System Wybodaeth ac Arloesi Amaethyddol. Mae hefyd wedi datblygu map manwl o'r grwpiau a'r rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag arloesi yn y rhanbarth. Mae'r trywydd yn ddyfais fyw y gall y rhwydwaith ei

[26] *Evaluation du Programme wallon de développement rural 2014-2020.* (Rhagfyr 2019) (https://agriculture.wallonie.be/evaluation-du-pwdr)

ddefnyddio i hyrwyddo arloesi ymhellach ac y gall buddiolwyr ei fabwysiadu i gyflwyno arferion newydd yn eu sectorau. Yn y pen draw, y trywydd arloesi sydd wedi galluogi cynnydd y cysyniad o arloesi yn y sector amaethyddol, diolch i dull systemig a gefnogwyd gan amrywiaeth o dechnegau dysgu a lledaenu ac ennyn diddordeb a chynnwys nifer mawr o randdeiliaid ar lefel ranbarthol, genedlaethol a Ewropeaidd gan gyd-drafod yn uniongyrchol â Phartneriaeth Arloesi Ewrop.

3. Hyfforddiant i Grwpiau Gweithredu Lleol – Ar ôl y dewis cychwynnol o 20 Grŵp Gweithredu Lleol gan yr RWDR, gyda 5 ohonynt yn newydd yn y cyfnod hwn, mae'r CAR wedi chwarae rhan allweddol wrth baratoi a chyflwyno sesiynau hyfforddi i adeiladu ar wybodaeth a hyder y Grwpiau Gweithredu Lleol i ymwneud â datblygu ar lefel leol. Mae'r modiwlau hyfforddi wedi cynnwys llawer o agweddau technegol a daeth dros 200 o gyfranogwyr i'r sesiynau ar y cychwyn. Dros y blynyddoedd canlynol mae sesiynau hyfforddi eraill wedi cael eu trefnu gan ddenu dros 400 o gyfranogwyr.

4. Cefnogaeth i gydweithio – Mae'r CAR hefyd wedi mynd ati'n fwriadol i gefnogi buddiolwyr RDP gyda phrosiectau cydweithio. Y canlyniadau uniongyrchol oedd lansio 15 o brosiectau yn y tair blynedd gyntaf, gyda 9 o'r rhain yn rhyng-ranbarthol a 6 yn drawswladol. Mae cefnogaeth y CAR wedi bod yn allweddol wrth baratoi'r prosiectau a helpu lledaenu'r budd ar lefel ranbarthol i'r RWDR.



Rural.fi

# Y FFINDIR

## Cyflwyniad

Mae gan y Ffindir ddau RDP, y naill ar gyfer y tir mawr ac un ar gyfer rhanbarth hunanlywodraethol Ynysoedd Åland. Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar RDP y tir mawr.
Rhwydwaith gwledig y Ffindir, a sefydlwyd yn 2007, yn un o'r rhai hynaf yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n dod â'r amrywiol weithredwyr sy'n ymwneud yn y rhaglenni datblygu gwledig at ei gilydd, gan gynnwys grwpiau gweithredu Leader, cymdeithasau, sefydliadau cynghori a rhanddeiliaid eraill.

## Manylion sylfaenol am y wlad

Maint y Ffindir yw 338,440 km2 gyda chyfanswm poblogaeth o 5.5 miliwn o drigolion, gan ei gwneud y wlad deneuaf ei phoblogaeth yn yr Undeb Ewropeaidd, gyda dim ond 16 o bobl y km2. Mae tua 95% o'r wlad yn wledig a 87% o'r tir yn goedwigoedd a 8% yn amaethyddol. Mae amaethyddiaeth y Ffindir yn seiliedig yn bennaf ar amaethyddiaeth ffermydd teuluol. Mae nifer cymharol uchel o ffermydd ac mae eu maint yn weddol fach.

## Rhwydwaith Gwledig ac RDP y Ffindir

### 1. Adnoddau (staff a chyllid)

Mae gan **Uned Gefnogi** y rhwydwaith gwledig 6 aelod o staff. Cyfanswm cyllid o €10m, gyda €4.2m ohono'n gyllid EAFRD, a'r €5.8m sy'n weddill o gronfeydd cyhoeddus.

### 2. Strwythur rheoli / llywodraethu

Y weinyddiaeth amaethyddiaeth a choedwigaeth yw awdurdod rheoli'r RDP. Mae Uned Gefnogi'r Rhwydwaith o fewn Asiantaeth Materion Gwledig y Ffindir, sef yr asiantaeth sy'n talu. Mae gan Uned Gefnogi'r Rhwydwaith gynllun gwaith a gaiff ei fonitro a'i arwain gan y Grŵp Llywio a sefydlwyd ar gyfer oes y rhaglen. Mae gan y Grŵp Llywio is-grwpiau thematig dros dro, sy'n parhau am hyd at ddwy flynedd; maent yn ymwneud â themâu fel yr amgylchedd, entrepreneuriaeth, arloesi, a phobl ifanc ac maent yn cyflawni prosiectau/gweithgareddau penodol a gweithgareddau'r rhwydwaith.

### 3. Cynlluniau datblygu gwledig cyfredol

Cyfanswm cyllid RDP yn y Ffindir yw €8.3bn (€2.3bn EAFRD). Mae RDP y Ffindir yn ymwneud â phob un o'r chwe blaenoriaeth ac yn canolbwyntio tua 60% o'r cyllid ar **Flaenoriaeth 4** (Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a choedwigaeth). Dyrennir hyn yn bennaf i ddau fesur: Ardaloedd gyda Chyfyngiadau Naturiol (**ANC**) a chynlluniau Amaeth-Amgylchedd/Hinsawdd (**AEC**). O dan y flaenoriaeth hon mae hefyd fesur penodol cydweithio (M16) gyda chyllideb o €12m.

### 4. Nifer o grwpiau rhanbarthol (LEADER neu eraill)

Tri phrif grŵp rhanddeiliaid yr RDP ac Uned Gefnogi'r Rhwydwaith yw: 15 Canolfan ELY (Canolfannau Datblygu Economaidd, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd); 54 o Grwpiau Gweithredu Lleol; yr awdurdodau lleol. Mae

cyfraniad y canolfannau ELY yn galluogi cydweithio gyda'r mentrau a chyllid o lefel llywodraeth genedlaethol/ganolog; mae awdurdodau lleol yn ymwneud yn bennaf â'r taliad i ffermwyr.

**Rôl LEADER**

A hithau'n wlad denau iawn ei phoblogaeth gyda dros 4,000 o bentrefi, mae datblygu cymunedol a gweithgarwch dinasyddion yn chwarae rhan bwysig yn y Ffindir. Adlewyrchir hyn yn y nifer uchel o Grwpiau Gweithredu Lleol. Maent yn dod â gwerth ychwanegol; er enghraifft yn 2018 fe wnaethant gynhyrchu tua 6 miliwn o oriau o wirfoddoli.

*Y dimensiwn cenedlaethol*

Mae gan LEADER ddimensiwn cenedlaethol, er enghraifft mae gwefan genedlaethol LEADER (www.leadersuomi.fi). Mae'r Uned Gefnogi genedlaethol yn chwarae rhan allweddol wrth helpu rhedeg y fenter a'r wefan.

Mae i weithgareddau datblygu lleol ddimensiwn cenedlaethol a strwythur llywodraethu a weithredir ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a thaleithiol. Suomen Kylät yw'r gymdeithas o bentrefi, sefydliad ambarél cenedlaethol ar gyfer datblygu lleol, llesiant cymunedol a chynhwysiant. Mae'r sefydliad yn cynrychioli pob un o'r 54 o Grwpiau Gweithredu Lleol a mwy na 4,000 o bentrefi a rhai grwpiau trefol yn ogystal. Mae hefyd gymdeithasau taleithiol gyda swyddogaethau tebyg, ac maent yn bwydo i mewn i'r gymdeithas genedlaethol.[27][28]

*Y dimensiwn rhyngwladol*

Pan gafodd rhwydwaith y Ffindir ei lansio, cychwynnwyd y cydweithio trwy rwydweithiau yn y gwledydd Nordig a Baltig, ac mae hyn yn dal i fynd heddiw. Mae gan y gymdeithas genedlaethol bwyllgor rhyngwladol hefyd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi ymwneud â mentrau rhyngwladol.

Mae gan LEADER is-fesurau sy'n benodol ar gyfer cefnogi cydweithio ar bob lefel, gan gynnwys prosiectau cydweithio rhyng-ranbarthol a rhyngwladol. Mewn gwirionedd gellir ymgorffori cyllid cydweithio rhyngwladol fel rhan o brosiect pan fo hynny'n hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y prosiect. Gellir tynnu cyllid o ffynonellau eraill hefyd, gan roi'r uchafswm o hyblygrwydd i'r camau gweithredu.[29]

---

[27] https://suomenkylat.fi/

[28] O ganlyniad i waith penderfynol, mae gweithgareddau pentrefi a gweithgareddau Leader y Ffindir eisoes yn adnabyddus yn rhyngwladol fel rhwydwaith gweithgar, cynhyrchiol a chydweithredol. Mae Cymdeithas Gweithrediadau Pentrefi'r Ffindir a'i rwydweithiau ar bob lefel yn sefydliad sy'n datblygu cydweithio a gweithgareddau rhyngwladol ac mae'n dylanwadu ar bolisi gwledig rhyngwladol.

[29] Mae gan ddatblygwyr lleol yn y Ffindir gyfle a rhwymedigaeth i gael effaith rhyngwladol. Mae galw am brofiad a gwybodaeth y Ffindir mewn fforymau rhyngwladol. Caiff y Ffindir ei

**Argymhellion / gwersi a ddysgwyd**

1. Gall lefel leol gweithgaredd (LEADER) elwa ar **fframwaith cefnogi rhanbarthol a chenedlaethol** i helpu cydgysylltu gweithgareddau, hwyluso trosglwyddo gwybodaeth, a datblygu teimlad o ddiben.

2. Mae'r **elfen o gydweithio** (gan gynnwys yn rhyngwladol) yn rhan annatod o wead datblygiad a strwythur llywodraethu prosiectau o'r cychwyn, gan adeiladu ar y cysylltiadau a oedd yn bod eisoes.

3. Cyfathrebu: mae gan wefan uned gefnogi'r rhwydwaith cenedlaethol galendr deinamig o ddigwyddiadau gyda system hidlo soffistigedig a gall defnyddwyr a phartneriaid cofrestredig lwytho eu digwyddiadau'n uniongyrchol. Mae'n gwneud pethau'n haws cael yr holl ddigwyddiadau sy'n mynd ymlaen ar lefel genedlaethol mewn un lle. Gall hyn gynnig esiampl defnyddiol i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru o'r ffordd orau o gyflwyno calendr o ddigwyddiadau.[30]

gwerthuso ee yng ngoleuni cymwysterau gwledydd OECD, fel gwlad flaengar mewn polisi gwledig a datblygu lleol.

[30] https://www.maaseutu.fi/en/trainings-and-events

# IWERDDON



## Cyflwyniad

Un RDP cenedlaethol sydd gan Iwerddon. Yn y cyfnod rhaglennu presennol a blaenorol mae swyddogaethau'r Uned Gefnogi wedi cael eu contractio allan gan yr Awdurdod Rheoli i sefydliadau allanol.
Gall model RDP Iwerddon fod yn astudiaeth achos ddiddorol o ran ei agweddau llywodraethu a gweithredu. Yn ogystal, dyma'r unig ffin diriogaethol sydd gan y Deyrnas Unedig gyda gwlad o'r Undeb Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn arbennig o berthnasol.

## Manylion sylfaenol am y wlad

Mae maint Iwerddon tua 70,000 km2 gyda dros 98% o hyn yn ardaloedd gwledig, ac mae ganddi boblogaeth o tua 4 miliwn o drigolion, gan ei gwneud yn ardal weddol denau ei phoblogaeth. O gyfanswm yr arwynebedd, mae tir amaethyddol yn gorchuddio 71.6 % a thir coedwig 11.5 %. Y ddwy brif her mae'r RDP yn mynd i'r afael â hwy yw nwyon tŷ gwydr a'r angen am genedlaethau newydd mewn ffermio.
Mae cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr y pen yn Iwerddon ymysg yr uchaf yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae 32% o hyn o'r sector amaethyddol, o gymharu â chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd o 8%. Llai na 7% o ffermwyr Iwerddon sydd o dan 35 oed ac felly mae angen ymdrech arbennig o safbwynt adnewyddu cenedlaethau.

## Rhwydwaith gwledig ac RDP Iwerddon

### 1. Adnoddau (staff a chyllid)

Mae gan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Iwerddon 5 aelod o staff. Y cyllid a ddyrennir i'r Rhwydwaith yw €3m, gyda thua €1.6 ohono'n dod o'r EAFRD. Cyfanswm y gyllideb RDP ar gyfer Iwerddon am y cyfnod 7-mlynedd rhwng 2014-2020 yw €4.15 biliwn.

### 2. Strwythur rheoli / llywodraethu

Yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr (DAFM) yw awdurdod rheoli Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) Iwerddon. Mae'r DAFM yn monitro a gwerthuso gwaith yr RDP yn flynyddol.
Mae un Uned Gefnogi genedlaethol i'r Rhwydwaith, a gaiff ei chontractio'n allanol i ddarparwr gwasanaethau allanol a ffurfiwyd o gonsortiwm o dan arweiniad Cyswllt Gwledig Iwerddon mewn partneriaeth â The Wheel, Prifysgol Genedaethol Iwerddon (NUI) Galway a Philip Farrelly & Co. Mae Cyswllt Gwledig Iwerddon yn rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau ac unigolion sy'n ymgyrchu dros ddatblygu gwledig cynaliadwy yn Iwerddon ac Ewrop. Fel corff, mae'n hyrwyddo polisïau sy'n cefnogi buddiannau grwpiau cymunedol mewn ardaloedd gwledig difreintiedig sydd wedi eu hymyleiddio. Cymdeithas genedlaethol Iwerddon o sefydliadau, elusennau a mentrau cymdeithasol cymunedol a gwirfoddol yw The Wheel.

Mae Uned Gefnogi ac Awdurdod Rheoli y Rhwydwaith yn cyfarfod yn chwarterol i drafod cynnydd a wnaed a chamau posibl i'w cymryd yn y chwarter sy'n dod.
Mae'r Awdurdod Rheoli wedi rhoi rhestr o gysylltiadau i Uned Gefnogi'r Rhwydwaith, yn nodi pwy sy'n gyfrifol am yr amrywiol gynlluniau o dan yr RDP. Mae'r Uned Gefnogi felly'n cysylltu gyda'r unigolion sy'n gyfrifol am y gwahanol gynlluniau ac yn cydgysylltu gweithgareddau'r RDP yn rheolaidd.

### 3. Cynlluniau datblygu lleol cyfredol

Mae 29 o Grwpiau Gweithredu Lleol wedi eu sefydlu a'r rhain yn gweithredu ar lefel is-ranbarthol. Mae'r Uned Gefnogi yn darparu is-wefan o fewn y brif wefan gyda gwybodaeth, bwletinau a map rhyngweithiol.
Un o flaenoriaethau canolog RDP Iwerddon yw adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae tri chwarter y cronfeydd wedi eu neilltuo i'r flaenoriaeth hon, gan dargedu dros 1 miliwn hectar o arwynebedd amaethyddol.

| **Argymhellion / gwersi a ddysgwyd** |
|---|

1. **Y Llywodraethu** – Caiff swyddogaeth Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Iwerddon ei chontractio i sefydliad allanol. Mae hwnnw'n gonsortiwm o bedwar partner sy'n cynrychioli gwahanol sectorau a phrofiadau: datblygu gwledig ei hun, y sector gwirfoddol, y diwydiant ffermio a'r sector Addysg Uwch.

   Arweinydd y consortiwm yw **Cyswllt Gwledig Iwerddon**, ei hun yn rhwydwaith cenedlaethol o sefdyliadau ac unigolion yn ymgyrchu am ddatblygu gwledig cynaliadau. **The Wheel** yw cymdeithas genedlaethol Iwerddon o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, sy'n dod â'r profiad a'r wybodaeth o ymwneud â rhanddeiliaid cymunedol. Mae **Prifysgol Genedlaethol Iwerddon** (Galway) yn rhan o'r consortiwm gydag aelodau o Glwstwr Ymchwil Astudiaethau Gwledig y Brifysgol. Yn olaf, mae **Philip Farrelly & Co** yn gwmni preifat o ymgynghorwyr ffermio gyda phrofiad ym mholisi a phrosiectau'r Undeb Ewropeaidd.
   Mae'r consortiwm yn gweithredu trwy'r grŵp Cydgysylltu, y corff gwneud penderfyniadau, lle caiff yr holl aelodau eu cynrychioli gyda hawliau cyfartal. Mae'r Grŵp Cydgysylltu yn cyfarfod yn chwarterol i adolygu gweithgareddau a phenderfynu ar rai yn y dyfodol.

2. Un o fanteision allweddol y model yw gallu'r Uned Gefnogi i gynnwys holl feysydd datblygu gwledig, o'r sector preifat i'r sector cymunedol, o arloesi i ddatblygu lleol. Nid yw'r consortiwm yn cyflawni cynlluniau RDP yn uniongyrchol, ond yn hytrach yn gweithredu fel sefydliad cyswllt cryf ar draws yr amrediad o randdeiliaid. Mae cynnwys sefydliadau gyda gwybodaeth benodol o'u maes yn galluogi cyd-drafod ystyrlon gyda'r gwahanol randdeiliaid sy'n ymwneud â datblygu gwledig a'r cyfle i fanteisio ar amrywiaeth helaeth o arbenigedd.

3. Mae cynnwys Prifysgol Genedlaethol Iwerddon Galway yn y consortiwm wedi arwain at gysylltiadau buddiol i’r ddwy ochr rhwng ymchwilwyr a llunwyr polisi. Mae’r cyswllt uniongyrchol rhwng ymchwilwyr a llunwyr polisi wedi arwain at ymchwilwyr yn gallu archwilio pynciau perthnasol i bolisi, gyda llunwyr polisi yn gallu dylanwadu ar feysydd materion gwledig a gaiff eu hystyried ar gyfer ymchwil. Mae hyn yn gwella’r sail dystiolaeth ar gyfer llunio polisïau. Mae ymchwilwyr hefyd wedi gallu rhoi gwell arweiniad ar gyfer llunio polisïau trwy’r berthynas well hon.

## 8. Dewisiadau ar gyfer y Dyfodol: Pa fath o Rwydwaith Gwledig i Gymru?

8.1 Yn yr adran hon, rydym yn adolygu’r canfyddiadau o’r gwaith maes helaeth a gyflawnwyd fel rhan o’r gwerthusiad ac yn nodi dewisiadau posibl ar gyfer gweithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y dyfodol.

8.2 Mae’r dewisiadau a gaiff eu hystyried yn yr adran hon yn seiliedig ar dair ffynhonnell. Yn gyntaf, byddant yn adlewyrchu syniadau a gasglwyd gan randdeiliaid ar y modd “delfrydol” neu’r “arfer orau” o weithredu rhwydwaith gwledig. Yn ail, maent wedi eu tynnu o’r astudiaethau achos, ac o rwydweithiau gwledig cenedlaethol eraill a welwyd yn ystod yr ymchwil. Yn olaf, bydd y dewisiadau ar gyfer gweithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru a’r Uned Gefnogi yn y dyfodol yn ystyried senarios posibl y dyfodol a amlinellir yn adran 6.

8.3 Gan fod llawer o’r syniadau a gasglwyd gan randdeiliaid yn adlewyrchu “senario ddelfrydol”, mae rhai o’r dewisiadau a ystyrir isod yn uchelgeisiol. Fodd bynnag, maent yn nodi’r hyn a deimlai rhanddeiliaid y byddai’r ffurf orau bosibl o gymorth neu wasanaeth gan Rwydwaith Gwledig Cymru a’i Uned Gefnogi a dylent felly ysbrydoli gweledigaeth am rwydwaith gwledig yn y dyfodol. Bydd yr adran hon hefyd fodd bynnag yn ystyried dewisiadau ar gyfer senarios cyllido llai ffafriol yn y dyfodol.

8.4 O dan bob pennawd isod, nodir dewisiadau a syniadau i’w hystyried ar gyfer rhwydwaith gwledig ac iddo’r arferion gorau. Bydd rhai dewisiadau na fyddant yn gydnaws â’i gilydd, ac archwilir penderfyniadau allweddol y bydd yn rhaid eu gwneud ynghylch strwythur a diben Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y dyfodol. Yn olaf, o dan bob pennawd, bydd asesiad yn cael ei wneud ynghylch sut y byddai tair senario’r dyfodol a nodir yn adran 6 yn effeithio ar y dewisiadau posibl.

**Strwythur, Rheoli a Llywodraethu**

8.5 Cwestiwn allweddol i rwydwaith gwledig yn y dyfodol yw sut y dylai gael ei strwythuro; yn benodol:

*A ddylai eistedd o fewn Llywodraeth Cymru neu gael ei dendro i drydydd parti?*

8.6 Roedd rhanddeiliaid â barnau cymysg ar y cwestiwn a ddylai’r rhwydwaith eistedd o fewn Llywodraeth Cymru neu gael mwy o annibyniaeth, neu’n wir gyfuniad o’r ddau.

8.7 Cafodd manteision eistedd o fewn Llywodraeth Cymru eu nodi fel cael adnoddau a swyddogion Llywodraeth Cymru o fewn cyrraedd haws, a graddau pellach o barhad o’r gwasanaeth presennol. Roedd amryw o randdeiliaid o fewn LEADER yn haeru bod y gallu i anfon ymholiadau at Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru, a’r gallu gan yr Uned Gefnogi i fynd at Lywodraeth Cymru i gael atebion i gwestiynau a oedd yn codi, yn wasanaeth defnyddiol. Mae cael yr hygyrchedd uniongyrchol hwn at y rheini sy’n gweinyddu’r RDP yn un o fanteision y trefniant presennol.

8.8 Er bod, ar y cychwyn, cyfyngiadau sylweddol wedi cael eu gosod ar allu’r Uned Gefnogi i rannu cynnwys yn gyflym ar eu gwefan a chyfryngau cymdeithasol oherwydd eu safle o fewn Llywodraeth Cymru, mae’n amlwg fod y rhwystr sylweddol hwn wedi cael ei oresgyn.

8.9 Soniodd nifer o randdeiliaid am y manteision o gael Rhwydwaith Gwledig i Gymru a oedd yn eistedd y tu allan i Lywodraeth Cymru. Roedd y dewisiadau a ystyriwyd yn cynnwys Rhwydwaith Gwledig Cymru yn cael ei weithredu gan fenter gymdeithasol, cwmni preifat, neu gonsortiwm neu bartneriaeth o sefydliadau fel y gwelir yn Iwerddon. Roedd manteision posibl trefniant o’r fath yn cael eu hyrwyddo fel mwy o ryddid ac ymreolaeth i fod yn ymatebol a deinamig. Teimlad aelod o’r grŵp llywodraeth oedd pe bai trydydd parti yn rhedeg Rhwydwaith Gwledig Cymru, yna byddai ganddynt fwy o symbyliad i gyflawni, gan y byddai eu henw da “yn y fantol”.

8.10 Roedd sawl rhanddeiliad yn nodi y byddai annibyniaeth o Lywodraeth Cymru yn galluogi'r rhwydwaith i weithredu'n well mewn rhai ffyrdd. Byddai'n fwy rhydd i eirioli ar ran buddiannau lleol, a gallai ei ganfyddiad ymysg rhanddeiliaid wella wrth iddynt ddod i'w weld fel rhywbeth mwy na "dim ond un arall o gyrff Llywodraeth Cymru".

8.11 Un peth allweddol a ddysgwyd oddi wrth astudiaeth achos Rhwydwaith Gwledig Iwerddon oedd eu haeriad fod eistedd yn annibynnol o'r llywodraeth yn galluogi'r rhwydwaith i weithredu cynllun datblygu lleol yn well. Roedd hyn yn cael ei ddisgrifio fel rhywbeth llesol oherwydd mae adrannau llywodraeth yn aml yn adweithiol, yn gorfod bod yn ymatebol i bwysau gwleidyddol: "delio â'r hyn sydd o'ch blaen" (Aelod o Gonsortiwm Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Iwerddon). Gall eistedd y tu allan i lywodraeth roi gofod i ddilyn cynllun datblygu neu drywydd heb gael ei lyffetheirio gan yr ystyriaethau mae adrannau llywodraeth yn eu hwynebu. Byddai'r rhwydwaith, mewn theori, yn fwy rhydd i ddilyn cynllun gwaith heb ei lyffetheirio gan "wleidyddiaeth".

8.12 Roedd eistedd y tu allan i lywodraeth yn cael ei ddisgrifio hefyd fel rhywbeth a oedd wedi galluogi Rhwydwaith Gwledig Iwerddon i gysylltu â grŵp llawer ehangach o bobl ar lawr gwlad. Roedd eistedd fel cyfryngwr rhwng llywodraeth a'r sector datblygu gwledig wedi arwain at argraff mwy cadarnhaol o rôl y rhwydwaith, gyda rhanddeiliad "yn gweld y Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol bellach fel lle a fydd yn gwirioneddol hyrwyddo eu gwaith, ac sydd â'u buddiannau yn agos at ei galon" (Aelod Consortiwm Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Iwerddon).

8.13 Gallai mwy o annibyniaeth alluogi Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gyflawni rolau pellach, megis darparu fforwm cryfach ar gyfer trafodaethau polisi. Gall mwy o annibyniaeth annog y rhwydwaith i hwyluso fforwm mwy agored i drafod blaenoriaethau a buddiannau rhanddeiliaid mewn datblygu gwledig. Byddai hyn yn annog rhanddeiliaid datblygu gwledig i sefydlu eu agenda, gyda'r rhwydwaith yn gweithredu fel cyfryngwr rhwng rhanddeiliaid a llywodraeth.

8.14 Trydydd posibilrwydd ynghylch perthynas y rhwydwaith â llywodraeth yw dull hybrid, gyda rhai agweddau o waith y rhwydwaith yn cael ei gontractio allan. Gallai'r agweddau hyn gynnwys cynllunio a chyflwyno digwyddiadau, cymorth arloesi, cyfathrebu, a chynhyrchu astudiaethau achos.

8.15 Mae Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol Prydeinig ac Ewropeaidd eraill wedi ymdrin mewn amrywiol ffyrdd â strwythur Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol mewn perthynas â llywodraeth.

8.16 Mae Rhwydwaith Gwledig yr Alban, er enghraifft, wedi eistedd o fewn Cyfarwyddiaeth Amaethyddiaeth ac Economi Wledig Llywodraeth yr Alban ers 2014, ar ôl cael ei gontractio allan yn flaenorol. Un o'r agweddau negyddol a nodwyd ynghylch y trefniant contractio blaenorol cyn 2014 oedd bod ar y contract gyda Llywodraeth yr Alban angen cyfwerth â 0.5 aelod tîm llawn-amser i'w reoli.

8.17 Ers 2014, mae Rhwydwaith Gwledig yr Alban wedi contractio allan rywfaint o'i waith, gan gynnwys rhywfaint o gynhyrchu fideos neu astudiaethau achos. Mae'r Rhwydwaith hefyd wedi contractio'r gwaith o redeg y Gwasanaeth Cymorth Arloesi Gwledig, sydd wedi cael ei gyflawni gan Gymdeithas y Pridd. Roedd hyn o achos diffyg arbenigedd mewnol.

8.18 Mae Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol Iwerddon yn cynnig astudiaeth achos werthfawr o drefniant lle mae'r Rhwydwaith Gwledig wedi cael ei gontractio allan i gonsortiwm sy'n cynnwys Prifysgol Genedlaethol Iwerddon (Galway), The Wheel (cymdeithas genedlaethol sefydliadau cymunedol a gwirfoddol Iwerddon), Philip Farrely & Co. (cwmni preifat sy'n cynghori ffermydd), a Chyswllt Gwledig Iwerddon fel prif bartner, sydd ynddo'i hun yn rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â datblygu gwledig cynaliadwy.

8.19 Mantais y trefniant hwn yw bod y partneriaid yn ymwneud â llawer iawn o feysydd datblygu gwledig, gyda chysylltiadau ag amrywiaeth

helaeth o randdeiliaid, o fusnes i academia a'r sector gwirfoddol sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig.

*Presenoldeb Rhwydwaith Gwledig ar gyrff llywodraethu*

8.20 Nodwyd yn rhan I fod absenoldeb y Grŵp Awdurdodau Rheoli yn achos diffyg cyd-drafod rhwng rhai rhanddeiliaid fel arweinwyr cynlluniau a pholisi ac Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Arferai'r Uned Gefnogi eisedd ar y Grŵp Awdurdodau Rheoli, ynghyd â dirprwy gyfarwyddwr, a chan y byddai arweinwyr polisi a chynlluniau yn rhyngweithio gyda'r grŵp hwn, byddai cyswllt clir rhyngddynt a'r Uned Gefnogi.

8.21 Mewn cynllun datblygu gwledig ôl-RDP, byddai'n ddoeth i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru eistedd ar gyrff llywodraethu sy'n rhyngweithio â'r sector ac yn ei oruchwylio. Un enghraifft fyddai rhywbeth sy'n cyfateb i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni presennol. Lle'r oedd y Pwyllgor Monitro hwn o'r blaen yn ymwneud â datblygu gwledig yn unig, mae'r Pwyllgor yn y cyfnod cyflawni presennol wedi ymwneud â holl Gronfeydd Strwythurol Ewrop. Byddai cael y Rhwydwaith Gwledig ar yr hyn fydd yn cyfateb i'r Pwyllgor Monitro ac ar unrhyw gyrff llywodraethu yn llesol, gan ei fod yn rhoi cyfleoedd i'r Rhwydwatih ryngweithio'n uniongyrchol â phob sector datblygu gwledig a gallu asesu eu hanghenion. Byddai'r rôl hon yn galluogi'r Rhwydwaith i deilwra ei raglen ar sail yr adborth a dderbyniwyd ar lefel uchaf llywodraethu'r rhaglen neu gynllun.

*Y Grŵp Llywio a'i rôl*

8.22 Gwnaed nifer o awgrymiadau ynghylch sut y gellid gweithredu grŵp llywio'r rhwydwaith gwledig yn well yn y dyfodol. Bydd union rôl y grŵp llywio o fewn strwythur llywodraethu Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn dibynnu ar a fydd y Rhwydwaith Gwledig yn parhau o fewn Llywodraeth Cymru neu a fydd mewn safle gwahanol.

8.23 Gwnaed awgrymiadau gan aelodau'r grŵp llywio a rhanddeiliaid eraill ynghylch sut y gellid integreiddio'r grŵp llywio yn well i waith yr Uned Gefnogi. Awgrym pwysig gan aelod o'r grŵp llywio oedd pa bynnag gamau a gymerir tuag at sefydlu Rhwydwaith Gwledig Cymru ôl-RDP, bydd angen i grŵp llywio gael ei gynnwys yn ei ddatblygiad o'r cychwyn. O dan senarios 1 a 2, mae cynnwys grŵp llywio a rymuswyd o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol er mwyn meithrin ymrwymiad a defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael yn y sector datblygu gwledig. Roedd yr aelod hwn o'r grŵp llywio yn teimlo bod y grŵp llywio wedi cael ei greu heb gynllun penodol, gan ddweud iddo gael ei ffurfio'n rhy hwyr i allu 'llywio' gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru. Yn y dyfodol, meddai, dylai'r grŵp llywio fod ar waith er mwyn dylanwadu ar y ddatblygiad cychwynnol y rhwydwaith gwledig, a chynnig eu harbenigedd ar y cam allweddol hwn.

8.24 Roedd un aelod o'r grŵp llywio yn nodi y gallai'r grŵp llywio yn y dyfodol gynnwys uwch-was sifil fel ei gadeirydd. Gan nodi nad oedd y grŵp llywio wedi gallu gweithredu dylanwad nac awdurdod dros redeg Rhwydwaith Gwledig Cymru, roedd yn awgrymu y byddai cael uwch-was sifil yn cadeirio'r grŵp yn ei alluogi i gael mynediad at lunwyr penderfyniadau o fewn Llywodraeth Cymru. Roedd yn awgrymu y dylai'r cyfrifoldeb o gadeirio'r grŵp gael ei ysgwyddo gan swyddog parhaol o Lywodraeth Cymru yn hytrach na gweinidog er mwyn sicrhau parhad. Mae'r awgrym hwn yn ymateb i'r pryder fod y ffaith fod cadeirydd y grŵp llywio yn aelod etholedig o'r grŵp llywio ei hun wedi arwain at ddiffyg agosrwydd at lunwyr penderfyniadau a ffigurau dylanwadol yn Llywodraeth Cymru, ac wedi cyfrannu at ei wendid cyffredinol.

Un pwynt allweddol a godwyd ynghylch cynrychiolaeth ar y grŵp llywio oedd diffyg cynrychioliaeth o fusnesau preifat. Byddai'n her sicrhau bod cynrychiolaeth busnesau preifat ar y grŵp llywio yn gynrychioliadol o fuddiannau cyffredinol busnesau gwledig preifat yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod eu llais yn cael ei

gynrychioli ar y grŵp llywio gan fod busnesau gwledig yn allweddol i ddatblygu economi wledig gydnerth.

**Cylch Gwaith a Gweithgareddau**

8.25 Mae angen archwilio cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru yn y dyfodol. Un feirniadaeth gyffredin oedd diffyg dealltwriaeth o rôl a diben Rhwydwaith Gwledig Cymru ymysg rhanddeiliaid y tu hwnt i raglen LEADER.

8.26 Problem a nodwyd gyda'r ffordd mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn gweithio ar hyn o bryd yw bod ei gylch gwaith yn anghyson â'i adnoddau, gweithgareddau a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Ers cyfnod presennol y rhaglen, mae rôl Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi ehangu o wasanaethu LEADER i gynnwys y cyfan o'r RDP.

8.27 Roedd y newid hwn mewn rôl yn her i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru – ac yn wir i rwydweithiau gwledig cenedlaethol eraill. Fel y dywedodd un aelod o'r grŵp llywio, erbyn yr adeg roedd y penderfyniad i wasanaethu'r RDP cyfan gael ei wneud, "roedd gan ganghennau eraill o'r RDP eisoes strwythur o ran trefniadaeth a hyrwyddo". Dywedodd y rhanddeiliad nad oedd lle i Rwydwaith Gwledig Cymru mewn maes lle'r oedd Cyswllt Ffermio yn manteisio ar lawer o'r cyfleoedd cydweithio a oedd ar gael. O ganlyniad i'r her hon, mae graddau'r ymwneud gyda'r RDP yn ehangach wedi bod yn anghyson.

*Cylch Gwaith a Disgwyliadau Rhanddeiliaid*

8.28 Nid oedd yr her o orfod ymwneud â'r RDP cyfan yn cael ei helpu gan y diffyg ymwybyddiaeth o gylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru a oedd gan y rheini y tu allan i LEADER. Roedd un rhanddeiliad yn disgrifio gweithrediadau'r Rhwydwaith fel rhai cuddiedig. Gellid cyflawni tryloywder yn well gyda chylch gwaith cliriach, gan alluogi'r holl randdeiliaid i gael disgwyliadau clir am rôl y rhwydwaith, a sut

mae'n cysylltu â'u sefydliadau neu weithrediadau. Un datganiad cyffredin gan rhanddeiliaid y tu allan i LEADER oedd nad oeddent yn gwybod beth yn union roedd Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ei wneud na pha wasanaethau'r oedd yn eu cynnig. Byddai cyfleu cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru i randdeiliaid wedi arwain at well dealltwriaeth o'r gwasanaeth roedd yn ei gynnig, hyd yn oed pe bai hyn wedi ei gyfyngu i gasglu gwybodaeth ar gyfer cylchlythyrau newyddion ac astudiaethau achos. Yn y dyfodol, byddai cyfleu rôl Rhwydwaith Gwledig Cymru yn gliriach yn galluogi mwy o dryloywder ac yn sefydlu disgwyliadau rhanddeiliaid o safbwynt rôl yr Uned Gefnogi.

8.29 Gwers a ddysgwyd o'r cyfnod cyllido hwn felly yw: sut bynnag y caiff y rhwydwaith ei strwythuro ar ôl diwedd cyllid RDP, dylai holl randdeiliaid datblygu gwledig yng Nghymru gael dealltwriaeth gliriach o'i gylch gwaith. Gellir cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd.

8.30 Yn gyntaf, trwy archwilio'r sector datblygu gwledig i asesu sut y gall gwasanaeth rhwydwaith ychwanegu gwerth at eu gweithrediadau, gellir sefydlu Rhwydwaith Gwledig Cymru i ddarparu gwasanaeth gwerthfawr o'r cychwyn i randdeiliaid allweddol. Bydd gwrando ar randdeiliaid ynghylch beth fyddai'r ffordd orau i'r rhwydwaith eu cefnogi, ac wedyn gweithredu'r gwasanaeth yn unol â hynny, yn sicrhau bod cylch gwaith Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn adlewyrchu anghenion rhanddeiliaid sy'n ymwneud â hi, ac felly ei bod yn eglurach i randdeiliaid.

Yn ail, byddai ffurfioli'r berthynas rhwng yr Uned Gefnogi ac arweinwyr cynlluniau yn arwain at well dealltwriaeth ymysg gweithredwyr allweddol o wasanaethau'r Uned Gefnogi. Nodwyd hyn fel gwendid y status quo gan un rhanddeiliad, a ddywedodd "mae llawer o arweinwyr cynlluniau nad ydyn nhw mewn cyswllt â nhw [yr Uned Gefnogi], na'n defnyddio'r Uned Gefnogi. Mae hyn yn rhannol am nad oes mandad na gofyn i wneud hynny, na dull hawdd y cytunwyd arno."

Byddai ffurfioli'r berthynas hon gyda chyflwyniad ffurfiol ar gychwyn y cynllun, gan sicrhau diweddariadau neu wirio rheolaidd yn ystod ei oes, a sefydlu mynediad hawdd at wasanaethau'r Uned Gefnogi, yn sicrhau ymdrin â'r mater hwn yn y dyfodol.

8.31 Yn drydydd, trwy gyd-drafod yn barhaus â holl randdeiliaid datblygu gwledig, ac arolygu'n rheolaidd eu blaenoriaethau a'u hanghenion, gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol i randdeiliaid. Byddai'r dull hwn yn golygu "ymchwil marchnad" cyfnodol o'r sector datblygu gwledig er mwyn diweddaru'r wybodaeth am ei anghenion. Yn ogystal, byddai'r cyswllt hwn â rhanddeiliaid yn gwella ymrwymiad gan randdeiliaid a thryloywder gweithrediadau Rhwydwaith Gwledig Cymru, gan y bydd gan randdeiliaid gyfrwng dwyffordd i ddylanwadau ar weithrediadau'r Rhwydwaith a derbyn gwybodaeth berthnasol am eu gwaith.

8.32 Yn olaf, gallai'r Uned Gefnogi archwilio'r posibilrwydd o strwythur aelodaeth i rai rhanddeiliaid. Gallai hyn gymryd ffurf math ychwanegol o strwythur aelodaeth lle gallai rhanddeiliaid megis arweinwyr polisi a gweinyddol cynlluniau gwledig, busnesau preifat, grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol a sefydliadau ymchwil ac addysg gofrestru fel aelodau. Gallai diben y strwythur aelodaeth ychwanegol hwn fod er mwyn gwahodd ymrwymiad dyfnach gan y rhanddeiliaid hyn wrth benderfynu cyfeiriad a gweithgareddau'r rhwydwaith. Gallai hyn olygu holi'r aelodau hyn yn rheolaidd am eu hanghenion a'u syniadau, gan adael iddynt fwrw "pleidleisiau" dangosiadol ar benderfyniadau a pholisi, cael eu hymateb ar y pynciau ar gyfer gweithio thematig, a gwahodd yr aelodau hyn i gyfarfod cyffredinol blynyddol (ar-lein) i drafod a dylanwadu ar weithgareddau'r flwyddyn ganlynol. Byddai'r strwythur aelodaeth hwn felly yn eistedd rhywle rhwng y grŵp llywio a derbynwyr cylchlythyrau. Gallai strwythur aelodaeth o'r fath arwain at raddau pellach o chwarae rhan a chydweithio, yn ogystal â gwell ymrwymiad, gyda gwahanol randdeiliaid datblygu gwledig sydd wedi bod yn anodd ennyn eu diddordeb o'r blaen.

*Cwmpas Rhwydwaith Gwledig Cymru*

8.33 Gyda'r RDP yn dod i ben, nid yw'n ofynnol mwyach i Lywodraeth Cymru gydymffurfio ag Erthygl 54 yr RDP sy'n gosod cylch gwaith rhwydweithiau gwledig. Mae cyfle felly i ail-lunio cylch gwaith a chwmpas y rhwydwaith.

8.34 Er y bydd senarios posibl y dyfodol, a graddau polisi a chefnogaeth ariannol i ddatblygu gwledig yn sicr o ddylanwadu ar gylch gwaith Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru, gall ffactorau eraill yn ogystal ddylanwadu ar ei gylch gwaith yn y dyfodol. Er enghraifft, hyd yn oed o dan senario 1, gall fod diffyg ewyllys wleidyddol i ymrwymo i weithredu rhwydwaith.

8.35 Mae rhai dewisiadau i'w hystyried fel a ganlyn.

8.36 O dan senario 1, ond hefyd o bosibl o dan senario 2, mae gan Lywodraeth Cymru yr opsiwn o ddarparu cymorth digonol i Rwydwaith Gwledig Cymru i'w alluogi i gyflawni rôl gryfach a mwy strategol mewn datblygu gwledig. Roedd llawer o randdeiliaid yn sôn am y buddion y gallai rhwydwaith gwledig, cryfach, mwy rhagweithiol, eu cyflawni. Mae'r opsiynau a'r sail resymegol dros rwydwaith gwledig cryfach wedi eu nodi yng ngweddill yr adran hon, ond gallai'r buddion gynnwys cydgysylltu mwy strategol o'r sector datblygu gwledig, gwell cysylltiadau rhwng prosiectau, mwy o weithio thematig ar draws y sector gwledig, gan ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd, a chefnogaeth fwy ymarferol i gyflawni Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

8.37 Ni fyddai cylch gwaith cryfach yn doriad sylweddol o angenrheidrwydd o'r cylch gwaith presennol o dan Erthygl 54. Roedd un rhanddeiliad yn nodi bod rheoliadau Erthygl 54 mewn gwirionedd yn eithaf eang ac nad oeddent o angenrheidrwydd yn cyfyngu ar weithgarwch. Y prif wahaniaeth o dan yr opsiwn hwn fyddai Uned Gefnogi ac iddi well adnoddau a chefnogaeth – Uned Gefnogi a fyddai'n cael ei chefnogi i'w chylch gwaith a chapasiti llawn – gydag agenda a diben clir i fynd ati o ddifrif i ennyn diddordeb a chynnwys rhanddeiliaid, gan ddilyn trywydd datblygu gwledig.

8.38 Dewis arall i’w ystyried fyddai ehangu cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru i gynnwys gweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd fel rhanddeiliad allweddol. Mae cyfleoedd i gydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol a Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd ac i’r ddau gynllun sy’n ymwneud â Datlbygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned ddysgu oddi wrth ei gilydd.

8.39 Ar y llaw arall, o dan senarios 1 a 2, gallai Llywodraeth Cymru benderfynu manteisio ar y gallu i leihau, neu gyfyngu ar gylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru o dan gynlluniau cyllido yn y dyfodol.

8.40 O ystyried yr heriau a wynebir mewn ehangu cefnogaeth a gweithgarwch y tu hwnt i LEADER, un dewis felly yw adnabod lle’r oedd y rhwydwaith fwyaf gweithgar a chynhyrchiol, a chael gwared yn ffurfiol ag unrhyw gyfrifoldebau a oedd yn profi i fod yn anodd iddi. Er enghraifft, gallai hyn olygu cyfyngu cyfrifoldeb y rhwydwaith i Grwpiau Gweithredu Lleol a Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned, a chael gwared ar y gofynion i ymwneud â sectorau sy’n dod o dan gylch gwaith ehangach yr RDP ar hyn o bryd. Yn ogystal, gallai benderfynu cyfyngu’r gweithgarwch gyda rhanddeiliaid y tu hwnt i’r rheini sy’n ymwneud â LEADER i ddim ond casglu deunydd ar gyfer gwefan Rhwydwaith Gwledig Cymru a sianelau cyfryngau cymdeithasol. O dan senarios 1 a 2, byddai hyn yn edrych fel rhwydwaith a sefydlwyd yn bennaf i ddibenion cefnogi Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned a disgynyddion LEADER (nid yw’n eglur eto a fydd hyn yn cynnwys datblygu lleol trefol a gwledig), gydag ymwneud cyfyngedig â rhanddeiliaid gwledig ehangach, yn bennaf mewn swyddogaeth gyfathrebu.

8.41 Un fantais o gael eu diffinio’n gulach fel hyn fyddai y gallai ffiniau cyfrifoldebau’r Uned Gefnogi fod yn fwy cyfarwydd a dealladwy i randdeiliaid, a gellid canolbwyntio ymdrechion yn Uned Gefnogi yn well ar y maes lle caiff fwyaf o lwyddiant. O dan senario 2, lle bo pot o gyllid yn cael ei rannu ar gyfer datblygu gwledig a threfol a chefnogaeth gyfyngedig gan lywodraethau Cymru a’r Deyrnas Unedig i ddatblygu gwledig, gallai fod yn fuddiol canolbwyntio adnoddau’r

rhwydwaith gwledig ar Grwpiau Gweithredu Lleol gwledig sy'n profi lefelau is o gyllid a chymorth.

**Cyfathrebu**

8.42 Cafodd cyfathrebu ei nodi fel un o gryfderau Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru, gyda'r wefan yn enwedig yn cael canmoliaeth uchel. Roedd gohebiaeth yr Uned Gefnogi trwy'r wefan, cyfryngau cymdeithasol a'i chylchlythyr yn chwarae rôl bwysig i lawer o randdeiliaid. Er bod gohebiaeth yr Uned Gyfathrebu'n rhannu'r un gofod sector gwledig â Gwlad, mae'r wefan a'r cylchlythyr yn diwallu angen penodol, gyda Gwlad a gohebiaeth yr Uned Gefnogi'n ategu ei gilydd yn dda, wrth wasanaethu gwahanol gynulleidfaoedd.

8.43 Mewn amrywiol senarios cyllido yn y dyfodol, mae'n hanfodol fod swyddogaeth gyfathrebu'r Uned Gefnogi yn parhau. Bydd y rôl hon yn arbennig o bwysig yn y pontio o'r RDP i ffynonellau cyllid ôl-RDP, gan y bydd y newid yn arwain at radd o ansicrwydd i randdeiliaid gwledig. Dylai Rhwydwaith Gwledig Cymru felly fanteisio ar ei safle fel ffynhonnell bwysig o wybodaeth i randdeiliaid yn gweithredu mewn cyd-destunau polisi a chyllid newydd. Mewn adeg o ansicrwydd, mae'n hanfodol cael ffynhonnell sefydledig a chydnabyddedig o wybodaeth ar ddatblygu gwledig. Gall un rôl o'r fath, er enghraifft, gynnwys cyfleu gwybodaeth am gyfleoedd newydd neu wahanol am gyllid, casglu gwybodaeth ynghyd ar ffynonellau, a allai fod yn ddigyswllt, o gyllid ar gyfer prosiectau a oedd yn cael eu cyllido'n draddodiadol trwy'r RDP.

8.44 Hyd yn oed o dan senario 3, lle byddai rhwydwaith yn annhebygol o gael ei gyllido, byddai angen am barhad yn y gwasanaeth a ddarperir gan y wefan a'r cylchlythyr newyddion ar hyn o bryd. Trwy ledaenu gwybodaeth am ddatblygu gwledig sy'n mynd y tu hwnt i amaethyddiaeth, mae'r wefan a'r cylchlythyr yn gwasanaethau elfen allweddol o ddatblygu gwledig a allai fel arall fynd o'r golwg o dan y sector amaethyddiaeth. O dan senarios 1 a 2, dylai swyddogaeth

gyfathrebu Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru barhau er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma.

**Rhwydweithio (gan gynnwys hwyluso gweithgareddau cydweithio yng Nghymru, y Deyrnas Unedig, Yr Undeb Ewropeaidd ac yn ehangach)**

8.45 Mae rhwydweithio yn un o swyddogaethau allweddol Rhwydwaith Gwledig Cymru, ac mae math a chwmpas y gweithgareddau rhwydweithio y gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru eu hwyluso yn y dyfodol yn faes pwysig i'w archwilio. Ar hyn o bryd, mae'r Uned Gefnogi yn hwyluso rhwydweithio mewn nifer o ffyrdd o fewn Cymru, gan gynnwys ymwneud â gweinyddwyr LEADER, cynnal gweithdai a digwyddiadau, a chasglu gwybodaeth a thystiolaeth gan weithredwyr o fewn yr RDP.

8.46 O dan senario 1, pe bai datblygu gwledig yn cael ei gyllido a'i gefnogi'n ddigonol, gallai'r Uned Gefnogi chwarae rhan gryfach mewn rhwydweithio o fewn Cymru. Gellir cryfhau rhwydweithio ar draws sawl ffrynt.

*Rhwydweithio o fewn Cymru*

8.47 Byddai hwyluso rhwydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol mewn modd mwy rhagweithiol yn fuddiol wrth gyflawni prosiectau Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Heb swyddogaeth rhwydwaith, dywedodd un rhanddeiliad fod risg i'r Grwpiau Gweithredu Lleol fynd yn ynysig a thameidiog. Gallai'r rhwydweithio cryfach hwn fod yn ffurf yr Uned Gefnogi yn trefnu a chefnogi cyfarfodydd rheolaidd rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol.

8.48 Roedd llawer o weinyddwyr LEADER yn sôn am eu hawydd i weld mwy o ryngweithio ymysg Grwpiau Gweithredu Lleol. Fel y nodwyd yn adran 2 uchod, roedd rhai o'r rhanddeiliaid allweddol hyn yn feirniadol o rôl anweithredol Rhwydwaith Gwledig Cymru mewn cydweithio a

rhyngweithio ymysg Grwpiau Gweithredu Lleol. Roedd gweinyddwyr LEADER yn sôn am y potensial i Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru fod wedi rhoi cymorth pellach i gyfleoedd cydweithio a rhwydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol, yn enwedig ar lefel Cymru gyfan. Roedd rhwydweithio rhanbarthol gan Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael ei drefnu gan y Grwpiau eu hunain. Roedd Grŵp Gweithredu Lleol y de-orllewin, er enghraifft, yn cyfarfod yn rheolaidd, ac er bod yr Uned Gefnogi yn mynd i'r cyfarfodydd, roedd hynny mewn rôl anweithredol. Roedd Grŵp Gweithredu Lleol y de-ddwyrain yn cyfarfod yn llai aml, ond roedd yn cael ei ddisgrifio gan un a'i mynychai fel fforwm lle byddent yn rhannu syniadau. Roedd rhanddeiliad o'r de-ddwyrain yn nodi sut nad oedd fawr o ryngweithio gyda gogledd Cymru, ond o byddai mwy o gyswllt â hwy wedi bod yn ddefnyddiol. Ychwanegodd ei fod yn teimlo bod rhwyg wedi bod rhwng y gogledd a'r de wrth weithredu LEADER, sy'n dangos yr angen pellach am raddau helaeth o rwydweithio a rhyngweithio rhwng pob Grŵp Gweithredu Lleol.

8.49 Er bod pellter a'r anallu i deithio i gyfarfodydd rheolaidd ym mhen arall Cymru yn cael ei nodi fel rhwystr i ryngweithio, yn y dyfodol, mae'n sicr yn fwy dichonadwy nag erioed i gael graddau helaethach o rwydweithio a chyswllt rheolaidd rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol a'i gilydd ledled Cymru trwy ddefnyddio dewisiadau fideogynadledda.

8.50 Y fantais o fwy o rwydweithio rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol yw y gellir rhoi mwy o bwyslais ar ryngweithio thematig. Mae mwy o bwyslais thematig yn allweddol er mwyn annog cydweithrediadau rhwng amrywiol randdeiliaid a sectorau mewn datblygu gwledig yng Nghymru (gweler mwy ar weithio thematig isod). Bydd mwy o rwydweithio a chyfathrebu rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol yn gymorth i arloesi hefyd. Roedd rhanddeiliad yn sôn sut mae'r arloesi sy'n deillio o ddull LEADER yn gweithio orau pan fo Grwpiau Gweithredu Lleol yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd, gan dreialu prosiectau o leoedd eraill mewn gwahanol gyd-destunau ac amgylchiadau. Mae gweithio gyda'i gilydd yn annog rhannu mwy o

syniadau am brosiectau a gall hwyluso mwy o arbrofi gyda syniadau wrth iddynt gael eu datblygu, eu haddasu a'u hasesu mewn cyd-destunau gwahanol Awdurdodau Lleol.

8.51 O dan senarios cyllido llai ffafriol, megis senario 2, gan yr Uned Gefnogi ddal i gyflawni swyddogaeth rwydweithio i Grwpiau Gweithredu Lleol. O dan senario seiliedig ar leoedd neu un sy'n canolbwyntio ar ranbarthau, pe bai datblygu gwledig yn cystadlu yn erbyn buddiannau trefol, bydd rhwydweithio a chydweithio yn bwysicach fyth rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol gwledig sy'n colli cyllid yn y dyfodol. Gall rhwydwaith gwledig chwarae rhan allweddol mewn annog rhannu syniadau ac adnoddau trwy gydweithio i wrth-wneud unrhyw anfantais. Yn y senario hon gallai prosiectau cydweithio, yn rhai thematig a daearyddol, fod yn fwy deniadol i Awdurdodau Lleol gan y byddai'n eu galluogi i gronni adnoddau i ennill cyllid ar gyfer prosiectau Datblygu Lleol gan Arweiniad y Gymuned yn gwasanaethu ardaloedd a phoblogaethau mwy.

8.52 Gall hwyluso rhwydweithio mewn modd mwy rhagweithiol fynd y tu hwnt i Grwpiau Gweithredu Lleol a Datbygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned a gall gwmpasu rhwydweithio rhwng holl randdeiliaid datblygu gwledig. Bydd y pwynt hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach o dan y pennawd Goruchwylio Strategol isod, ond trwy hwyluso digwyddiadau thematig, gall yr Uned Ddatblygu ddod â rhanddeiliaid mewn datblygu gwledig at ei gilydd i rwydweithio a hyd yn oed gydweithio o gwmpas themâu pwysig o fewn y sector.

*Rhwydweithio gyda Rhwydweithiau Gwledig eraill y Deyrnas Unedig*

8.53 Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch a fydd fframwaith o rwydweithiau gwledig ledled y Deyrnas Unedig ac o fewn y pedair gwlad. O dan senario 1 a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, gallai'n hawdd fod ymrwymiad digonol o San Steffan i'r syniad o rwydwaith gwledig, a allai arwain at rwydwaith ledled y Deyrnas Unedig o rwydweithiau i gymryd lle Rhwydwaith Datblygu

Gwledig Ewrop. Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid yn nodi absenoldeb cymharol Rhwydwaith Gwledig cryf yn Lloegr, ac roeddent yn bryderus o ganlyniad na fyddai fawr o ymrwymiad i rwydwaith gwledig dros y ffin yn Lloegr. Byddai hyn yn arwydd hefyd bod fframwaith gwledig cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn annhebygol.

8.54 O dan senarios 1 a 2, bydd yn hanfodol fod Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru'n cynnal cysylltiadau cryf â rhwydweithiau gwledig eraill o fewn y Deyrnas Unedig. Gall graddfa cyllid ôl-RDP benderfynu a yw'r rhain yn gysylltiadau ffurfiol neu anffurfiol, ond dylid gwneud ymdrechion er hynny er mwyn galluogi rhannu'r arferion gorau a cheisio prosiectau cydweithio perthnasol. Fe wnaeth rhanddeiliaid yng Nghymru a'r Alban dynnu sylw at gyfleoedd i barhau i gydweithio rhwng y ddwy wlad. Roedd rhanddeiliaid yn nodi ei bod yn bwysig cadw perthynas waith dda gyda Rhwydwaith Cenedlaethol yr Alban yn enwedig gan ei fod yn bartner allweddol i Rwydwaith Gwledig Cymru. Nid yw Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi penderfynu eto ar ddyfodol ei rhwydwaith gwledig.

*Rhwydweithio gyda'r Undeb Ewropeaidd*

8.55 Un flaenoriaeth allweddol i sector datblygu gwledig Cymru yn y tymor byr i'r tymor canolig yw cynnal, orau ag sy'n bosibl, y cysylltiadau a'r gydberthynas a sefydlwyd gyda Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol Ewropeaidd eraill. Roedd amryw o randdeiliaid yn nodi'r anhawster o ragweld beth yn hollol sut berthynas a fydd gyda'r Undeb Ewropeaidd a'r ENRD yn y dyfodol, gyda llawer yn nodi'r angen i "aros a gweld" ar hyn o bryd, ac "ddarganfod ffyrdd o gydweithio gyda rhwydweithiau'r Undeb Ewropeaidd ac aelod-wladriaethau unwaith y bydd pethau'n setlo i lawr" (Cynrychiolydd o Rwydwaith Gwledig yr Alban).

8.56 Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru mewn sefyllfa dda i barhau graddau o ryngweithio gyda rhwydweithiau gwledig cenedaethol eraill yr Undeb Ewropeaidd fel gwlad drydydd-parti. Bydd

y berthynas yn dibynnu ar fanylion y cytundeb Brexit a fydd yn cael ei wneud gyda'r Undeb Ewropeaidd. Roedd parch uchel at gyfraniadau'r Uned Gefnogi i'r ENRD, gyda chanmoliaeth i frwdfrydedd Cymru dros rwydweithio ar y lefel hon.

8.57 Bydd graddau'r berthynas yn dibynnu ar lawer o ffactorau, megis yr adnoddau a fydd ar gael i'r Uned Gefnogi, polisi'r Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, a'r cwmpas o gyfleoedd adnabyddadwy. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau ffafriol, mae potensial i barhau gweithgareddau fel mynd i gynadleddau, cyfrannu at esiamplau o'r arferion gorau ac astudiaethau achos i gyhoeddiadau'r ENRD, a hwyluso cysylltiadau rhwng prosiectau datblygu gwledig yng Nghymru a'r Undeb Ewropeaidd. Gall fod yn bosibl hefyd geisio cysylltiadau dwyochrog â gwledydd yr Undeb Ewropeaidd, a dylid archwilio posibilrwydd hyn os na ellir cynnal cysylltiad ffurfiol â'r ENRD.

8.58 Roedd ffigur o'r ENRD yn awgrymu y byddai parhau rhyngweithio â gwledydd yr Undeb Ewropeaidd yn haws pa bai'r Uned Gefnogi yn y dyfodol yn adlewyrchu strwythur Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol yr Undeb Ewropeaidd. Roedd yr unigolyn hwn yn dadlau na ddylai'r Uned Gefnogi wyro'n ormodol oddi wrth y model presennol er mwyn cynnal rhwyddineb cydweithio, a hynny ag y gellir o gysondeb â gweithgareddau Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yr Undeb Ewropeaidd.

*Rhwydweithio gyda gwledydd y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd*

8.59 Trwy chwarae rôl ddigon strategol, Rhwydwaith Gwledig Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i gynrychioli prosiectau datblygu gwledig a blaenoriaethau Cymru gyda phartneriaid rhyngwladol y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd.

8.60 Bydd cyfeiriad cydweithio gyda phartneriaid rhyngwladol yn y dyfodol yn dibynnu ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru. Roedd rhai rhanddeiliaid yn sôn am y posibilrwydd o archwilio cysylltiadau

cryfach â phartneriaid rhyngwladol y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd, megis Canada, Unol Daleithiau America, Seland Newydd ac Awstralia, ond byddai angen i'r cysylltiadau hyn fod yn gyson â strategaeth Llywodraeth Cymru a bod yn ddigon buddiol i'w ceisio. Roedd un rhanddeiliad yn nodi mai datblygiad rhesymegol fyddai nifer llai o gysylltiadau dwyochrog, wedi eu seilio ar strategaeth Llywodraeth Cymru.

8.61 Mae un enghraifft o ddull posibl o gydweithio rhyngwladol yn dod o'r Alban. Roedd aelod o Rwydwaith Gwledig yr Alban yn tynnu sylw at ymdrechion yr Alban i ymwneud â rhwydweithiau'r tu hwnt i'r RDP. Roedd hyn yn cynnwys gwaith gydgysylltu â'r clwstwr Nordig a gwledydd ffin yr Arctig fel olynydd posibl i'w perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn gyson â budd daearyddol wleidyddol yr Alban. Gallai buddiannau Cymru orwedd gyda cheisio cysylltiadau â gwledydd gogledd yr Iwerydd, neu mewn ceisio cysylltiadau thematig gyda phartneriaid rhyngwladol.

8.62 Gelllir ceisio digwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio eraill hefyd trwy sefydliadau megis yr OECD.

**Goruchwylio Strategol**

8.63 Roedd llawer o randdeiliaid yn sôn am y posibilrwydd i Rwydwaith Gwledig Cymru chwarae rhan strategol fwy rhagweithiol wrth hwyluso gweithgareddau a'u cysylltu gyda'i gilydd yn y Gymru wledig.

8.64 Mae'r cyfle amlycaf am rôl fwy strategol yn ymwneud â LEADER a'r cynlluniau Datblygu Lleol gan Arweiniad y Gymuned a fydd yn ei ddilyn, yn benodol mewn cysylltu Grwpiau Gweithredu Lleol â'i gilydd yn strategol pan fo cyfleoedd yn codi am gydweithio. Mae hon yn rôl y gellid ei chwarae o dan senario 1 neu 2, er y byddai angen adnoddau digonol i fuddsoddi amser mewn cynnal darlun o weithgareddau datblygu gwledig, ac mewn cyfleu cyfleoedd i gydweithio rhwng rhanddeiliaid a'i gilydd.

8.65 Byddai'r rôl strategol a mwy hon, fodd bynnag, yn sicrhau bod Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael gwybod wrth ddatblygu a chymeradwyo prosiectau am waith tebyg yn digwydd mewn lleoedd eraill. Mae'r Rhwydwaith Gwledig yn gyfrwng i osgoi dyblygu. Mae Grwpiau Gweithredu Lleol a gweinyddwyr awdurdodau lleol LEADER yn wynebu pwysau adnoddau ac nid ydynt bob amser yn gwybod am gyfleoedd a allai fod ar gael. Gallai swyddogaeth oruchwylio alluogi Grwpiau Gweithredu Lleol i arbed amser a chryfhau ceisiadau am gyllid trwy annog mwy o gydweithio.

8.66 Roedd rhanddeiliaid yn nodi bod arloesi yn aml yn mynd ar goll o fewn Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned oherwydd gwersi nad oedd yn cael eu trosglwyddo, a diffyg mabwysiadu'n llwyddiannus brosiectau a dreialwyd o'r blaen mewn cyd-destunau newydd. Trwy chwarae rhan fwy strategol, gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru fod â'r potensial i ddarparu mwy o gymorth a chanllawiau i'w gwneud yn haws i Grwpiau Gweithredu Lleol ddefnyddio'u hadnoddau'n well. Yng nghamau cynnar datblygu prosiect, er enghraifft, gallai'r Uned Gefnogi hwyluso cysylltiadau rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol sy'n rhannu diddordeb mewn themâu neu fathau o brosiectau, a allai olygu rhannu'r arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o beilotiaid blaenorol, neu gydweithio ffurfiol.

8.67 Gall y rôl strategol hon olygu hefyd drefnu digwyddiadau thematig a chyfleoedd rhwydweithio. Gallai'r Uned Gefnogi ddatblygu agendâu thematig hefyd ar gychwyn pob blwyddyn ar sail diddordebau ac anghenion Grwpiau Gweithredu Lleol, gan arwain gwell cydweithio ar draws themâu megis trafnidiaeth, cysylltedd digidol, ynni adnewyddadwy a phobl ifanc. Byddai hyn yn helpu mewn annog mwy o weithio thematig ledled Cymru.

8.68 Gall y Grŵp Llywio gynorthwyo gweithio thematig. Mae gan Rwydwaith Gwledig y Ffindir, er enghraifft, is-grwpiau thematig dros dro o fewn ei Grŵp Llywio sy'n ymwneud ag amryw o themâu. Mae'r rhain yn dod at ei gilydd am gyfnod o tua dwy flynedd i ymdrin â themâu perthnasol.

8.69 Wrth geisio gweithgarwch thematig, gellir dysgu llawer oddi wrth y RWDR o Wallonia. Mae'r RWDR yn cynnig enghraifft dda o sut y gellir cyflawni gweithio thematig, gan gynnwys amrywiaeth helaeth o randdeiliaid, a manteision dull o'r fath. Mae'r Grwpiau Thematig a sefydlwyd gan yr RWDR wedi arwain at gynllun gwaith cynhwysfawr ar y cyd i'r rhwydwaith, wedi ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid, ac mae wedi galluogi graddau dyfnach o gydweithio ar draws datblygu gwledig.

8.70 Mae hefyd gyfleoedd am rôl strategol fwy mewn meysydd y tu hwnt i LEADER a Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Gall yr Uned Gefnogi, oherwydd ei safle fel corff sy'n casglu gwybodaeth a thystiolaeth gan amrywiol sectorau datblygu gwledig yng Nghymru, chwarae rhan gryfach mewn ffurfio cysylltiadau ar draws datblygu lleol. Dywedodd un rhanddeiliad mai'r hyn y byddent wedi hoffi'i weld yw

> "yr Uned Gefnogi'n gwneud rhywfaint o'r meddwl strategol, i gael goruchwyliaeth ar draws yr RDP a chysylltu pobol gyda'i gilydd â gwybodaeth a chyngor sy'n berthnasol, neu ofyn i bobl am wybodaeth a chyngor fel y gallant wedyn ddehongli, proesu ac wedyn ledaenu – gwneud rhywfaint o'r meddwl."

8.71 Byddai rôl fel hon yn golygu ymwneud mwy gydag amrywiaeth helaethach o randdeiliaid nag a wnaed, ond byddai'n mynd ran bell o'r ffordd at fynd i'r afael â gweithio mewn seilos a cholli cyfleoedd am gydweithio rhwng gwahanol sectorau. Bydd yr angen am oruchwyliaeth strategol o'r fath yn fwy ar ôl yr RDP, gan y bydd cynlluniau a rhaglenni sefydledig yn dod i ben. Mae ymdrin â chynlluniau a rhaglenni a fydd yn cymryd lle'r RDP yn cynnig cyfle i gael trosolwg o'r sector datblygu gwledig, ac i helpu rhanddeiliaid yn y sector i ddod i ddeall y cyfleoedd am gysylltiadau o fewn y cyd-destun newydd.

8.72 Hyd yn oed o dan senario 2, lle mae ymrwymiad i rwydwaith gwledig ac adnoddau yn llai ffafriol, gall yr Uned Gefnogi chwarae'r rhan

strategol hon hyd eithaf ei gallu. Mae'r angen yn dal i fod am oruchwylio, adnabod cyfleoedd am gysylltiadau a chydweithio, ac anogaeth i randdeiliaid gwahanol gynlluniau, rhaglenni a sectorau i rwydweithio â'i gilydd. Bydd adnoddau'n cyfyngu ar raddau'r rôl oruchwylio strategol hon, ond byddai'r Uned Gefnogi yn dal i fod mewn sefyllfa gref i gymryd y cyfrifoldeb hwn, hyd yn oed pe bai'r rôl oruchwylio strategol wedi ei chyfyngu i Grwpiau Gweithredu Lleol.

8.73 Gallai'r rôl strategol hon chwarae rhan hefyd mewn dylanwadu ar agenda datblygu gwledig. Mae'r Uned Gefnogi mewn sefyllfa dda i gyfathrebu ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid i gasglu barnau ar y blaenoriaethau a'r heriau mewn datblygu gwledig, a threfnu calendr o ddigwyddiadau sy'n dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i ymdrin â hwy. Fel hyn, gallai'r Uned Gefnogi helpu sicrhau bod yr amcanion ehangach mewn datblygu gwledig yn aros ar yr agenda, ac annog y sector i weithio'n unol â'r trywydd datblygu gwledig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Ymateb i Ymholiadau a Chyfeirio**

8.74 O dan senario 1 a 2, gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru barhau i gyflawni ei rôl fel corff sy'n ymdrin â chwestiynau a materion sy'n codi o'r sector datblygu gwledig. Roedd rhanddeiliaid, yn enwedig y rheini o fewn LEADER, yn nodi bod yr Uned Gefnogi wedi chwarae rhan werthfawr wrth ateb cwestiynau gwerthdrefnol a oedd yn codi, ac mewn darganfod gwybodaeth pan oedd angen. Mewn un enghraifft o'r fath, cafodd un arweinydd cynlluniau gefnogaeth a chymorth gan yr Uned Gefnogi wrth sefydlu rhaglen newydd, a heb hyn byddai wedi ei chael yn anodd ei lansio.

8.75 Daw'r rôl hon yn fwy angenrheidiol fyth ar ôl yr RDP, gan y bydd y cynlluniau a'r rhaglenni presennol yn cael eu disodli. Mae'n anochel y bydd gweinyddwyr rhaglenni o fewn datblygu gwledig yn wynebu heriau wrth weinyddu o dan gynlluniau cyllido newydd, a bydd cyswllt uniongyrchol â chorff a all roi, neu ddarganfod, atebion i gwestiynau

yn arbennig o werthfawr. Bydd gwasanaeth llwyddiannus yn y cyswllt hwn yn mynd ffordd bellach at sicrhau cychwyn esmwythach i unrhyw raglenni a chynlluniau newydd.

8.76 Mae'n angenrheidiol, felly, sicrhau bod rhanddeiliaid ym mhob agwedd o ddatblygu gwledig yn sylweddoli y gall yr Uned Gefnogi ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod ganddynt gysylltiadau digonol at unigolion allweddol o fewn Llywodraeth Cymru i allu ateb cwestiynau sy'n codi.

**Hyfforddiant**

8.77 Gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru chwarae rhan sylweddol mewn diwallu anghenion hyfforddiant amrywiol grwpiau o fewn datblygu gwledig. Roedd llawer o randdeiliaid o fewn LEADER yn nodi y byddai mwy o gymorth hyfforddi gan yr Uned Gefnogi wedi helpu eu capasiti. Roedd awgrymiadau am feysydd yn gofyn am fwy o hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant i gadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol, hyfforddiant i annog Grwpiau Gweithredu Lleol i fod yn fwy rhagweithiol wrth chwilio a datblygu eu prosiectau eu hunain, a gwell hyfforddiant ar gyfer prosesu a chyflwyno hawliadau. Roedd gweinyddwyr LEADER yn sôn am orfod chwilio am hyfforddiant ar eu pen eu hunain, ac nad oedd y cymorth gan yr Uned Gefnogi yn ddigonol.

8.78 Mae rhwydweithio rhanbarthol a chenedlaethol rhwng grwpiau cysylltiedig hefyd yn fuddiol er mwyn adeiladu capasiti a hyfforddi, gan ei fod yn galluogi staff i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Nodwyd hyn gan un rhanddeiliad fel mecanwaith arferol ar gyfer galluogi aelodau iau neu fwy newydd o staff ddysgu ddod i ddysgu oddi wrth eu cydweithwyr mwy profiadol. Gellid cynnwys mentora neu ddull tebyg fel rhan o gyfleoedd rhwydweithio er mwyn caniatáu mwy o rannu gwybodaeth rhwng staff mwy profiadol a llai profiadol yn gweithio ym mhob agwedd o ddatblygu gwledig, ond yn enwedig o fewn Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

8.79 Roedd rhanddeiliaid yn sôn am y budd y byddai asesiad mwy rhagweithiol o anghenion hyfforddiant yn ei gynnig, a darparu'r adnoddau y gallant eu cael pan fo'u hangen. O dan senario 1, gydag adnoddau digonol, gall yr Uned Gefnogi gynnwys asesiad o anghenion hyfforddiant yn ei rhyngweithio â Grwpiau Gweithredu Lleol i adnabod cyfleoedd i adeiladu capasiti. Gellid ymestyn hyn y tu hwnt i Grwpiau Gweithredu Lleol at grwpiau o fewn datblygu gwledig a fyddai'n elwa o ryw fath o hyfforddiant neu ddigwyddiad gwybodaeth. Er enghraifft, nododd un aelod o grŵp llywio y byddai'n swyddogaeth fuddiol i'r Uned Gefnogi gysylltu grwpiau cymunedol gwledig, megis y rheini sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy, ag arbenigedd a all gefnogi prosiectau. Yr enghraifft a roddodd oedd gweithdy gyda gwas sifil ar sut i sicrhau cyllid ar gyfer eu prosiect.

8.80 Gall hyfforddiant gynnwys hyfforddiant i Grwpiau Gweithredu Lleol ar sut i adnabod ffynonellau newydd o gyllid y tu hwnt i'r RDP ac ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid. Mae Rhwydwaith Gwledig yr Alban wedi cychwyn rhedeg gweithdai gyda rhanddeiliaid gwledig, gan gynnwys Grwpiau Gweithredu Lleol, sy'n ceisio adnabod ffynonellau eraill posibl o gyllid, megis ymddiriedolaethau elusennol a chyllido torfol, a pharatoi strategaethau ar gyfer hyn. Yn y tymor byr, gall hyn fod yn gyfrwng ffrwythlon o gymorth y gall yr Uned Gefnogi ei ddarparu i esmwytho'r pontio at gynlluniau cyllido ôl-RDP, a sicrhau parhad diddordeb ac ymrwymiad Grwpiau Gweithredu Lleol.

**Ymchwil ac Arloesi**

8.81 Mae cyfle i Rwydwaith Gwledig Cymru chwarae rhan wrth hwyluso mwy o gydgysylltu o fewn ymchwil gwledig, ac wrth gyfryngu rhwng Prifysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach a pholisi gwledig Cymru.

8.82 Dywedodd un rhanddeiliad nad oedd ymchwil i faterion gwledig yng Nghymru o angenrheidrwydd yn gydgysylltiedig ar hyn o bryd. Roedd yr angen i wella'r berthynas rhwng polisi gwledig ac academia, a

chydgysylltu'n well yr ymchwil a gyflawnir i faterion gwledig Cymru yn cynnig cyfle i gorff fel Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru. Yn ei swyddogaeth fel corff cydgysylltu rhwng rhanddeiliaid mewn datblygu gwledig, gall yr Uned Gefnogi ddarparu'r cyswllt rhwng polisi ac academia a darparu mecanwaith i annog casglu'r sail dystiolaeth er mwyn deall materion gwledig ac ymdrin â hwy.

8.83 Yn ôl un rhanddeiliad, ers i rôl Arsyllfa Wledig Cymru mewn ymchwilio i faterion gwledig ddod i ben, mae bwlch wedi bod yn y gwaith o gasglu sail dystiolaeth materion gwledig. Er bod y rhanddeiliad yn nodi nad oedd angen dychwelyd at fodel Arsyllfa Wledig Cymru, mae'r angen yn bod am fwy o gydgysylltu ymchwil gwledig a'i gysylltiad â'r agenda polisi.

8.84 Mae Rhwydwaith Gwledig Iwerddon yn cynnig enghraifft ddiddorol o sut mae rhwydwaith gwledig yn hwyluso ymchwil mewn datblygu gwledig. Caiff Rhwydwaith Gwledig Iwerddon ei weithredu gan gonsortiwm, sy'n cynnwys prifysgol gydag arbenigedd ymchwil mewn datblygu gwledig. Mae'r trefniant wedi rhoi sianelau i lunwyr polisi ymgynghori ag ymchwilwyr ar faterion gwledig, a dylanwadu ar brosiectau ymchwil a gyflawnir gan ymchwilwyr sy'n darparu tystiolaeth a gwybodaeth ar feysydd polisi.

8.85 Mae'r cysylltiadau rhwng academia a pholisi wedi bod o fudd i'r ddwy ochr. Roedd cynrychiolydd o Brifysgol Galway yn nodi bod y cysylltiadau â llunwyr polisi yn eu helpu hwy i ddeall yn well sut y gall ymchwil i faterion gwledig gyfrannu at wneud polisïau a gosod sail o wybodaeth ar eu cyfer.

8.86 Mae rôl bwysig felly gallai'r Uned Gefnogi ei chwarae wrth ddarparu fforwm i lunwyr polisi ac ymchwilwyr i ryngweithio mewn ffordd sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Ni all yr angen am gasglu tystiolaeth ac ymchwilio i faterion gwledig ond dwysáu wrth i'r Deyrnas Unedig adael marchnad sengl yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Gymru wledig yn wynebu heriau sylweddol yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau, a gall

yr Uned Gefnogi fod y cyswllt sy'n galluogi llunwyr polisi i gael at yr wybodaeth a'r ymchwil orau yn eu penderfyniadau.

8.87 Gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru chwarae rhan gryfach mewn arloesi hefyd. Mae RWDR Wallonia yn rhoi arweiniad ar sut y gall yr Uned Gefnogi feithrin arloesi mewn datblygu gwledig. Ymysg grwpiau thematig yr RWDR mae Grŵp Thematic Arloesi, sy'n unswydd ar gyfer datblygu dulliau arloesi i symbylu buddiolwyr yr RDP i fabwysiadu agweddau arloesol. Mae hyn wedi cynnwys trefnu digwyddiadau a seminarau. Mae'r Grŵp Thematig arloesi wedi datblygu "trywydd" arloesi, sy'n seiliedig ar fapio manwl o grwpiau a rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag arloesi. Mae'r trywydd wedi helpu arloesi trwy ledaenu'r hyn a ddysgir a chynnwys rhanddeiliaid. Gall yr Uned Gefnogi chwarae rhan amlwg wrth sefydlu grŵp thematig arloesi, a gall, trwy fapio rhanddeiliaid sy'n ymwneud ag arloesi, ddablygu trefn unswydd a chydlynus o gyfnewid gwybodaeth, neu'r System Wybodaeth ac Arloesi Amaethyddol (AKIS).

**Eirioli**

8.88 Gall Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru fod mewn sefyllfa gref mewn senarios cyllido yn y dyfodol i eirioli ar ran datblygu gwledig yng Nghymru. Mae wedi cyflawni rôl eirioli o'r blaen i LEADER, wrth gynrychioli'r rhaglen ac arddangos ei gwerth i Lywodraeth Cymru.

8.89 Byddai'r rôl eirioli y gall yr Uned Gefnogi ei chwarae yn bwysicach o dan senario 2, lle byddai datblygu gwledig yn derbyn llai o gyllid a sylw nag ar hyn o bryd. O dan fframwaith buddsoddi rhanbarthol, gallai rhaglenni a phrosiectau gwledig fod yn cystadlu gyda rhai trefol am gyllid. Gallai sicrhau bod corff yn gallu eirioli ar ran buddiannau gwledig fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebid gan y sector datblygu gwledig yn y senario hon. Yn ogystal, gallai'r Uned Gefnogi eirioli dros *ddatblygu gwledig* pe bai taliadau amaethyddol i ffermydd yn cael y flaenoriaeth yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

8.90 Gallai'r Uned Gefnogi eirioli datblygu gwledig hefyd fel modd o gyflawni blaenoriaethau ehangach. Trwy dynnu sylw at sut y gellir mynd i'r afael â phroblemau fel newid hinsawdd a thlodi trwy ganolbwyntio ar ddatblygu gwledig, gall yr Uned Gefnogi bwyso i amlygu materion a chymunedau gwledig fel rhywbeth sydd angen rhoi sylw iddo.

8.91 Mae cyrff eraill yn bod ar hyn o bryd sy'n eirioli dros fuddiannau gwledig, megis fforwm gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn y dyfodol, yr argymhelliad fyddai i'r Uned Gefnogi adnabod ffyrdd o gydweithio ag eiriolwyr buddiannau gwledig er mwyn sicrhau bod llais datblygu gwledig yn cael ei glywed o fewn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd.

**Monitro a Gwerthuso**

8.92 Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi chwarae rhan yn y gwaith o fonitro LEADER yn ystod cyfnod hwn y rhaglen. Gallai hyn barhau i fod yn rhan o'i chylch gwaith yn y dyfodol, wrth gasglu gwybodaeth fonitro gan Grwpiau Gweithredu Lleol ar weithredu rhaglenni Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned.

8.93 Mae rôl yr Uned Gefnogi o safbwynt monitro wedi newid yn ystod cyfnod cyllido 2014-2020, sydd wedi ychwanegu pwysau ar staff yr Uned i ehangu eu cylch gwaith. Er mwyn darparu adnoddau digonol ac addas ar gyfer cyflawni unrhyw rôl fonitro a gwerthuso, gellir cadarnhau'r angen am gynnwys rhwydwaith gwledig yn y gwaith o fonitro Datblygu Lleol gan Arweiniad y Gymuned, gyda'r rôl hon yn cael ei chynnwys yn ffurfiol yn ei chylch gwaith ôl-RDP.

8.94 Gallai'r rôl hon hefyd gynnwys sicrhau bod gwerthusiadau o raglenni o fewn datblygu lleol yn cael eu hastudio'n ddigonol, gyda'u gwersi'n cael eu dysgu a'r arferion gorau'n cael eu lledaenu ar draws y sector datblygu gwledig. Mae'r Uned Gefnogi eisoes yn cyhoeddi adroddiadau gwerthuso ar ei gwefan, sy'n darparu man cychwyn gwych i ledaenu canfyddiadau. Tasg y rhwydwaith gwledig ddylai fod i

drosi'r canfyddiadau o adroddiadau yn ddeunydd hygyrch i gynulleidfa eang y gellir ei ledaenu a'i ddeall yn hawdd. Byddai troi canfyddiadau'n ffeithluniau yn un ffordd o'r fath o ledaenu canfyddiadau a gwersi a ddysgwyd. Byddai'r swyddogaeth hon yn cydblethu â rôl gyfathrebu'r Uned Gefnogi.

## 9. Argymhellion

9.1 Ar sail yr uchod, cyflwynwn y gyfres hon o argymhellion. Maent wedi eu trefnu yn ôl y sefyllfa a wynebir gan ddatblygu gwledig yn y blynyddoedd i ddod, gan gychwyn gydag arymhellion sy'n ymwneud â'r pontio oddi wrth yr RDP, cyn symud ymlaen at gamau y bydd angen eu cymryd wrth ad-drefnu Uned Gefnogi Rhwydwaith Datblygu Cymru ar gyfer unrhyw raglen yn y dyfodol, ac argymhellion am y gwasanaethau y gall yr Uned Gefnogi eu darparu i'r sector datblygu gwledig.

### Cam 1 – Pontio o'r RDP

*Argymhelliad 1: parhad mewn cyfathrebu*

9.2 Lle bo'n bosibl, dylai fod parhad yn y gwasanaeth cyfathrebu a gyflawnir gan yr Uned Gefnogi yn ysgod y cyfnod pontio ôl-RDP er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd a wnaed hyd yma'n cael ei golli ac y gellir adeiladu arno. Mae hyn yn cynnwys hefyd cynnal presenoldeb a sianelau cyfathrebu ym Mrwsel, er mwyn osgoi gweithredu mewn gwacter.

9.3 Dylai'r Uned Gefnogi ddal i fod y cyfrwng y caiff gwybodaeth ei chyfleu drwyddo i'r sector datblygu gwledig. Mae'r angen hwn yn fwy yn ystod cyfnod pontio.

*Argymhelliad 2: cefnogi digwyddiadau yn ystod y cyfnod pontio*

9.4 Dylai'r Uned Gefnogi archwilio digwyddiadau a gweithdai y gellir eu cynnal yn y cyfnod pontio er mwyn annog aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol i barhau i gymryd rhan ac i roi cymorth, canllawiau a chyfleoedd rhwydweithio.

Pwnc cynhyrchiol i weithdai, er enghraifft, fyddai darganfod ffrydiau cyllid eraill yn lle'r RDP ar gyfer prosiectau.

**Cam 2 – Sefydlu Rhwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi ôl-RD i Gymru**

*Argymhelliad 3: ailddiffinio cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru + Uned Gefnogi*

9.5 Unwaith mae rhywfaint o eglurder i strwythur tirwedd ôl-RDP, a lle mae'r angen a'r cyfle mwyaf, dylid penderfynu ar gylch gwaith Rhwydwaith Gwledig i Gymru a'i Uned Gefnogi, gyda'u cwmpas a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Rhaid i hyn wedyn cael ei gyfleu'n glir i'r holl randdeiliaid allweddol a buddiolwyr posibl, gydag eglurder ar fecanweithiau ffurfiol o gyd-drafod a darparu cymorth yn cael ei gyfleu i'r holl weithredwyr posibl yn y rhwydwaith.

9.6 Bydd effeithiolrwydd gweithrediad Rhwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi sydd newydd eu diffinio yn dibynnu i ryw raddau a yw'r cylch gwaith hwn yn cael ei gydnabod a'i gefnogi'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Gallai hyn olygu ail-lansio'r uned.

*Argymhelliad 4: cytuno ar darpariaeth allanol / mewnol gweithredu'r Uned Gefnogi*

Ar ôl penderfynu cylch gwaith Rhwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi ôl-RDP, dylid penderfynu wedyn ai uned a weithredir yn fewnol neu'n allanol fyddai orau ar gyfer gwasanaethu'r cylch gwaith. Fel dewis arall, gellid mabwysiadu model cymysg, lle mae'r uned yn dal i weithredu o fewn yr awdurdod cenedlaethol, ond yn contractio rhai gwasanaethau i un, neu fwy nag un, trydydd parti.

*Argymhelliad 5: grŵp llywio cynrychioliadol a mandad cadarn*

9.7 Bydd bodolaeth Grŵp Llywio ac iddo fandad cadarn a rôl gryfach wrth lywodraethu Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn bwysig i Rwydwaith Gwledig ac Uned Gefnogi ôl-RDP. Dylai aelodaeth y Grŵp Llywio gynrychioli ac adlewyrchu unrhyw ail-lunio'r cylch gwaith a'r

cwmpas a dylai fod yn ei le ar gychwyn unrhyw benderfyniadau ynghylch Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru.

9.8 Mae pwysigrwydd ychwanegol i rôl Grŵp Llywio pe bai'r Uned Gefnogi'n parhau i fod o fewn yr awdurdod cenedlaethol. Mae hyn fel bod ei gweithredoedd yn cael eu dylanwadu gan safbwyntiau annibynnol cynrychiolwyr ar draws datblygu gwledig. Trwy fabwysiadu cyfarfodydd ar-lein, gall y Grwpiau Llywio fod yn fwy dylanwadol nag erioed.

*Argymhelliad 6: mapio'r sector datblygu gwledig*

9.9 Bydd cyflawni gweitharwch Uned Gefnogi Rhwydwaith Datblygu Gwledig mewn unrhyw senario ôl-RDP yn elwa ar ymarferiad mapio o'r "ecosystem" wledig yng Nghymru, gyda'r cyfrifoldebau, meysydd diddordeb, a chynnwys sectorol yn cael eu nodi ar gyfer gwahanol weithredwyr. Mae sefydliadau a chyrff i gael eu hadolygu yn cynnwys Rhwydwaith Gwledig Cymru, Arsyllfa, Cyswllt Ffermio a Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

9.10 Unwaith mae'r mapio wedi ei gwblhau, gellid wedyn amlinellu a ffurfioli rôl Rhwydwaith Gwledig Cymru mewn perthynas â'r sefydliadau a'r cyrff hyn. Mae angen y dasg hon er mwyn adnabod bylchau yng ngwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru y mae angen i'r cyrff eraill hyn eu llenwi, adnabod meysydd lle mae gorgyffwrdd neu ddyblygu, ac ailedrych a all Rhwydwaith Gwledig Cymru ychwanegu gwerth at waith y cyrff eraill hyn.

9.11 Dylai'r ymdrech hon gynnwys hefyd ymdrechion i alluogi'r rhwydwaith i addasu yn y dyfodol, trwy ymgorffori tueddiadau'r dyfodol a mentrau newydd (yn enwedig yng ngoleuni Adferiad Gwyrdd), yn ogystal â chynulleidfaoedd a gweithredwyr gwledig newydd.

*Argymhelliad 7: cytuno ar fodelau o gynnwys rhanddeiliaid*

Dylai cyfryngau effeithiol ar gyfer cyd-drafod â rhanddeiliaid a gweithgarwch cyd-drafod gael eu ffurfioli, neu o leiaf eu cytuno'n anffurfiol, yn enwedig rhwng yr Uned Gefnogi ac arweinwyr polisi. Dylid archwilio amryw o fodelau cyd-drafod, gan gynnwys ffurf strwythur aelodaeth, er mwyn annog cyd-drafod cryfach ac mewn mwy o ddyfnder ac ennyn ymrwymiad rhanddeiliaid a galwadau am safon uchel o gyflawni.

*Argymhelliad 8: arolygu'r sector yn rheolaidd*

9.12 Yn ogystal â sefydlu trefn fwy ffurfiol a rheolaidd o gyd-drafod â rhanddeiliaid, byddai ymdrech arolygu reolaidd o'r sector datblygu gwledig ehangach yn sicrhau bod gweithgareddau'r Uned Gefnogi a swyddogaeth y rhwydwaith yn parhau i ddiwallu anghenion a gofynion rhanddeiliaid a buddiolwyr.

9.13 O ganlyniad, dylid sefydlu'r gofyniad i arolygu'r sector yn ysbeidiol, yn ogystal â sianelau addas i gynnal ymdrech arolygu o'r fath. Gelir defnyddio'r wybodaeth o'r asesiad hwn ar y cychwyn i lunio trywydd a blaenoriaethau'r Uned Gefnogi yn y dyfodol, ac mewn blynyddoedd dilynol gall weithredu fel ffordd o wirio effeithiolrwydd ei waith yn ogystal â modd o gysoni unrhyw flaenoriaethau sy'n esblygu yn y sector â'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu.

*Argymhelliad 9: cynnal rhywfaint o gysondeb strwythurol â Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yr Undeb Ewropeaidd*

9.14 Ym mhob senario ôl-RDP yn y dyfodol, bydd rhyw radd o gydweithio trawswladol yn bosibl ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Bydd yn rhwyddach galluogi hyn, yn enwedig yn yr Undeb Ewropeaidd, os pery rhywaint o debygrwydd a chysondeb rhwng strwythur a threfniadaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru a'r cyrff Ewropeaidd cyfatebol iddo.

9.15 Er bod gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cynnig cyfle i ailstrwythuro a ailddiffinio’r rhwydwaith a’i weithgareddau y tu allan i gyfyngiadau presennol yr RDP, dylid cyfyngu ar symudiadau sylweddol oddi wrth y strwythurau a mecanweithiau cyflawni yn Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn galluogi cytgordio effeithiol mewn gweithgarwch a rhyngweithio.

**Cam 3 – Swyddogaeth Uned Gefnogi ôl-RDP**

*Argymhelliad 10: galluogi Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gyflawni rôl fwy strategol*

9.16 Mae potensial mawr i’r Uned Gefnogi gyflawni rôl fwy strategol mewn cydgysylltu a hwyluso rhwydweithio a chydweithio ar draws datblygu gwledig, rhywbeth arall y bu galw helaeth amdano. O ganlyniad, byddai’n ddoeth felly i’r rôl hon gael ei chynnwys yn ysgrifenedig mewn unrhyw gylch gwaith a ddiffinir o’r newydd ar gyfer yr Uned. Byddai cyflawni’r rôl hon yn effeithiol yn dibynnu hefyd ar adnoddau digonol.

9.17 Byddai’r rôl hon yn golygu parhau cyd-drafod sylweddol ar draws y rhwydwaith, er mwyn cynnal darlun o weithgareddau a chyfleoedd datblygu lleol, a dangos cyfleoedd am gydweithrediadau rhwng rhanddeiliaid yn unol â’r agenda gwledig. Mae hefyd yn cynnwys mynd ati’n fwriadol i gysylltu rhanddeiliaid ar draws gwahanol gynlluniau, rhaglenni a sectorau mewn ymateb i flaenoriaethau ac arloesi sy’n dod i’r amlwg.

9.18 Yn olaf, mae cyfle i gysylltu’n uniongyrchol â Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan ddarparu sail ychwanegol o dystiolaeth a chynrychioli barnau rhanddeiliaid Rhwydwaith Gwledig Cymru i ddylanwadu ar ymdrechion lobïo’r Fforwm Gwledig ar ran y Gymru wledig.

*Argymhelliad 11: Cyflwyno gweithio thematig fel rhan greiddiol o weithredu Rhwydwaith Gwledig Cymru*

9.19 Gall canolbwyntio ar weithio thematig ddod â rhanddeiliaid mewn datblygu gwledig at ei gilydd i gydweithio a rhannu'r arferion gorau ynghylch pynciau y bernir eu bod o'r pwysigrwydd mwyaf (ee trafnidiaeth, cysylltedd digidol, ynni adnewyddadwy, a phobl ifanc). Mae hyn yn wahanol i ddull sy'n ofodol yn bennaf a chaiff ei alluogi'n helaeth gan gynnydd mewn cyfarfodydd o bell.

9.20 Dylid datblygu agendâu thematig o bryd i'w gilydd gyda'r Grŵp Llywio, ar sail anghenion cydnabyddedig Grwpiau Gweithredu Lleol a rhanddeiliaid gwledig. Gellir cefnogi'r agendâu hyn a'r gweithgareddau dilynol wrth sefydlu is-grwpiau thematig dros dro.

*Argymhelliad 12: Sefydlu Grŵp Thematig Arloesedd*

9.21 Dylai sefydlu Grŵp Thematig Arloesedd, ar yr un patrwm â'r grŵp yn RWDR, fod yn flaenoriaeth. Gall hyn olygu mapio arloesi o fewn y sector datblygu gwledig, a datblygu system gyfnewid arloesedd.

*Argymhelliad 13: Sefydlu cysylltiadau gyda Sefydliadau Ymchwil Cymru*

9.22 Rhaid i ddatblygu gwledig gael ei arwain gan sail gynhwysfawr o dystiolaeth. Mae Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru mewn sefyllfa gref i gyfrannu'n uniongyrchol, trwy gasglu data gwerthfawr, barnau a gwybodaeth gan ei rhanddeiliaid, i'w fwydo'n uniongyrchol i gyrff llunio polisi. Trwy sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda Sefydliadau Ymchwil Cymru, gall y canfyddiadau ymchwil gwerthfawr hyn ddod yn rhan o well sail tystiolaeth ar gyfer polisi datblygu gwledig. Gall yr Uned Gefnogi hefyd ymgorffori canfyddiadau perthnasol mewn digwyddiadau ac wrth gyfathrebu a lledaenu a rhannu ymchwil gyda'r rheini a fydd yn elwa fwyaf.

*Argymhelliad 14: Cofleidio digwyddiadau o bell a manteisio arnynt*

9.23 Mae'r Uned Gefnogi eisoes wedi symud yn effeithiol i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau effeithiol ar-lein. Dylai bellach gofleidio'n llawn y datblygiadau mewn fideogynadledda a'r gallu cynyddol mewn pobl ar ôl Covid-19 i weithredu o bell, er mwyn creu rhaglen lawn o ddigwyddiadau o bell a hwyluso rhwydweithio'n well rhwng rhanddeiliaid, wrth ddefnyddio technoleg o bell.

9.24 Er na all digwyddiadau rhithwir gymryd lle digwyddiadau rhwydweithio personol yn llwyr, maent yn cynnig cyfleoedd i ffurfio cysylltiadau cryfach rhwng grwpiau, a chynnwys amrywiaeth helaethach o gyfranogwyr mewn trafodaethau.

*Argymhelliad 15: Ceisio cyfleoedd i gydweithio a chydweithredu gyda phartneriaid y tu hwnt i Gymru*

9.25 Nid oes neb mewn sefyllfa gystal ag Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gynnal y cysylltiadau presennol gyda Rhwydweithiau Gwledig Cenedlaethol eraill yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Felly, dylid gwneud pob ymdrech i barhau cydgysylltu a chyfathrebu trwy bob sianel sydd ar gael, yn rhai anffurfiol a ffurfiol, gyda chyrff cyfatebol yn y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, yn osgytal â chynnal presenoldeb lle bo'n bosibl ym Mrwsel. Mae hyn er mwyn parhau'r buddion o gydweithio a rhannu gwybodaeth lle bo'n bosibl a chynnal ymwybyddiaeth o gyfleoedd cydweithio yn y dyfodol, boed hynny'n ddwyochrog, neu trwy fframweithiau a rhwydweithiau wedi eu trefnu.

9.26 Dylid gwneud ymdrechion hefyd i gydweithio â phartneriaid mewn datblygu gwledig y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd. Mae cyfleoedd yn bod eisoes trwy LEADER, yn ogystal â'r potensial trwy gytundebau masnach yn y dyfodol.

*Argymhelliad 16: asesu anghenion hyfforddiant rhanddeiliaid*

9.27 Dylai asesiad rheolaidd o anghenion hyfforddiant rhanddeiliaid, yn enwedig i adeiladu gallu mewn Grwpiau Gweithredu Lleol, gael ei ymgorffori yng nghynllun gweithgareddau cyfnodol yr Uned Gefnogi. Gellid adeiladu hyn i mewn i'r arolwg ehangach o'r sector (argymhelliad 8), i helpu arwain amserlen o ddigwyddiadau hyfforddi sy'n gyson â'r anghenion mwyaf. Bydd hyn yn cael ei arwain hefyd gan fewnbwn y grŵp llywodraeth ac is-grwpiau thematig (argymhelliad 11).

*Argymhelliad 17: hwyluso rhwydweithio ymysg Grwpiau Gweithredu Lleol*

9.28 Dylai Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru fynd ati'n fwriadol i sicrhau bod rhwydweithio mwy cynhwysfawr rhwng Grwpiau Gweithredu Lleol ledled Cymru, yn hytrach na gadael hyn i raddau helaeth i'r Grwpiau Gweithredu eu hunain.

9.29 Gellir ychwanegu'n helaeth at hyn trwy ddefnydd parhaus a gwell o ddigwyddiadau ar-lein a hwyluso rhwydweithio (argymhelliad 14), yn ogystal â threfnu mwy o ddigwyddiadau thematig i ddiwallu anghenion cydnabyddeddig Grwpiau Gweithredu Lleol a grwpiau LEADER ac annog rhannu'r arferion gorau, cydweithio, mwy o arloesi, a llai o ddyblygu ymdrechion.

# Atodiad A: Model Rhesymeg Gwerthusiad Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru

### YSGOGWYR POLISI

*Pa bolisi sy'n ysgogi'r angen am Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru?*

| | |
|---|---|
| P.1 | Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig |
| P.2 | Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 |
| P.3 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) |
| P.4 | Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol |
| P.5 | Strategaeth Datblygu Lleol LEADER |

### ANGHENION

*Beth yw'r angen am Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru? Mae angen …*

| | |
|---|---|
| N.1 | Hyrwyddo buddion cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd |
| N.2 | Hwyluso a gwella'r modd y gweithredir yr RDP |
| N.3 | Cefnogi datblygu gwledig o dan arweiniad y gymuned |
| N.4 | Cefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru yn ehangach |
| N.5 | Hyrwyddo datblygu gwledig yng Nghymru yn genedlaethol ac yn rhyngwladol |
| N.6 | Hysbysu Llywodraeth Cymru ar waith ac effaith yr RDP ac ar bolisi yn y dyfodol |

### AMCANION

*Beth mae'r Uned Gefnogi'n ceisio'i gyflawni?*

| | |
|---|---|
| O.1 | Hysbysu'r cyhoedd ehangach a buddiolwyr posibl am ddatblygiadau mewn datblygu gwledig gan gynnwys ar bolisi a chyfleoedd cyllid |
| O.2 | Cynyddu gweithgarwch a rhwydweithio rhanddeiliaid sydd â diddordeb yng ngwaith yr RDP |
| O.3 | Cyfleu a hyrwyddo gweithgareddau rheoli cynlluniau a chyrff gweithredu'r RDP. |
| O.4 | Cynyddu rhwydweithio a chydweithio trawswladol rhanddeiliaid RDP ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop. |
| O.5 | Gwella ansawdd y modd y gweithredir yr RDP yng Nghymru |
| O.6 | Meithrin arloesi mewn datblygu lleol o dan arweiniad y gymuned, amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a choedwigaeth mewn ardaloedd gwledig |

### MEWNBYNNAU / ADNODDAU

*Beth mae'r Uned Gefnogi'n ei gyfrannu er mwyn cyflawni'r amcanion?*

| | |
|---|---|
| IN.1 | Uned Gefnogi:<br>- Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru<br>- 3 Rheolwr Rhwydwaith Gwledig Cymru<br>- Rheolwr Cyllid<br>- Rheolwr Gwefan / Cynnwys |
| IN.2 | Grŵp Llywio |
| IN.3 | Rheolwyr Cynlluniau a Chyrff Gweithredu RDP |
| IN.4 | Grwpiau Gweithredu Lleol |
| IN.5 | Cynllun gwaith blynyddol Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| IN.6 | Prosesau monitro a gwerthuso |

### GWEITHGAREDDAU

*Beth mae'r Uned Gefnogi'n ei wneud gyda'r mewnbynnau er mwyn cyflawni'r amcanion?*

| | |
|---|---|
| A.1 | Gweithredu'r cynllun gwaith blynyddol |
| | Gweithredu fel ysgrifenyddiaeth Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| A.2 | Datblygu dulliau cyfathrebu i hysbysu rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach o weithgarwch RDP |
| A.3 | Datblygu a chynnal gwefan Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| A.4 | Cynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd yn ymwneud â'r RDP i hyrwyddo'r arferion gorau o Gymru ac Ewrop |
| A.5 | Lledaenu gwybodaeth trwy gylchlythyrau newyddion, y wefan, astudiaethau achos fideo a chyfryngau cymdeithasol |
| A.6 | Trefnu digwyddiadau rhwydweithio, hyfforddiant, seminarau, cynadleddau, teithiau maes ac ymweliadau astudio â phrosiectau Cymreig ac Ewropeaidd i rannu gwybodaeth |
| A.7 | Hwyluso cydweithio a rhwydweithio rhyng-diriogaethol ymysg Grwpiau Gweithredu Lleol, Busnesau a Phrosiectau |
| A.8 | Cydgysylltu cyfranogi gyda'r ENRD a chynrychioli Cymru mewn digwyddiadau ENRD |
| A.9 | Casglu a lledaenu canfyddiadau monitro a gwerthuso |

### ALLBYNNAU

*Beth sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol o weithgareddau'r Uned Gefnogi?*

| | |
|---|---|
| OP.1 | Ennyn mwy o ddiddordeb yng ngwefan, cyfryngau cymdeithasol a newyddion Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| OP.2 | Lledaenu gwybodaeth o weithgarwch a'r arferion gorau o dan yr RDP trwy:<br>• Astudiaethau achos<br>• Cylchlythyr newyddion<br>• Digwyddiadau<br>• Prosiectau cydweithio rhanbarthol/ cenedlaethol/ rhyngwladol |
| OP.3 | Datblygu cysylltiadau effeithiol gydag amrywiaeth o randdeiliaid mewnol ac allanol |

### CANLYNIADAU

*Beth yw'r canlyniadau tymor byr a chanolig o'r allbynnau hyn?*

| | |
|---|---|
| OC.1 | Rhanddeiliaid yn chwarae mwy o ran wrth weithredu'r RDP yng Nghymru |
| OC.2 | Gwella'r modd y gweithredir yr RDP a gwella ansawdd datblygu gwledig yng Nghymru |
| OC.3 | Gwella cysylltiadau a rhyngweithio rhwng rhanddeiliaid datblygu gwledig ledled Cymru ac yn rhyngwladol |
| OC.4 | Gwella gwybodaeth o weithgareddau a gweithrediadau mewn datblygu gwledig ymysg rhanddeiliaid datblygu gwledig |
| OC.5 | Gwell arloesi mewn prosiectau RDP ac mewn datblygu gwledig trwy rannau'r arferion gorau a gwersi a ddysgwyd |

### EFFEITHIAU

*Beth yw'r canlyniadau hirdymor o'r allbynnau hyn?*

| | |
|---|---|
| I.1 | Gwell cynhyrchiant, arloesi, amrywiaeth ac effeithlonrwydd yn y diwydiannau bwyd, ffermio a choedwigaeth |
| I.2 | Twf economaidd gwledig cynaliadwy |
| I.3 | Datblygu lleol cryf o dan arweiniad y gymuned yng Nghymru |
| I.4 | Gwrthdroi diboblogi mewn ardaloedd gwledig |
| I.5 | Gwell rhyngweithio rhwng gwahanol sectorau o ddatblygu gwledig |

### FFYNONELLAU DATA

| |
|---|
| Cynllun Gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru 2020 |
| AEM RDP Cymru 2019 |
| Rhaniad Cyfathrebu Rhwydwaith Gwledig Cymru – Grwpiau Gweithredu Lleol Pysgodfeydd, FLAGs 2019 |
| Cofnodion cyfarfodydd Rhwydwaith Gwledig Cymru 2018 |
| Cyflwyniad: Rhaglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 |
| Adroddiadau i'r Comisiwn – 2019 – RDP 2014-2020 |
| Pwyllgor monitro rhaglen Cymru – Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop 2014-2020 |
| Y Deyrnas Unedig – Rhaglen Datblygu Gwledig (Rhanbarthol) Cymru |
| Disgrifiad Swydd – Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru |

### FFACTORAU ALLANOL

*Beth yw'r ffactorau allanol sy'n effeithio ar ganlyniadau gweithrediadau Uned Gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru?*

| | |
|---|---|
| EF.1 | Brexit – newid cyd-destun gwleidyddol, effeithio ar fynediad at yr ENRD, a chymorth gwleidyddol i swyddogaeth rhwydwaith |
| EF.2 | COVID-19 – rhwystro neu arafu cyflawni, rhyngweithio a gweithgareddau mewn datblygu gwledig |